Ar gyfer
Cyngor Celfyddydau Cymru
Rhagfyr 2024

# ADOLYGIAD DAWNS CYMRU



Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
Ffoto: Sian Trenberth Ffotograffiaeth

# ADOLYGIAD DAWNS CYMRU
# WALES DANCE REVIEW

Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd gan KAREN PIMBLEY, Rhagfyr 2024

## Tabl Cynnwys


**YNGHYLCH YR YMCHWILYDD .......... 5**

**CYDNABYDDIAETH .......... 6**

**CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 7**

**BRIFF A CHWMPAS YR ADOLYGIAD .......... 7**
**METHODOLEG YMCHWIL .......... 7**
**CRYNODEB O'R PRIF GANFYDDIADAU .......... 8**
**ARGYMHELLION .......... 9**

TYMOR BYR: YN SYTH, 1-6 MIS 9
**ARGYMHELLIAD 1: .......... 9**
**ARGYMHELLIAD 2 .......... 10**
**ARGYMHELLIAD 3 .......... 10**

TYMOR CANOLIG: 1-3 BLWYDDYN 10
**ARGYMHELLIAD 4 .......... 10**
**ARGYMHELLIAD 5: .......... 11**
**ARGYMHELLIAD 6: .......... 11**
**ARGYMHELLIAD 7: .......... 11**

TYMOR HIRACH: 3+ BLWYDDYN 12
**ARGYMHELLIAD 9: .......... 12**
**ARGYMHELLIAD 10: .......... 12**
**ARGYMHELLIAD 11: .......... 12**

**MESURAU LLWYDDIANT Y SECTOR DAWNS YN GYFFREDINOL .......... 13**

**RHAN 1 CYD-DESTUN CEFNDIROL .......... 14**

**RHAN 2 Y BROSES .......... 16**

**2.1 METHODOLEG .......... 16**
**2.2 YMGYSYLLTU'N GYFFREDINOL .......... 19**
**2.3 YSTYRIAETHAU MOESEGOL .......... 20**

RHAN 3 PRIF GANFYDDIADAU ..... 21
3.1 GWAITH YMCHWIL DESG ..... 21
3.2 YR HYN SY'N GWEITHIO'N DDA ..... 24

3.3 HOLIADUR AR-LEIN ..... 26
3.3.1 YMATEBWYR ..... 27
3.3.2.1 YR ECOLEG DDAWNS BRESENNOL ..... 30
3.3.2.2 Y SECTOR SY'N DERBYN CYMHORTHDAL YN ERBYN Y SECTOR MASNACHOL ..... 31
3.3.2.3 CYLLID Y CYNGOR AR GYFER DAWNS ..... 32
3.3.2.4 RÔL CWMNI DAWNS CENEDLAETHOL ..... 33
3.3.2.5 AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT ..... 35
3.3.3 DATBLYGU HYBIAU CYMUNEDOL A ALLAI GEFNOGI DAWNS ..... 36
3.3.4 DATBLYGU ASIANTAETH DATBLYGU DAWNS CENEDLAETHOL ..... 37
3.3.5 SGORIO'R SECTOR DAWNS A'I DYFODOL ..... 38

3.4 SGYRSIAU CREADIGOL ..... 40
3.4.1 SEFYLLFA BRESENNOL Y SECTOR ..... 40
3.4.2 DADLAU ACHOS DAWNS ..... 40
3.4.3 Y DYFODOL ..... 41

3.5 SGYRSIAU UN-I-UN ..... 43
3.5.1 LLEOLIADAU A THEITHIO ..... 43
3.5.2 ARTISTIAID ANNIBYNNOL A CHWMNÏAU BACH ..... 44
3.5.3 DAWNS GYMUNEDOL ..... 45
3.5.4 DAWNS DRADDODIADOL CYMRU ..... 47
3.5.5 DATBLYGU PROFFESIYNOL PARHAUS ..... 47
3.5.6 DAWNS MEWN ADDYSG ..... 48
3.5.7 AMRYWIAETH A NEWID DIWYLLIANNOL ..... 50
3.5.8 ARWEINYDDIAETH ..... 51

3.6 SYLWADAU O'R BWRDD GWYN AR-LEIN A NEGESEUON E-BOST ..... 52

RHAN 4 ARGYMHELLION ..... 53
BYRDYMOR: YN SYTH, 1-6 MIS ..... 53
4.1 ARWEINYDDIAETH ..... 54
ARGYMHELLIAD 1: ..... 54
ARGYMHELLIAD 2 ..... 54
ARGYMHELLIAD 3 ..... 55

TYMOR CANOLIG: 1-3 BLWYDDYN ..... 55
4.2 GWEITHREDU HYBIAU CELFYDDYDAU CYMUNEDOL WEDI'U CYD-LEOLI ..... 55
ARGYMHELLIAD 4 ..... 56
4.3 ASIANTAETH DDATBLYGU DAWNS GENEDLAETHOL I GYMRU DAN ARWEINIAD ARTISTIAID ..... 58
ARGYMHELLIAD 5: ..... 58
4.4 DATBLYGU'R GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU TRWY DDAWNS ..... 60

4.5 DAWNS MEWN YSGOLION ..... 62
ARGYMHELLIAD 7: ..... 63
4.6 PROSESAU YMGEISIO AM GYLLID ..... 63

TYMOR HIRACH: 3+ BLWYDDYN ..... 63
4.7 DATBLYGU MODEL ARTIST PRESWYL ..... 64
ARGYMHELLIAD 9: ..... 64
4.8 DAWNS MEWN ADDYSG BELLACH / ADDYSG UWCH ..... 66
ARGYMHELLIAD 10: ..... 66
ARGYMHELLIAD 11: ..... 66

MESURAU LLWYDDIANT Y SECTOR DAWNS YN GYFFREDINOL ..... 67

CYFEIRIADAU ..... 68

ATODIAD 1 ..... 68

ATODIAD 2 ..... 73

## Ynghylch yr ymchwilydd

Karen Pimbley yw Pennaeth Rheoli Celfyddydau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng *Nghaerdydd. Mae hefyd yn gweithio fel ymgynghorydd ac ymchwilydd celfyddydol llawrydd. Trwy* gydol ei gyrfa broffesiynol, mae Karen wedi chwarae rhannau gwahanol yn y byd dawns. Bu'n gweithio gyda Chwmni Dawns Dimensions am ddau gyfnod gwahanol – ar ddechrau'r 1990au i gychwyn, ac wedyn o 2000 ymlaen, gan chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o drawsnewid y corff yn Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Roedd yn gyfarwyddwr Dawns Annibynnol Cymru am naw mlynedd, yn helpu i lywio'r sefydliad o gwmni bach yn seiliedig ar brosiect i gleient a dderbyniai cyllid refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae ei phrofiad yn y diwydiant hefyd yn cynnwys gweithio fel cynhyrchydd annibynnol ar gyfer teithiau dawns ar raddfa fach a gwyliau dawns, aelodaeth o Banel Strategaeth Ddawns Cyngor Celfyddydau Cymru, a llunio astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer datblygu Canolfan Genedlaethol Dawns Cymru yn 1997.

Ym maes addysg dawns, bu'n gweithio fel Ysgrifennwr Dylunio Ansawdd i gwmni Pearson Education, yn dylunio modiwlau ar gyfer cwricwlwm Dawns BTEC Lefel 3 ac yn gweithio fel Prif Wiriwr Allweddol Pearson ar gyfer Dawns. Lluniodd cwrs Perfformio Dawns BA (Anrh.) i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, roedd yn aelod o grŵp llywio'r cwrs Dawns Cymunedol BAEd (Anrh.) yn UWIC, a sefydlodd cwrs dawns lefel 3 yng Ngholeg Gwent.

Mae ei hymchwil ddoethuriaeth yn astudiaeth bwysig sy'n dogfennu'n gynhwysfawr datblygiad perfformio dawns gyfoes broffesiynol yng Nghymru. Yn trafod y cyfnod o ddechrau'r 1970au hyd heddiw, ystyrir y gwaith ymchwil hwn yn arwyddocaol yn genedlaethol fel yr archwiliad mwyaf cynhwysfawr o ddatblygiad dawns yng Nghymru. Mae'r ymchwil ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, gyda sawl casgliad ar gael i'r cyhoedd trwy Gasgliad y Werin Cymru.

Mae cyfuniad unigryw Karen o brofiad arwain, dealltwriaeth fanwl o sector dawns Cymru, gwybodaeth eang am deithio, cysylltiadau rhwydwaith lleoliadau cynhwysfawr, ac arbenigedd ymchwil, yn ei gwneud yn eithriadol o addas i gyflawni prosiectau ymchwil ym maes dawns.

Mae Karen yn cynnal ymagwedd amhleidiol at ei gwaith. Yn ymddiriedolwr i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar hyn o bryd, cafodd holl sylwadau a gwaith dadansoddi'r adolygiad hwn eu trin yn ofalus er mwyn aros yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Nid yw ei pherthynas â'r corff hwnnw wedi dylanwadu ar ei gynnwys a/neu ei argymhellion.

## Cydnabyddiaeth

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am gomisiynu'r adolygiad hwn o ddawns yng Nghymru yr oedd mawr ei angen, ac am ei ariannu.

Diolch yn ddiffuant i'r Athro Helena Gaunt a Mark Davies yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a fu mor hael â chytuno i'm rhyddhau o fy nyletswyddau fel Pennaeth Adran er mwyn imi gyflawni'r adolygiad.

Rwyf yn ddiolchgar i'r bobl ganlynol am eu cefnogaeth trwy gydol yr adolygiad: Lynwen Davies, Nerys Hurford a Heledd Davies am gyfleusterau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, a Laura Drane a Chris Batsford yng Nghyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth barhaus ac am ddarparu data. Diolch hefyd i Helen Frost yn drawtheideas.com am y gwaith celf a ddogfennodd cyfarfodydd Sgwrs Greadigol yr adolygiad. Mae gwaith Helen wedi'i gynnwys yn yr adolygiad.

Yn olaf, diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau fel rhan o'r adolygiad. Mae'r holl sgyrsiau wedi bod yn onest, yn agored ac yn ddidwyll, ac maent yn rhoi i'r adolygiad safbwyntiau amhrisiadwy o ledled Cymru a thu hwnt. Roedd y broses ymgysylltu gynhwysfawr hon yn hanfodol i'r gwaith o ddatblygu darlun cyflawn o'r dirwedd ddawns ledled Cymru, ond mae wedi bod yn fraint wirioneddol i dreulio amser gyda phobl, yn gwrando ar eu barn am ddawns.

KAREN PIMBLEY

Rhagfyr 2024

# crynodeb gweithredol

## BRIFF A CHWMPAS YR ADOLYGIAD

Un o ganlyniadau cyhoeddedig Adolygiad Buddsoddiad 2023 Cyngor Celfyddydau Cymru oedd comisiynu adolygiad o ddawns gymunedol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn dilyn galwadau gan y sector dawns a chyfarfodydd gydag aelodau ohono, ehangwyd ar gwmpas yr adolygiad i ystyried yr ecoleg ddawns gyfan yng Nghymru.

Gan adeiladu ar wybodaeth bresennol o'r sector, mae'r adolygiad hwn yn cynnig dealltwriaeth o faterion cyfredol a dyfodol dawns yng Nghymru, ac mae'n rhan o ystod o Ymyriadau Strategol ar gyfer dawns gan y Cyngor. Mae'n defnyddio adborth a gafwyd yn flaenorol gan randdeiliaid, ac yn ystyried sector dawns Cymru trwy:

- waith ymchwil maes
- gwaith ymchwil cyhoeddedig
- ystyried modelau llwyddiant o'r DU a thu hwnt, ac ar draws celfyddydau gwahanol.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar yr ecosystem ddawns gyfan yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchu a pherfformio dawns, dawns gymunedol, dawns mewn addysg, dawns ar gyfer iechyd, dawns amatur a chymdeithasol, ac ysgolion dawns masnachol. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sefyllfa bresennol dawns yng Nghymru, yn archwilio modelau cymaradwy ar gyfer llywio gwaith datblygu sector posibl, ac yn cynnig argymhellion ar gyfer dyfodol dawns yng Nghymru.

Er iddo gydnabod y gorffennol, prif flaenoriaeth yr adolygiad yw ystyried y ffordd gall dawns yng Nghymru symud ymlaen drwy harneisio arbenigedd, angerdd ac ymrwymiad pobl yn y sector. Y nod yw creu amgylchedd mwy amrywiol a theg, gwella iechyd a llesiant, hyrwyddo ymarfer gorau, a chydnabod lleisiau'r rhai a deimlodd ers hydoedd eu bod ar y cyrion.

Mae'r adolygiad yn rhoi ciplun o'r sefyllfa ar ddiwedd 2024, ac mae'n cydnabod bod amodau'n newid ac yn datblygu o hyd. Felly mae'n bosibl y bydd rhai o'r materion a godwyd fel rhan o'r adolygiad yn cael eu datrys dros amser heb fod angen ymyriadau pellach.

## METHODOLEG YMCHWIL

Mabwysiadodd fframwaith ymchwil yr adolygiad ymagwedd ansoddol ac aml-ddull, gan gynnwys:

- Gwaith ymchwil desg, gan ddefnyddio deunyddiau ysgrifenedig, data ac astudiaethau achos a fodolai eisoes.
- Gwaith ymchwil maes yn canolbwyntio ar gipio safbwyntiau unigol ac ar y cyd, gan bwysleisio syniadau a theimladau.

Defnyddiwyd dulliau amrywiol i gasglu barn yn ystod deufis y cyfnod ymgynghori maes, gan gynnwys holiadur ar-lein, bwrdd sylwadau ar-lein, cyfres o gyfarfodydd arddull fforwm o'r enw 'Sgyrsiau Creadigol', cyfarfodydd unigol un-i-un a negeseuon e-bost. Yn ogystal, trefnwyd nifer o ymweliadau

addysgol i gasglu barn myfyrwyr am ddawns, a mynychwyd cynyrchiadau dawns proffesiynol gan artistiaid dawns a leolwyd yng Nghymru. Mae'r adolygiad wedi canolbwyntio ar gasglu barn trwy'r gwaith ymchwil maes, gan fod dull ansoddol yn cynhyrchu data prosesu cyfoethog, manwl a dilys yn seiliedig ar safbwyntiau a dehongliadau'r cyfranogwyr, yn hytrach na rhai'r archwilydd. Hwn felly oedd y fethodoleg fwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer yr adolygiad.

## CRYNODEB O'R PRIF GANFYDDIADAU

Er y defnyddiwyd nifer o fecanweithiau gwahanol i gasglu data ar gyfer yr adolygiad, roedd llawer ohonynt yn ailadrodd yr un materion, neu rai tebyg. Mae'r adroddiad llawn yn dadansoddi'r canfyddiadau yn elfennau ymchwil allweddol, ond mae crynodeb o'r canfyddiadau a gafwyd gan yr ymatebwyr ar draws yr holl fecanweithiau fel y ganlyn:

**Darnio'r sector a chystadleuaeth**: Mae ecosystem gystadleuol rhwng artistiaid dawns oherwydd prinder adnoddau sy'n aml yn rhwystro cydweithredu ac yn creu amgylchedd gweithio amddiffynnol.

**Anghyfartaledd daearyddol**: Mae rhaniadau gwledig-trefol a gogledd-de yn cyfyngu ar fynediad artistiaid dawns a chynulleidfaoedd i ddawns. Mae ardaloedd gwledig fel Sir Benfro a Phowys yn wynebu heriau arbennig o ddifrifol.

**Cyllid y Cyngor**: Caiff cyllid refeniw'r Cyngor ei wario'n bennaf yn ne-ddwyrain Cymru, gan gyfyngu ar gyfleoedd mewn rhanbarthau eraill. Galwyd am ymagwedd decach a mwy cydweithredol yn y ffrwd arian Loteri a'r ffrwd arian refeniw. Awgrymwyd y dylid adolygu Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru hefyd.

**Heriau dawns gymunedol**: Mae ansefydlogrwydd ariannol yn effeithio ar artistiaid dawns llawrydd sy'n gweithio mewn cymunedau ledled Cymru. Galwodd sawl un am ddatblygu hybiau i gefnogi'r gwaith o rannu adnoddau ac ymarfer da, gan gynnig cynaliadwyedd. Datblygodd hyn yn syniad o gael hybiau celfyddydau wedi'u cyd-leoli ledled Cymru, er mwyn integreiddio dawns â chelfyddydau eraill. Gallai'r rhain ganolbwyntio ar gynnig allgymorth i gymunedau sydd heb wasanaethau digonol, a meithrin cydweithredu traws-gelfyddydol. Byddai croestorri â chanfyddiadau'r adolygiad theatr Saesneg yn fuddiol.

**Ymarferion ar wahân ac elitaidd**: Ystyriwyd y sector yn elitaidd, yn docenistaidd ac anwahaniaethol gan lawer o'r ymatebwyr. Er enghraifft, teimlai nifer o'r artistiaid dawns wedi'u heithrio gan y gymuned lawrydd sefydlog wrth symud i Gymru, gan adael rhai'n teimlo nad ydynt yn haeddu cymorth cymaint â phobl eraill.

**Anghenion seilwaith i artistiaid dawns**: Mae angen i ofodau stiwdio ac adnoddau hygyrch a fforddiadwy fod ar gael i artistiaid dawns, gan gynnwys rhai corfforol (e.e. offer teithio) a rhai heb fod yn gorfforol (e.e. cymorth i gwblhau ceisiadau). Cafwyd galwadau am sefydlu asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol dan arweiniad artistiaid, a rhaglenni artistiaid dawns preswyl ledled Cymru.

**Cyfleoedd perfformio a theithio**: Mae angen gwella partneriaethau gyda lleoliadau a chysylltiadau â sefydliadau rhyngwladol, gwyliau a phreswyliadau. Galwyd am dirwedd rhaglennu cartref ffyniannus, o raddfa fawr i stiwdio fach, ynghyd â chydgysylltu cefnogaeth ar gyfer teithiau dawns.

**Llwybrau gyrfa**: Roedd diffyg amlwg o lwybrau gyrfa strwythuredig ar gyfer artistiaid dawns – galwyd am hyfforddiant gwell, datblygu arweinyddiaeth a chymorth i newid gyrfa.

**Diwylliant Cymru a'r Gymraeg**: Teimlai llawer bod diwylliant Cymru a'r Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn dawns er mwyn sioe. Galwyd am fwy o fuddsoddiad mewn dawns werin draddodiadol, a chydnabyddiaeth ohono, fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Dylid mynd i'r afael â'r gwaith o ymwreiddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau perthnasol hefyd. Byddai croestorri â chanfyddiadau'r adolygiad cerddoriaeth draddodiadol yn fuddiol.

**Hyfforddi a Datblygu Proffesiynol**: Cymorth datblygu proffesiynol i artistiaid dawns sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol mewn meysydd megis dawns mewn iechyd, ac ymgysylltu â'r Gymraeg a'i hymarfer.

**Llesiant**: Cymorth iechyd meddwl ac iechyd corfforol, ynghyd â safonau iawndal teg i ymarferwyr dawns.

# ARGYMHELLION

Mae angen newid, gyda chymorth i'r sector a datblygu seilwaith ym mhob ardal. Dywedodd llawer o bobl fod y sector dawns 'ar drengi' gydag artistiaid ymroddedig yn gweithio mewn ffordd arbennig o wydn i geisio cynnal system sy'n methu. Heb ymyrraeth, mae perygl y bydd artistiaid yn wynebu lludded, bydd y datblygiadau a gyflawnwyd yn cael eu colli, neu bydd y sector yn methu'n llwyr. Er mwyn sicrhau diwylliant dawns ffyniannus a chynaliadwy ledled Cymru, mae'r prif feysydd ymyrraeth a awgrymwyd yn cynnwys:

## TYMOR BYR: yn syth, 1-6 mis

### Argymhelliad 1: 
Sefydlu panel strategol annibynnol sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'w aelodau, er mwyn penderfynu ar ffordd gadarn ymlaen i ddawns yng Nghymru. Caiff y grŵp hwn ei recriwtio gan y Cyngor, bydd yn gynrychiadol o'r sector ac yn ymgymryd â'r tasgau canlynol:

- Gwerthuso a blaenoriaethu argymhellion yr adolygiad sydd angen arnynt gefnogaeth ariannol yn syth ac yn y tymor hirach
- Cyfrannu at gynllun datblygu dawns cynhwysfawr i Gymru
- Sicrhau cydweithredu rhwng ymyriadau unionsyth ac amcanion strategol tymor hirach

**Mesurau llwyddiant:**

- Gweithredu amserlen gweithgareddau ar gyfer argymhellion yr adolygiad
- Pennu'r costau rhagamcanol sy'n gysylltiedig ag argymhellion yr adolygiad a fabwysiadwyd

### Argymhelliad 2: Sefydlu cronfa o gyfeillion beirniadol a all cwestiynu arferion cwmnïau sy'n derbyn cyllid refeniw ar y lefel artistig uchaf. Byddai rôl y cyfaill beirniadol yn cynnig:

- mentora, arweiniad a chefnogaeth i Gyfarwyddwyr Artistig
- ennyn trafodaethau ynghylch ymarfer a dewisiadau rhaglennu ar gyfer lleoliadau
- ystyried y perthnasedd diwylliannol a'r cyd-destun i Gymru yn gyffredinol

Gellid ymestyn y rôl dros amser i gefnogi cwmnïau llai ac artistiaid llawrydd er mwyn herio a hyrwyddo eu hymarfer.

**Mesur llwyddiant:**

- Penodi cyfaill beirniadol cyn pen 6 mis ar gyfer pob cleient dawns sy'n derbyn cyllid refeniw (cyfaill beirniadol gwahanol ar gyfer pob sefydliad, neu'r un cyfaill os yn briodol). Y panel strategol (o argymhelliad 1) i weithio gyda chwmnïau i lunio rhestr fer o bersonél priodol. Penodi cyfaill beirniadol ar sail ffi ddyddiol - 1 diwrnod y chwarter. Awgrymir talu ffi gweithiwr llawrydd dyddiol o £350

### Argymhelliad 3: Penodi arbenigwr dawns i Bwyllgor y Cyngor gan nad oes eiriolwr dros ddawns yn rhan o'r broses benderfynu ar y lefel strategol honno ar hyn o bryd. Os na chaiff arbenigwr dawns ei benodi yng ngwanwyn 2025 o ganlyniad i'r alwad bresennol am aelodau Cyngor, argymhellir cyfethol /secondio rhywun sydd â phrofiad priodol i'r rôl hyd nes y caiff datrysiad mwy parhaol ei sefydlu.

**Mesur llwyddiant:**

- Penodiad cyfetholedig/wedi'i secondio dros dro neu benodiad llawn i'r Cyngor yn gynnar yn 2025

## TYMOR CANOLIG: 1-3 blwyddyn

### Argymhelliad 4: Datblygu rhwydwaith o hybiau cymunedol lle mae celfyddydau wedi'u cydleoli ledled Cymru drwy fanteisio ar y seilwaith sefydliadol presennol[1]. Byddai angen i'r strategaeth wneud y defnydd gorau posibl o'r asedau presennol, gan feithrin cydweithredu traws-sectorol a datblygu trwy'r buddsoddiad ariannol lleiaf posibl, a byddai'n:

- Galluogi cydweithredu ar draws cymunedau a chelfyddydau
- Hwyluso cysylltiadau â rhanddeiliaid addysg, iechyd a busnes
- Defnyddio'r adnoddau a seilwaith presennol er mwyn lleihau'r costau ychwanegol cymaint â phosibl
- Creu rhwydweithiau cefnogaeth integredig heb ddatblygu adnoddau o'r newydd.

**Noder:** gallai'r gwaith datblygu gysylltu â'r ymyriadau a awgrymir gan yr adolygiad theatr Saesneg yng Nghymru ar wahân sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd

[1] Mae enghraifft o sut allai'r argymhelliad hwn weithio wedi'i gynnwys fel astudiaeth achos yn adran 4.2 y brif adroddiad.

**Mesur llwyddiant:**

- Datblygu rhwydwaith wedi'i gostio o hybiau lle mae celfyddydau wedi'u cydleoli ledled Cymru – y nifer a'r lleoliadau i'w penderfynu gan y panel strategol a awgrymir yn argymhelliad 1

Argymhelliad 5: Datblygu asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol i Gymru dan arweiniad artistiaid. Wedi'i llywio gan y panel strategol a awgrymwyd yn argymhelliad 1, byddai'r dull o ariannu'r asiantaeth yn dibynnu ar:

- ei lleoliad (petai angen lleoliad corfforol arni)
- ei rôl er mwyn iddi fod yn gorff gwirioneddol Cymru-gyfan
- ei rôl fel eiriolwr dros y sector
- sut y byddai'n cysylltu â'r rhwydwaith presennol o weithwyr llawrydd a hybiau cymunedol
- a yw'n cael ei dylunio fel model cyllid a ddosbarthwyd

**Mesurau llwyddiant:**

Datblygu model asiantaeth briodol i Gymru sy'n:

- croesawu datrysiadau digidol i heriau daearyddol
- integreiddio ystyriaethau dwyieithog a diwylliannol
- adeiladu ar y rhwydwaith rhanbarthol cryf o hybiau cymunedol a nodwyd yn argymhelliad 4
- datblygu partneriaethau cynaliadwy
- cynnal egwyddorion a arweinir gan artistiaid wrth addasu i'r cyd-destun lleol

Argymhelliad 6: Mae'n hollbwysig bod mentrau celfyddydol sydd â chysylltiad i'r Gymraeg a threftadaeth Cymru yn cael eu cefnogi gan gyllid celfyddydol. Canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy weithgareddau'n gysylltiedig â dawns er mwyn ymwreiddio iaith a diwylliant mewn ymyriadau priodol. Dylai mentrau anelu bob amser at gefnogi a dathlu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'r Gymraeg, tra'n lleoli gwaith yn bendant mewn cyd-destunau cymunedol.

**Mesurau llwyddiant:**

- Y Gymraeg wedi'i hymwreiddio yn y gwaith o gyflawni dawns trwy brosiectau addas
- Diwylliant Cymru wedi'i ymwreiddio ym mhrosiectau a chomisiynau dawns

Argymhelliad 7: Datblygu adnoddau Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi dawns yn y cwricwlwm. Cynnwys coreograffeg a chwmnïau o Gymru ym maes llafur y TGAU dawns newydd.

**Mesur llwyddiant:**

- Adnoddau wedi'u hymwreiddio yng nghwricwlwm y TGAU dawns newydd

Argymhelliad 8: Cynnig dull cyllido haenog gan y Cyngor sy'n symleiddio'r broses ymgeisio i gwmnïau llai ac artistiaid annibynnol. Dylid defnyddio'r system hon wedi'i symleiddio ar gyfer ceisiadau i'r Adolygiad Buddsoddi, ceisiadau Loteri a cheisiadau i ffrydiau cyllid eraill.

**Mesur llwyddiant:**

- Y broses ymgeisio wedi'i symleiddio i'r rhai sy'n rhan o'r portffolio ariannu aml-flwyddyn, a'r rhai nad ydynt yn rhan o'r portffolio. Y broses i gyfeirio'n uniongyrchol at gapasiti/maint y sefydliad/artist – h.y. y gefnogaeth weinyddol sydd ar gael, yr amser sydd ei angen i gwblhau'r broses ymgeisio os na dderbynnir tâl amdano

## TYMOR HIRACH: 3+ blwyddyn

**Argymhelliad 9:** Datblygu model artist dawns preswyl mewn 5 canolfan yng Nghymru, am gyfnod o 2 flwyddyn ar y mwyaf ym mhob lleoliad. Broceriaeth gan y panel strategaeth a nodir yn argymhelliad 1. Amcangyfrifir costau o £70,000 - £100,000 y flwyddyn ar gyfer pob lleoliad. Byddai hyn yn talu cyflog 1 neu 2 artist yn llawn neu'n rhannol, ac yn talu costau hefyd. Gallai gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau a rhanddeiliaid eraill helpu i wireddu ffrydiau cyllid amgen.

**Mesurau llwyddiant:**

- Pennu lleoliadau sy'n addas ar gyfer datblygu'r cynllun
- Sefydlu 5 rhaglen artist dawns preswyl ar draws Cymru ar sail rhaglen dreigl

**Argymhelliad 10:** Ymchwilio i botensial model hyfforddiant dawns ôl-radd ar y cyd â phartner(iaid) priodol.

**Mesur llwyddiant:**

- Sefydliadau Addysg Uwch addas sy'n canolbwyntio ar gyrsiau galwedigaethol i ystyried cynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb ar hyfywedd cynnal rhaglen MA/MFA ôl-raddedig ac aml-lwybr sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, ar y cyd â phartneriaid addas

**Argymhelliad 11:** Datblygu model cynllun Canolfannau Hyfforddiant Uwch gyda lleoliadau yn y gogledd a'r de – neu – negodi â rhwydwaith cynllun Canolfannau Hyfforddiant Uwch Lloegr i neilltuo lleoedd ar gyfer dawnswyr a leolir yng Nghymru yn y lleoliad agosaf i'w cartrefi.

**Mesur llwyddiant:**

- Mynediad gwell i hyfforddiant lefel uchel ar draws ystod o genres dawns ar gyfer dawnswyr ifanc sy'n gobeithio mynd ymlaen at hyfforddiant dawns proffesiynol

## MESURAU LLWYDDIANT Y SECTOR DAWNS YN GYFFREDINOL

- **Datblygu seilwaith**

Os caiff holl argymhellion yr adolygiad eu rhoi ar waith, byddai datblygiadau seilwaith yn cael eu cyflawni'n gynyddol yn ôl cerrig milltir allweddol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, rhaid dylunio'r holl fodelau seilwaith i gydweithredu'n ddi-dor yn hytrach na chroesi ffiniau modelau cyflawni ei gilydd, gan weithio gydag unrhyw ddatblygiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ar draws y sector perfformio cyfan, ac adeiladu arnynt. Yn naturiol, byddai angen cysylltu mecanweithiau rhwng y rhaglen artistiaid preswyl, yr asiantaeth ddatblygu genedlaethol a'r rhwydwaith hybiau cymunedol i weithio mewn cytgord er mwyn troi'r ecosystem yn wirioneddol Cymru-gyfan. Heb y broses integreiddio hon, byddai risg o sefydlu systemau costus, wedi'u hynysu, sy'n gweithredu fel unedau ar wahân.

- **Dosbarthu cyllid dawns yn deg ar draws Cymru**

Yn ddelfrydol, byddai dosbarthu cyllid yn fwy teg ar draws Cymru yn creu mwy o gleientiaid refeniw ledled Cymru.

- **Cyfraddau cadw dawnswyr proffesiynol**

Byddai gweld llai o dalent yn mynd o Gymru, a dawnswyr yn dewis dychwelyd i Gymru ar ôl hyfforddi, yn dystiolaeth o lwyddiant. Byddai cael cymuned o ddawnswyr llawrydd sy'n ffynnu cymaint bod nifer y cyfleoedd i artistiaid berfformio yng Nghymru yn codi, gan olygu na fyddai rhaid iddynt adleoli tu allan i Gymru i gael gyrfa foddhaus, yn dystiolaeth bellach o lwyddiant.

- **Lefelau ymgysylltu cymunedol**

Byddai data o'r Cyngor sy'n dangos lefelau ymgysylltu cymunedol ledled Cymru yn parhau'n gryf a/neu'n tyfu'n dystiolaeth o lwyddiant.

- **Cyfradd ddilyniant gyrfa**

Mae bwlch parhaus yn yr 'ysgol gyfleoedd' yn atal dawnswyr profiadol rhag bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd. Byddai dathlu profiad a gwybodaeth artistiaid sydd yng nghanol eu gyrfaoedd, gyda phob artist yn gallu datblygu eu hymarfer a bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd, yn hytrach na gorfod mynd yn ôl i'r dechrau o hyd oherwydd cyfyngiadau ar gyllid yn seiliedig ar brosiect, yn dystiolaeth o lwyddiant.

- **Lefelau datblygu cynulleidfaoedd**

Datblygu cerrig milltir dros gyfnod cyson o amser yn dilyn mentrau penodol sy'n codi o argymhellion yr adolygiad. Gwella cyfleoedd perfformio tu hwnt i'r lleoliadau traddodiadol.

Yn gyffredinol, dylai dulliau o ddatblygu seilwaith dawns yn y dyfodol ddathlu potensial unigryw Cymru, a chanolbwyntio ar ailadeiladu o'r llawr i fyny yn hytrach nag o'r pen i lawr, er mwyn gwasanaethu'r sector cyfan a'r wlad.

Wrth symud ymlaen, argymhellir i'r Cyngor rannu canfyddiadau'r adolygiad â'r sector dawns a rhanddeiliaid eraill er mwyn iddynt ymateb iddo, gyda'r bwriad o roi canfyddiadau'r adolygiad ar waith o Wanwyn 2025 ymlaen.

# rhan 1 CYD-DESTUN CEFNDIROL

Mae dawns yng Nghymru wedi dioddef ers amser maith o fod yn gelfyddyd '*Sinderela',* a edrychwyd heibio iddo'n hanesyddol er budd disgyblaethau creadigol eraill. Ar ddiwedd yr 1970au, mynychodd Faith Wilson, swyddog dawns cyntaf Cymru, cyfarfodydd y pwyllgor drama yng Nghyngor Celfyddydau Prydain Fawr, gan nad oedd pwyllgor dawns dynodedig yn bodoli. Yn yr 1980au, bu Maldwyn Pate, cyfarwyddwr dawns cyntaf hen Gyngor Celfyddydau Cymru (WAC) yn ymgyrchu i godi proffil dawns yng Nghymru, gan helpu i Roy Campbell-Moore ddatblygu Cwmni Dawns Diversions yn gwmni teithio prif-ffrwd a dod â pherfformiadau gan gwmnïau dawns rhyngwladol i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Arweiniodd hyn at sefydlu byd dawns ffyniannus yng Nghymru rhwng yr 1980au a blynyddoedd cynnar y ganrif hon. Adnabuwyd Caerdydd yn ganolfan i dalent ddawns ac arloesi, wedi'i dylanwadu gan gwmnïau fel Brith Gof a Moving Being. O ganlyniad, datblygodd dawns o Gymru ei hiaith ei hun yn seiliedig ar theatr ddawns a theatr gorfforol.

Gellid ystyried y cyfnod hwn yn oes aur dawns yng Nghymru, gyda chwmni Diversions yn datblygu'n Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru). Pan oedd Anna Holmes yn Swyddog Dawns y Cyngor (1997-2002), llwyddodd cwmni Earthfall Dance i gael statws cleient refeniw a sefydlwyd Dawns Annibynnol Cymru fel sefydliad cenedlaethol dan arweiniad artistiaid. Roedd gan y corff hwnnw statws cleient refeniw hefyd. Roedd cyllid ar gael i artistiaid annibynnol, cymorth o gynllun Cyfeillion Dawns, a theithiau dawns rhyngwladol i ac o Gymru. Bu nifer o artistiaid sy'n gweithio yn y sector o hyd yn elwa ar y cynllun Cyfeillion ar y cychwyn. Roedd y cysylltiadau a'r rhwydweithiau a ddarparwyd ganddo wedi galluogi i'w gyrfaoedd datblygu. Cafodd gwyliau rheolaidd fel *British Dance Edition*, Platfform Dawns Cymru, *Family Dance Festival* ac eraill eu cynnal yng Nghymru yn ystod ail ddegawd y ganrif hon. Roedd y sector dawns gymunedol yn gryf hefyd. Cafodd ei gefnogi ar draws y wlad gan gorff Dawns Gymuned Cymru a dderbyniai cyllid refeniw ac a gynorthwyodd i ddatblygu'r hyn a alwyd o dro i dro yn "weithgareddau sy'n arwain y byd" (Stenton, 2024). Roedd cyrsiau hyfforddi dawns ar gael mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, ac roedd Consortiwm Dawns Cymru'n sicrhau deialog agored rhwng artistiaid a lleoliadau. Cyn Covid-19, roedd dawns i bobl anabl wedi datblygu nifer o fentrau perthnasol. Er bod tystiolaeth o'i llwyddiannau presennol, mae hwn yn parhau'n faes o ddawns nas datblygwyd yn ddigonol yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid oedd pethau'n fêl i gyd. Wynebodd dawns yng Nghymru heriau trwy gydol y cyfnod hwn, gan gynnwys rhaniadau sectoraidd, anghyfartaledd cyllid ar sail daearyddiaeth, a nifer gyfyngedig o gyfleoedd gyrfa i artistiaid annibynnol. Yn ystod y 15 blwyddyn ddiwethaf, dioddefodd dawns rhwystrau sylweddol ar ben yr heriau hanesyddol hyn. Ers 2010, mae cyllideb gelfyddydol y Cyngor "wedi'i thorri 40% mewn termau real" (Rhys, 2024, wedi'i ddyfynnu yn y Cyngor, 2024) ac mae'r gyllideb gelfyddydol yn gyffredinol ar ei lefel isaf ers 2007/8 ar hyn o bryd[2]. Mae cefnogaeth i ddawns yn gyffredinol wedi dirywio'n gyson hefyd:

- Lleihawyd nifer cyrsiau celfyddydol mewn ysgolion uwchradd er budd pynciau STEM[3]
- Caewyd rhaglenni hyfforddiant dawns mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg ôl-16 yng Nghymru
- Mae llai o arian cyhoeddus ar gael i leoliadau, sy'n effeithio ar staffio, rhaglennu a marchnata
- Newidiodd y pandemig chwant y gynulleidfa am berfformiadau byw
- Collodd y sector llawer o eiriolwyr a *hyrwyddwyr dawns*
- Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dawns wedi lleihau, o ffrydiau cymhorthdal a ffrydiau incwm eraill
- Dilëwyd sefydliadau allweddol fel Dawns Annibynnol Cymru a Dawns Gymuned Cymru o bortffolio'r Cyngor yn 2012
- Collodd cwmni Earthfall Dance ei gyllid dan Adolygiad Buddsoddi 2015, caeodd Platfform Dawns Cymru, a dilëwyd Coreo Cymru ar ôl ei gylch tair blynedd gyntaf
- Cafodd Adolygiad Buddsoddi 2023 y Cyngor effaith bellach ar ddawns. O ganlyniad i'r adolygiad, Dawns i Bawb yng Nghaernarfon yw'r unig sefydliad dawns gymunedol sy'n cael ei ariannu erbyn hyn, a dim ond dau gwmni dawns a ariennir yn y portffolio – CDCCymru a Ballet Cymru – y ddau wedi'u lleoli yn ne ddwyrain Cymru.

Mae heriau economaidd, newidiadau cymdeithasol a newid yn niddordeb y cyhoedd mewn dawns wedi cyfrannu at ei dirywiad yn gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae penderfyniadau'r Cyngor yn hanesyddol ac yn fwy diweddar yn Adolygiad Buddsoddi 2023, wedi cael effaith negyddol sylweddol a pharhaus ar y dirwedd ddawns yng Nghymru.

Mae'r sector dawns wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol yn ei hanes. Mae'r Adolygiad hwn o Ddawns yng Nghymru'n pwysleisio pryderon difrifol y rhai sydd yn y diwydiant, gan gynnwys heriau systemaidd a diffyg seilwaith cenedlaethol. Mae cefnogaeth ac adnoddau cyfyngedig yn rhoi pwysau ar artistiaid dawns ac yn arwain at ludded, ac mae llawer o gymunedau dawns yn teimlo wedi'u hesgeuluso. Yn gyffredinol, mae llawer wedi dweud bod y sector dawns yn *wynebu argyfwng.*

---

[2] https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/ymateb-cyngor-celfyddydau-cymru-ir-gyllideb-gymreig

[3] Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

# rhan 2 Y BROSES

## 2.1 Methodoleg

Dechreuwyd ar waith Adolygiad Dawns Cymru yng nghanol mis Awst 2024. Wedi i baramedrau'r prosiect gael eu cytuno gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, canolbwyntiodd y cam ymchwil rhagarweiniol ar gynllunio'r prosiect a logisteg. Galwyd am gynrychiolwyr ar ddiwedd mis Awst, a chafwyd cyfnod ymgynghori o ychydig dros ddeufis, a ddaeth i ben 3 Tachwedd 2024.

Yn ystod y cam cyntaf, defnyddiwyd adroddiadau a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru ac astudiaethau eraill yn gysylltiedig â dawns – yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol – i gyflawni'r gwaith ymchwil desg.

Canolbwyntiodd y cam ymchwil maes ar gasglu barn trwy gynnal cyfweliadau a fforymau. Yn hytrach na mesur nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn sector dawns Cymru, defnyddiwyd dull ansoddol yn ystod y cam hwn, gyda'r nod o ddeall y ffordd mae pobl yn ymgysylltu â dawns, cyrhaeddiad a photensial gwaith proffesiynol, y gefnogaeth sydd ei hangen ar artistiaid a lleoliadau er mwyn iddynt lwyddo, a'r weledigaeth ehangach ar gyfer dyfodol dawns yng Nghymru.

Defnyddiwyd sawl mecanwaith i feithrin cyfraniadau agored a gonest, er mwyn sicrhau y gallai'r cyfranogwyr rhannu eu barn yn ddienw a heb betruso. O ganlyniad i'r strategaeth hon, cafwyd lefel uwch na'r disgwyl o ymgysylltu ledled Cymru. Roedd cynnwys y sgyrsiau'n ymestyn dros sbectrwm eang, gan gynnwys lleoliadau cyflwyno, cwmnïau dawns, artistiaid annibynnol, ysgolion dawns masnachol, addysgwyr ac ymarferwyr cymunedol. Cyfrannodd rhai o'r cyfranogwyr hefyd fel cefnogwyr dawns, hyd yn oed os nad oeddent yn chwarae rhan uniongyrchol yn y sector. Fodd bynnag, roedd y gwaith ymgysylltu gydag ysgolion, cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ymarferwyr traddodiadau dawns heb fod o'r Gorllewin yn arbennig o gyfyngedig.

Cafodd yr ymatebion i'r holl fecanweithiau ymchwil eu dadansoddi er mwyn llunio sail yr adolygiad hwn.

Sgyrsiau Creadigol: Cynhaliwyd grwpiau ffocws ledled Cymru a fynychwyd gan gyfanswm o 75 o bobl. Cofrestrodd y rhai â diddordeb ymlaen llaw i fynychu fforwm dwyieithog. Cynigiwyd cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob Sgwrs Greadigol, a chawsant eu gyrru gan yr un tri pryfociad fel bod modd cymharu'r canfyddiadau. Roedd sgrindeitlo byw ar gael a chafodd pob cyfranogwr ei holi am ei anghenion mynediad unigol cyn y cyfarfod. Dadansoddwyd recordiadau a nodiadau'r cyfarfodydd ar sail cynnwys thematig. Er bod y data a gasglwyd yn amrywio yn ôl gwahaniaethau rhanbarthol (er enghraifft, y seilwaith teithio), roedd llawer o'r problemau'n debyg ledled Cymru. Gan fod dawns yn gelfyddyd ddeinamig, defnyddiwyd dull arloesol ar gyfer y broses Sgwrsio Creadigol, a chipiwyd pwyslais pob cyfarfod yn Gymraeg a Saesneg gan artist gweledol. Mae lluniau o'r rhain wedi'u cynnwys yn adran berthnasol yr adroddiad hwn.




Ffigur 1: Lleoliadau Sgyrsiau Creadigol ledled Cymru

**Cyfarfodydd un-i-un**: Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol rhwng yr ymchwilydd a'r rhanddeiliaid o ddiwedd mis Awst i ddiwedd mis Hydref 2024. Roedd yr holl ymatebion yn ystyrlon ac yn graff. Er hynny, roedd echdynnu themâu o'r cyfarfodydd hyn yn heriol. Gan nad oeddent yn gyfeiriedig, roedd yr ymatebion a gafwyd yn aflinol. Fodd bynnag, soniodd llawer o'r ymatebwyr ledled Cymru am yr un materion neu faterion tebyg, wedi'u dehongli o safbwynt eu hymarfer nhw eu hunain, neu'r heriau a wynebwyd yn eu lleoliad daearyddol penodol nhw. I gychwyn, rhannwyd y data wedi'u codio a'u cyfuno nifer o weithiau i sefydlu fframwaith, ond gwanhawyd nifer o'r canfyddiadau gan y dull hwn oherwydd y broses dad-ddyblygu. Defnyddiwyd dull arall a oedd yn rhannu data yn faterion penodol a thrwy hyn cafwyd cynrychiolaeth fwy cywir o'r sgyrsiau.

**Bwrdd gwyn rhithiol:** Darparwyd platfform ar-lein i bobl rannu eu sylwadau byr am ddawns yn ddienw. Fel y rhagwelwyd, oherwydd natur y mecanwaith roedd mwyafrif yr adborth a gafwyd trwy'r sianel hon yn negyddol.

**Holiadur ar-lein:** Crëwyd holiadur ar-lein dwyieithog i holi'r cyfranogwyr am eu perthynas â'r sector dawns yng Nghymru, eu safbwynt o ran y dirwedd bresennol, a'u meddyliau ynghylch mentrau posibl. Cafwyd ymatebion manwl ac amrywiol. Defnyddiwyd fframwaith thematig i godio'r ymatebion, ac roedd defnyddio siartiau cylch, graffiau ac ati yn rhan o'r gwaith dadansoddi cynnwys.

**Ymweliadau addysgol:** cynhaliwyd cyfarfodydd strwythuredig gydag ensemble Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn eu hymarferion yn ystod yr haf, gyda myfyrwyr dawns llawn-amser BTEC yn Rubicon, a Dawnswyr Cyswllt CDCCymru. Roedd ymweliad â gweithdy dawns mewn ysgol gynradd yng Nghwmbrân a Phencampwriaeth Dawns UDO yn Weston-super-Mare hefyd yn rhan o'r mecanwaith casglu data hwn.

Ochr yn ochr â'r dulliau ymchwil maes, datblygwyd strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr er mwyn cynnwys y nifer fwyaf bosibl o bobl yn yr adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys gwaith brandio, sefydlu cyfrifon ar blatfformau Ticketsource a Substack[4], penodi cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithwyr proffesiynol, comisiynu artist gweledol, creu cynllun cyfathrebu a chynllun gweithredu a dechrau'r gwaith ymchwil desg. Ar ddechrau'r adolygiad, anfonwyd 152 o negeseuon e-bost wedi'u targedu at unigolion a gynrychiolai meysydd gwahanol yn sector dawns Cymru, gan eu gwahodd i roi adborth. Yn dilyn cyhoeddiad cychwynnol ar dudalen newyddion gwefan y Cyngor, postiodd yr ymchwilydd yn rheolaidd ar draws platfformau'r cyfryngau cymdeithasol - Facebook, Twitter, Instagram a LinkedIn.

Mynychwyd pedwar perfformiad dawns proffesiynol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 2.


Croesawyd ymatebion Cymraeg a Saesneg i'r holl waith ymchwil maes. Sefydlwyd dau gyfeiriad e-bost ar gyfer yr adolygiad – un ar gyfer gohebiaeth Gymraeg a'r llall ar gyfer gohebiaeth Saesneg. Ymatebwyd i negeseuon yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.

Gallai'r cyfranogwyr archebu Sgwrs Greadigol yn Gymraeg neu'n Saesneg trwy blatfform Ticketsource. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog, gyda gwasanaethau cyfieithu ar y pryd llawn. Anogwyd y cyfranogwyr i gyfrannu yn eu hiaith ddewisol.

Cafodd pob cyfarfod un-i-un ei gynnal yn Saesneg, heblaw un. Roedd yr holiadur ar-lein yn gwbl ddwyieithog a chafwyd ymatebion yn y ddwy iaith. Cyflwynwyd y bwrdd gwyn ar-lein yn ddwyieithog a chafwyd ymatebion yn Gymraeg a Saesneg.

[4] Wedi denu 31 o danysgrifwyr dros gyfnod yr adolygiad

## 2.2 ymgysylltu’n gyffredinol




Ffigur 2: Sut roedd y rhai a gyfranogodd at yr adolygiad cyfan yn cyfeirio at eu hunain

| digwyddiad ymgysylltu | nifer disgwyliedig | nifer a fynychodd |
|---|---|---|
| Presenoldeb mewn Sgyrsiau Creadigol – 9 lleoliad ledled Cymru, Medi a Hydref | 100 | 75 |
| Sylwadau ar y bwrdd gwyn ar-lein | 10 | 22 |
| Cyfarfodydd un-i-un: Awst i Hydref | 30 | 63 |
| Ymatebion i’r holiadur | 50 | 81 |
| Barn fanwl wedi’i anfon dros e-bost | 0 | 8 |

## 2.3 ystyriaethau moesegol

Cyflawnwyd y gwaith ymchwil yn annibynnol, a chynhaliwyd ymagwedd amhleidiol. Roedd gwybodaeth helaeth yr ymchwilydd o’r sector yn fanteisiol yn ystod cyfweliadau, gan iddi roi safbwynt gwybodus ar gyd-destunau gwahanol. Defnyddiwyd dull gwrando hyrwyddol i leihau rhagfarn cadarnhau cymaint â phosibl.

Roedd cynnal uniondeb y gwaith ymchwil yn flaenoriaeth, ac arhosodd sylwadau unigol yn ddienw, heblaw’r rhai gan staff a gynrychiolai sefydliadau sy’n derbyn cyllid aml-flwyddyn dan bortffolio'r Cyngor. Cyn yr holl Sgyrsiau Creadigol, gwahoddwyd y cyfranogwyr i rannu unrhyw anghenion o ran mynediad, a gafodd eu diwallu fel bo angen. Yn yr un modd, cafodd ceisiadau am fynediad unigol i gyfarfodydd un-i-un eu parchu’n llawn.

Oherwydd yr emosiynau cryf sy’n gysylltiedig â dyfodol dawns yng Nghymru, roedd ystyriaethau moesegol yn ganolbwynt pendant. Fel Ymarferydd Adferol Lefel 2 hyfforddedig a Hyrwyddwr Lefel 5, rheolodd yr ymchwilydd y trafodaethau er mwyn sicrhau na ddefnyddiwyd sylwadau niweidiol neu iaith ddadleuol cymaint â phosibl, neu eu hosgoi, gan greu lle i gydnabod safbwyntiau amrywiol.

# rhan 3 PRIF GANFYDDIADAU

## 3.1 gwaith ymchwil desg

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol i wella bywydau pobl. Un o brif nodau'r Ddeddf yw creu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2015).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd, ac amlinellodd ei blaenoriaethau bras (dan dri phennawd) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Medi 2024. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru blaenoriaethau yn 2026 a'u hadolygu wedi hynny (GOV.WALES, 2024). Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithio yn ôl chwe blaenoriaeth fel rhan o'i flaenoriaethau strategol wrth ddynodi cyllid o'i ffrydiau refeniw a Loteri (Celfyddydau Cymru, dim dyddiad).

Nododd *Adroddiad Dawns yng Nghymru* Deborah Light, a gynhyrchwyd ar gyfer Tasglu Llawrydd Cymru (Light, 2020) ystadegau allweddol a gwerthusiad angerddol o'r sector dawns lawrydd yng Nghymru yn ystod y pandemig. Galwodd yr adroddiad am weithredu gan y Cyngor, a ymatebodd i'r adroddiad ym mis Tachwedd 2020, gan gydnabod 'problemau â gwreiddiau dwfn' y sector dawns a bod "dawns yn cael llai o arian na chelfyddydau eraill yn y Portffolio". Nododd y Cyngor hefyd y byddai'n gweithio i "symleiddio ein prosesau ariannu" gan fod strwythurau ymgeisio am arian yn "rhwystro rhai artistiaid rhag ymgeisio, yn enwedig pobl â llai o brofiad o ymgeisio am arian" (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2020). Bydd yr adolygiad hwn yn canfod bod y rhwystrau hyn dal ar waith - er y diwygiwyd y broses Adolygu Buddsoddi ar gyfer cyllid refeniw yn 2023 - a bod bylchau mewn darpariaeth a phroblemau â gwreiddiau dwfn yn bodoli o hyd.

Anfonwyd llythyr agored at Gadeirydd a Phrif Weithredwr y Cyngor gan aelodau'r gymuned ddawns ledled Cymru a thu hwnt yn dilyn Adolygiad Buddsoddi 2023[5] gan nad oedd y dirwedd wedi gwella – yn wir, roedd toriadau i'r portffolio dawns yn gyffredinol wedi gwneud pethau'n waeth. Galwodd y llythyr agored am nifer o ymyriadau strategol dros ddawns, a gafodd eu cydnabod gan y Cyngor yn ei ddiweddariad i'r Adolygiad Buddsoddi (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2024b). Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda rhai o gydgysylltwyr y llythyr agored ym mis Rhagfyr 2023, a gyda'r gymuned ddawns ym mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024. Mae'r adolygiad hwn yn un o'r Ymyriadau Strategol a gytunwyd arnynt.

Darllenwyd dogfennau ehangach er mwyn cynnwys astudiaethau ymchwil ac adroddiadau o du allan i Gymru. Mae agor pedwerydd llwyfan yn Theatr Ddwyreiniol Sadler's Wells, Llundain yn awgrymu bod y ddawns yn ffynnu yno[6]. Ond mewn lleoedd eraill dros Brydain mae'r sefyllfa'n llai addawol. Mae model y cwmni Ewropeaidd a'r rhwydwaith Dawns Tŷ hefyd yn newid.

---

[5] https://organise.network/actions/petition-open-letter-to-arts-council-of--xTAyzyQf

[6] Mae rhestr lawn o'r adroddiadau ac erthyglau a gyfeiriwyd atynt yn Atodiad 1

Mae'r adroddiad cyfansymiol *Prosiect Wyth* (Mair, 2024) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu nifer o ymyriadau a allai gynorthwyo i ddatblygu dawns werin Gymreig a chlocsio ochr yn ochr â'r Gymraeg. Mae'r ymyriadau hyn wedi'u cynnwys fel argymhelliad yn Adran 4 yr adolygiad hwn. Mae'n werth nodi bod adolygiad o gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a gallai ei ganfyddiadau yn 2025 groestorri â chanfyddiadau'r adolygiad hwn.

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredinol 3-blwyddyn wedi rhoi cyllid i'r celfyddydau a diwylliant ledled Cymru fel rhan o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Yn nodedig, mae sefydliad Impelo yn Llandrindod yn dibynnu ar arian y Gronfa ar hyn o bryd[7] wedi iddo golli'r cyllid refeniw a gawsai gan y Cyngor. Mae Dance Collective yng ngogledd Cymru hefyd yn derbyn cyllid o'r Gronfa. Daw'r arian i ben yng Ngwanwyn 2025, a fydd yn effeithio eto fyth ar ddyfodol rhai yn y sector dawns yng Nghymru.

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ganlyniadau proses ymgeisio'r rhaglen Amddiffyn Swyddi a Magu Gwytnwch ar 2 Rhagfyr 2024 (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2024c). O'r naw deg pum cais a dderbyniwyd, cafodd chwe deg eu cymeradwyo ac mae pump o'r rheiny'n sefydliadau dawns. Nod y grantiau yw atal ymddiswyddiadau a gwella gwytnwch trefniadol. Yn ddi-os, cafodd y grantiau groeso cynnes gan y rhai a'u derbyniodd, ond dim ond datrysiad dros dro ydynt i her fwy difrifol sy'n wynebu'r sector.

Mae'r Adroddiad Effaith Economaidd (Deyton Bell, 2024) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi'n glir y buddion economaidd a ddaw o fuddsoddi yn y celfyddydau yng Nghymru o ran creu swyddi ac effeithio ar economi Cymru. Mae'n dangos am bob £1 y mae Llywodraeth Cymru yn ei fuddsoddi yn y celfyddydau, aiff £2.51 yn ôl i'r economi (Deyton Bell, 2024, tud. 4). Fodd bynnag, pwysleisiodd Alun Davies yn ddiweddar uchafswm cyllid celfyddydol yng Nghymru o gymharu â'r Alban. Nododd er bod Cymru'n gwario 0.15% o'i chyllideb ar y celfyddydau a diwylliant, mae'r Alban yn gwario 0.5% arnynt ar gyfartaledd. Gofynnodd: "A yw Llywodraeth Cymru wir yn malio am y celfyddydau a diwylliant?" (Davies, 2024 dyfynnwyd yng Ngwlad yr Haf, 2024). Mae'r Adroddiad Effaith Economaidd yn nodi y byddai cynnydd cymedrol o 10% yn y cyllid a roddwyd i'r celfyddydau yn gallu creu "twf sylweddol mewn enillion ar fuddsoddiad - o £2.51 heddiw i £3.29 erbyn 2035." (Deyton Bell, 2024, tud. 9). Petai bob celfyddyd yn derbyn cynnydd o 10% mewn egwyddor yn y senario hwn, byddai'n gyfwerth ag oddeutu £155,600 yn fwy o refeniw i ddawns. Mewn gwirionedd, dim ond cynnig ateb dros dro i sector sy'n disgrifio ei hun fel un sydd ar drengi a fyddai'r ffigur hwn yn anffodus. Mae'r Adroddiad Effaith Economaidd hefyd yn nodi y bydd yr enillion mwyaf mewn effaith economaidd a chyflogaeth "yn debygol o gael eu gwneud trwy fuddsoddiad cynyddol mewn sefydliadau canolig eu maint, gyda grantiau [rhwng] £100,000 - £250,000" (Deyton Bell, 2024, tud. 9). Anaml iawn y bydd dawns yn derbyn y symiau hyn o gyllid, sy'n anfanteisio'r sector ymhellach o'r enillion posibl y gallai eu cynhyrchu i Gymru.

£1,300,229 oedd gwerth y cyllid refeniw portffolio a roddwyd i ddawns yn Adolygiad Buddsoddi 2023 y Cyngor. O'r data a ddarparwyd gan y Cyngor, cafwyd cryn lwyddiant gan geisiadau grant y sector dawns ar draws yr ystod o gynlluniau Loteri a gynhelir gan y Cyngor, gyda chyfradd llwyddiant o 74% gwerth £738,425. Cafwyd cyfradd lwyddiant tebyg yn y sector theatr, sef 72%, ond roedd gwerth y

[7] Yn ogystal â chyllid pontio y Cyngor a chyllid cyfalaf a datblygu busnes

dyfarniadau, £210,864, yn sylweddol is, gan gynrychioli gwahaniaeth cadarnhaol i'r sector dawns. Fodd bynnag, roedd ffrwd cyllid Creu 2023-24 yn cyfleu darlun gwahanol. Er y cyfraddau llwyddiant tebyg gan ddawns a theatr (41% a 43% yn eu tro) , roedd gwahaniaeth sylweddol yn y canlyniadau ariannol. Derbyniodd y sector dawns £305,517, ond cafodd theatr £1,145,314. Felly dim ond 27% o gyllid y theatr a roddwyd i'r sector dawns.

Tri sefydliad yn unig sydd wedi'u cynnwys ym mhortffolio dawns 2024-5, sy'n derbyn cyllid refeniw gwerth £1,556,681. O'r deuddeng celfyddyd felly, dawns yw'r gelfyddyd sy'n derbyn y swm lleiaf ond pedwar. O gymharu, £3,866,962 yw gwerth cyllid theatr (ac eithrio lleoliadau a allai fod yn dai cynhyrchu hefyd), sef y gelfyddyd sy'n derbyn y swm mwyaf o gyllid ond dau. Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi'r data dyfarniadau nad ydynt yn rhai portffolio ar gyfer 2024-5 eto, ond mae'r sefyllfa'n adleisio her gyson a bennwyd yn 2020: mae dawns yn parhau i dderbyn "llai o fuddsoddiad na chelfyddydau eraill yn y Portffolio" (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2020). Mae lleihau nifer y sefydliadau sy'n ystyried eu hunain yn 100% dawns i dri yn unig yn y portffolio presennol, wedi'i gyfuno â dibynnu ar grantiau prosiect trwy ffrydiau cyllid eraill, yn parhau'r hyn a bennwyd gan y Cyngor yn "rhwystrau i rai artistiaid, yn enwedig y rhai â llai o brofiad o ran ymgeisio am gyllid" (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2020).

Darganfuwyd gwallau yn nata empirig crai'r Cyngor. Er enghraifft, gall gwariant dawns ymddangos ar linellau cyllideb theatr yn hytrach na dawns oherwydd dewis yr artist wrth hunan-gategoreiddio. Hefyd, mae gwallau methodoleg yn nata perfformiad 2023-4 – mae'r "80 o gynyrchiadau dawns proffesiynol" a adroddwyd gan y Cyngor yn cynnwys digwyddiadau am ddim, mynychiadau o ymarferion agored ac ailadrodd rhaglenni. Mae asesiad mwy manwl gywir yn dangos mai dim ond 32 o gynyrchiadau proffesiynol ar wahân a gafwyd, gan gynnwys cynyrchiadau dawns o Gymru, cynnyrch a brynwyd i mewn, a pherfformiadau i blant ar draws lleoliadau cyflwynol. Yn y dyfodol, gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparu data ar gyfran y cyllid a roddwyd i'r elfennau dawns gwahanol: dawns mewn iechyd, dawns gyfranogol gymunedol, dawns mewn addysg, prosiectau perfformio gan artistiaid llawrydd a chwmnïau bach, dawns fel cyfran o gelfyddyd arall ac ati.

## 3.2 yr hyn sy’n gweithio’n dda

Mae Ballet Cymru yn llwyddo i gydbwyso rhagoriaeth artistig ag effaith gymunedol. Gyda thîm bach o wyth aelod staff yn cefnogi pedwar dawnsiwr ar bymtheg mewn rhaglenni proffesiynol a rhaglenni datblygu, mae ei repertoire presennol yn cynnwys ballet traddodiadol a modern, gan integreiddio dawns werin o dde Asia a Chymru ar draws tair rhaglen deithiol. Mae ymagwedd gyfannol y cwmni at fentrau sy’n canolbwyntio ar y gymuned, fel *Dawnsio i Symud* a *ReWild Play* yn partneru â darparwyr gofal iechyd, ac mae ei rhaglen codi llen yn cynnig cyfleoedd perfformio i grwpiau fel Bechgyn yn Dawnsio a chyfranogwyr AAY. Mae’r rhaglen DUETS yn cynnig hyfforddiant am ddim mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, ac mae Ballet Cymru 2 & 3 yn creu llwybrau at ddawns broffesiynol. Mae llais ieuenctid yn cael ei integreiddio i’r broses llywodraethu, ac mae’r rhaglen Newid Diwylliant yn gwella hygyrchedd trwy gynnig perfformiadau hamddenol a disgrifiadau sain dwyieithog, a chwalu rhwystrau traddodiadol i ballet. Mae’r ymdrechion cynhwysol hyn wedi’u gwreiddio yng ngweledigaeth y sylfaenydd, ac yn gwneud Ballet Cymru yn fodel o arfer gorau yng Nghymru. Gan edrych i’r dyfodol, mae Ballet Cymru yn canolbwyntio ar dyfu’n bwyllog, gan gydbwyso mwy o gyllid â chynaliadwyedd adnoddau. Mae ymagwedd strategol y cwmni’n ei rhoi mewn lle da ar gyfer parhau i ddatblygu yn y dyfodol, a allai hwyluso partneriaethau naturiol sy’n codi rhwng ballet, opera a cherddorfeydd. Er bod y cwmni’n parhau’n ymrwymedig i gefnogi ecosystem ddawns ehangach Cymru, mae’n parhau i ystyried ei allu’n bragmataidd. Mae ei weledigaeth am ddyfodol dawns o Gymru’n pwysleisio’r angen am arweinyddiaeth gryf wedi’i gwreiddio yng Nghymru, ac mae’n dadlau bod sefyllfa’r wlad yn creu cyfleoedd unigryw ar gyfer arloesi artistig. Mae’r cydbwysedd gofalus hwn o uchelgais a phragmatiaeth wedi creu cwmni sy’n tyfu o ran statws ac sy’n parhau’n ffyddlon i'w gwerthoedd sefydliadol sef cynhwysiant a rhagoriaeth.

Mae Dance Collective CIC yn sefyll allan fel enghraifft ffyniannus o fynegiant artistig, cynhwysiant a dathlu diwylliannol yng ngogledd Cymru. Wedi’i wreiddio ym mrithlen gyfoethog treftadaeth gogledd Cymru, mae’r sefydliad deinamig hwn yn trawsnewid dawns yn gyfrwng pwerus ar gyfer datblygu, grymuso a chydlyniant cymunedol. Gan weithio dan system grantiau prosiect y Cyngor ac arianwyr eraill - sy’n rhoi pwysau ar adnoddau’r cwmni wrth reswm - mae ei gwmni o ddawnswyr proffesiynol wedi ymrwymo i feithrin talent artistig a chynnig gweithgareddau dawns ar draws cymunedau amrywiol. Trwy gynnig datblygu proffesiynol wedi’i dargedu, mentora a hyfforddiant, mae’r sefydliad yn cefnogi artistiaid dawns ledled Conwy, a hefyd yn ymestyn ei gyrhaeddiad i Bowys, Swydd Caer a’r Wirral. Mae ei ymagwedd yn creu llwybrau i artistiaid archwilio, tyfu a chyfrannu’n ystyrlon at dirwedd ddiwylliannol gogledd Cymru a thu hwnt. Mae mentrau dawns gymunedol y sefydliad yn arloesol. Trwy gynnig sesiynau dawns arbenigol i blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau dysgu, mae Dance Collective yn sicrhau bod mynegiant artistig yn parhau’n hygyrch i bawb, beth bynnag bo’u heriau unigol. Mae dathlu diwylliant ac iaith Cymru’n hanfodol i waith y sefydliad. Trwy gydweithredu â cherddorion gwerin, cynnal nosweithiau Twmpath traddodiadol, a gweithio’n agos â choreograffwyr fel Meinir Siencyn, mae Dance Collective yn plethu edefynnau treftadaeth leol yn ei ymarfer artistig cyfoes. Mae ei berfformiadau a’i brosiectau yn fynegiannau artistig ac yn naratifau hyfyw o hunaniaeth a chreadigrwydd gogledd Cymru.

Mae sefydlwyr Cynyrchiadau Matsena, y brodyr Matsena, yn artistiaid dawns o Gymru a gafodd eu canmol yn uchel am eu perfformiadau arloesol sy’n gymhellol yn emosiynol. Cafodd eu gwaith gydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol – gan gynnwys enwebiad BAFTA Cymru a gwobr Gŵyl y

Cyfryngau Celtaidd – ac mae’r cwmni wedi’i leoli yn Sadler's Wells East ar hyn o bryd, lle bu’n cyfrannu’n ddiweddar at dymor agoriadol y lleoliad. Fodd bynnag, mae pryder y gallai Cymru golli’r artistiaid talentog hyn i seilweithiau mwy cefnogol yn Lloegr, ffawd a brofwyd yng Nghymru gan goreograffwyr nodedig eraill fel Nigel Charnock a Henri Oguike. Mae cadw talent creadigol yn hollbwysig i gynnal celfyddydau perfformio ffyniannus a deinamig Cymru.

Cafodd gwaith artistig Jo Fong ei ganmol yn uchel, gyda’r cwmni’n derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol wrth iddo deithio o amgylch ystod o leoliadau amrywiol ledled Cymru, o fannau cymunedol clyd i ganolfannau celfyddydol sefydledig. Gyda chefnogaeth strategol gan British Council Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, mae Fong wedi ymestyn cyrhaeddiad rhyngwladol y cwmni, gan gyflwyno dawns o Gymru’n llwyddiannus mewn lleoliadau yn Hanoi a dinas Ho Chi Minh, a chyflwyno dawns gyfoes o Gymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol.

Mae’r rhaglen *Dance for Parkinson's* a gynhelir gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, ac a gychwynnwyd trwy fethodoleg  English National Ballet (ENB), yn cynrychioli ymagwedd strategol at reoli iechyd niwrolegol trwy ymyrraeth gorfforol arbenigol. Mae’r rhaglen yn cael ei chynnal mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys Caerdydd, Wrecsam, Bangor ac ar-lein, ac mae’n cynnig ymagwedd gynhwysfawr ar gyfer cefnogi unigolion sy’n byw gyda chlefyd Parkinson's. Mae’r fenter yn dangos ymagwedd croestoriadol arloesol at ofal iechyd, ymgysylltu â’r celfyddydau a chefnogaeth gymunedol, gan sefydlu dawns fel ymyriad therapiwtig ymarferol ar gyfer rheoli cyflyrau niwrolegol.

Caiff y rhaglen ei weithredu gan dîm o artistiaid dawns proffesiynol a gafodd eu hyfforddi’n drylwyr, ac a fuddsoddodd ym methodoleg arbenigol ENB. Mae eu harbenigedd yn sicrhau ymagwedd targededig ar sail tystiolaeth at ymyriadau symudol i gleifion Parkinson's. Yn y dyfodol, gallai strategaethau gweithredu gynnwys datblygu fframwaith hyfforddi cynhwysfawr er mwyn lledaenu dysgu ar draws artistiaid dawns a rhwydweithiau gofal iechyd yng Nghymru, gan ymestyn effaith a sail gwybodaeth broffesiynol y rhaglen o bosib. Yn y dyfodol, gellid rheoli’r rhaglen a’i gydleoli yn yr hybiau cymunedol, fel rhan o argymhelliad 4 yr adolygiad hwn.

Mae artistiaid dawns gymunedol yng Nghymru’n dangos ymrwymiad arbennig i’w celfyddyd, gan weithredu ar lawr gwlad gydag ymroddiad angerddol er y cyfyngiadau ariannol sylweddol. Mae Joon Dance yn un enghraifft o’r ymagwedd hon. Mae’r cwmni’n meithrin rhwydwaith o artistiaid dawns sy’n cysylltu â chymunedau gwledig ledled Sir Benfro. Fodd bynnag, mae’r sector yn wynebu her ddifrifol: mae sefydliadau dawns gymunedol sy’n gweithredu heb gyllid refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru’n cael trafferth i roi iawndal teg i ddawnswyr, gan orfodi’r artistiaid hynny i gydbwyso eu hymrwymiad cymunedol cryf â chynaliadwyedd ariannol personol.

Mae’r sector dawns yng Nghymru’n cynnig cyflogaeth fyrdymor a dros dymor prosiect gan fwyaf. Dim ond y ddau gwmni sy’n derbyn cyllid refeniw a fydd yn cynnig contractau mwy sefydlog, hirdymor. Er y dirwedd heriol hon, mae rhai o ddawnswyr Cymru’n cael cyfleoedd i sicrhau contractau trwy lwybrau eraill. Er enghraifft, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnig contractau perfformio ar gyfer nifer o gynyrchiadau teithiol bob blwyddyn, gan gynnig llwybr ychwanegol at gyflogaeth ddawns broffesiynol y tu hwnt i sefydliadau dawns traddodiadol.

## 3.3 holiadur ar-lein

Roedd gan yr holiadur dair prif adran:

Holodd Adran 1 y cyfranogwyr am eu cefndir, gan gynnwys lle roeddent yn byw. Rhannwyd yr adran hon yn dair isadran, gan ofyn i'r cyfranogwyr ddewis pa ddatganiad oedd yn cynrychioli gorau eu perthynas â dawns yng Nghymru, cyn iddynt ateb mwy o gwestiynau ynghylch y maes hwnnw:


- 1A: Dawnswyr proffesiynol – yn cynnwys artistiaid dawns, ymarferwyr dawns, a'r rhai sy'n cyflenwi dawns ar hyn o bryd.
- 1B: Rolau cefnogol – yn cynnwys y rhai sy'n rhan o faes dawns mewn ffyrdd eraill, fel unigolion yn gweithio mewn lleoliadau sy'n rhaglennu dawns, rolau cefnogol fel cynhyrchwyr, staff Awdurdodau Lleol a mynychwyr/cefnogwyr dawns.
- 1C: Myfyrwyr dawns – y rhai sy'n astudio dawns ar unrhyw lefel, naill ai yng Nghymru neu rai o Gymru sy'n astudio rhywle arall.

Yn Adran 2, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr ystyried sawl pryfociad am yr ecoleg ddawns gyfredol yng Nghymru. Roedd y pynciau'n cynnwys cyllid ar gyfer dawns, rôl sefydliad dawns cenedlaethol, tegwch a bylchau darpariaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, cysylltedd ar draws Cymru, cyllid y Cyngor, a phroffil dawns yng Nghymru a thu hwnt.

Yn Adran 3, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr ystyried dyfodol dawns yng Nghymru, gan gynnwys cwestiwn yn rhestru materion yn ôl eu blaenoriaeth. Edrychodd ar y posibilrwydd o integreiddio'n well y sector dawns masnachol a'r sector dawns sy'n derbyn cymhorthdal, ac ar sut y gellid cyflawni hynny. Hefyd, gofynnodd sut i newid y sector er mwyn iddo fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.


CANFYDDIADAU

## 3.3.1 ymatebwyr





Ffigur 3: Adran 1 – Yr holl gyfranogwyr fesul rhanbarth

Mae Ffigur 3 yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebion holiadur wedi dod o unigolion sy'n byw yng Nghaerdydd, gyda Phowys yn yr ail safle. Roedd hynny i'w ddisgwyl. Caerdydd yw'r brifddinas ac mae'n gartref i lawer o weithgareddau dawns, ac effeithiwyd ar ddawns gymunedol ym Mhowys pan dorrwyd cyllid Impelo yn Adolygiad Buddsoddi 2023 y Cyngor. Ni chafwyd unrhyw ymateb o ardal Castell-nedd Port Talbot. Yn ogystal, cafwyd ymatebion gan dri pherson sy'n byw tu allan i Gymru sydd â phrofiad o weithio ym maes dawns yng Nghymru.





Ffigur 4: Rhaniad yr ymatebwyr yn ôl grwpiau 1A, 1B a 1C




Ffigur 5: Ymatebwyr sy'n ystyried eu hunain yn rhan o Grŵp 1A – hyd eu gyrfaoedd yng Nghymru

Yn Ffigur 4, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn grŵp 1A. Adroddasant eu bod wedi gweithio ar draws genres dawns amrywiol, ac wedi cael gyrfaoedd portffolio ym meysydd gan gynnwys perfformio dawns, dawns gymunedol, dawns mewn iechyd a dawns mewn addysg. Roedd rhai ohonynt yn gweithio mewn ysgolion dawns masnachol hefyd. Mae Ffigur 5 yn dangos bod hyd yrfa ymatebwyr grŵp 1A yn amrywio, gyda llawer ohonynt wedi gweithio yn sector dawns Cymru ers 15 mlynedd neu fwy. Dim ond 8 ohonynt a oedd wedi gweithio ynddo am lai na phum mlynedd. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion yn y categori hwn yn dweud bod eu holl incwm yn dod o weithio mewn dawns, er bod llawer ohonynt yn disgrifio byw o'r llaw i'r genau, gyda rai ohonynt yn dibynnu ar gredyd cynhwysol neu'n ennill llai na'r cyflog byw cenedlaethol. Dywedodd llawer o'r artistiaid dawns llawrydd sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru ei fod yn anodd iddynt gyrraedd dosbarthiadau lefel

proffesiynol i gynnal eu hymarfer dawns. Pwysleisiodd nifer sylweddol ohonynt faint o waith a ddisgwylir iddynt ei wneud yn ddi-dâl fel rhan o'u rôl, gan gynnwys tasgau fel coreograffi, addysgu (pan oeddent wedi'u cyflogi fel dawnswyr), cynhyrchu, codi arian a chwblhau ceisiadau a ffurflenni monitro'r Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd yr un ymatebwr yn cefnogi cynllun incwm sylfaenol cynhwysol i ddawnswyr, er i Sophie Howe alw ar y Llywodraeth i'w wneud yn ystyriaeth i artistiaid ym mis Awst 2020 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2020) ac y soniwyd amdano yn Adroddiad Tasglu Llawrydd Cymru (Light, 2020).




Ffigur 6: Perfformiad/gweithgaredd dewisol yr ymatebwyr yn ôl arddull ddawns

Nodir arddulliau dewisol yr unigolion o ran perfformio a/neu fynychu gweithgareddau yn Ffigur 6. Roedd y categori 'arall' yn cynnwys nifer o arddulliau dawns, o fwrlesg i stryd, *kathak* i ddawnsio neuadd, fflamenco i gyfuniad. Cafwyd yr un lefel uchel o ddiddordeb mewn dawns werin ag y cafwyd mewn dawns gyfoes. Mae'n bosibl mae hynny oherwydd bod nifer dda o bobl sy'n ymwneud â dawns werin wedi cymryd rhan yn yr adolygiad ar ôl cael eu hannog i wneud gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru. Theatr gerdd oedd y *genre* mwyaf poblogaidd - ac yn fwy byth felly o ychwanegu'r diddordeb mewn dawns jazz a thap i'r segment hwnnw, gan fod yr arddulliau hyn yn aml wedi'u cynnwys mewn perfformiadau theatr gerdd. Ballet oedd y dewis mwyaf poblogaidd ond un. Mae poblogrwydd theatr gerdd yn cydberthyn i ddata cynulleidfa ôl-pandemig cyhoeddedig sy'n dangos bod mynychwyr yn chwilio am werth am arian canfyddedig, a'u bod eisiau cael 'noson allan sy'n codi'r galon'.

Yn ngrŵp 1C, roedd 84% o'r ymatebwyr a ystyriai eu hunain yn fyfyrwyr dawns yn adrodd nad oeddent yn aelodau o ensemble ieuenctid yng Nghymru ar hyn o bryd, nac erioed wedi bod yn aelod ohonynt. Mae hyn yn cydberthyn i wybodaeth a gafwyd o sgyrsiau un-i-un a nododd bod aelodaeth ensembles dawns ieuenctid wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n fyfyrwyr dawns yn astudio dawns mewn sefydliad Addysg Uwch tu allan i Gymru, a dywedasant y byddant wedi elwa o gael cynllun Canolfan Hyfforddiant Uwch yng Nghymru cyn

symud i'r hyfforddiant Addysg Uwch. Er syndod fodd bynnag, dim ond 24% o'r ymatebwyr a ddywedodd y byddant wedi ystyried aros yng Nghymru i wneud hyfforddiant dawns petai cwrs gradd arddull conservatoire wedi bod ar gael iddynt. Y farn gyffredin yw bod pobl ifanc yn mwynhau'r profiad o fyw yn rhywle arall ac ni fyddai cwrs yng Nghymru'n cynnig manyldeb yr hyfforddiant sydd ar gael gan gyrsiau sefydledig mewn lleoedd eraill o reidrwydd. Er bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i'w gwlad a dyhead i ddychwelyd i Gymru ar ôl hyfforddi, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweld eu hunain yn dychwelyd i Gymru er mwyn dechrau eu gyrfa, oherwydd y diffyg cyfleoedd a systemau cefnogaeth yn y wlad. Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

"Dw i'n teimlo fy mod i wedi cael fy niswyddo'n dawel gan Gymru"

"pam ddod yn ôl... pan fo'r sefyllfa mor gyfyng ac mae cyn lleied o gyfleoedd ar gael?"

"Teimlaf fod yr ecoleg ddawns yng Nghymru yn eithaf torcalonnus"

### 3.3.2.1 yr ecoleg ddawns bresennol

Rhoddodd yr ymatebwyr mewnwelediad o ecoleg ddawns bresennol Cymru yn Adran 2, gan sôn am feysydd fel mynediad daearyddol, ymgysylltu cymunedol, cyfleoedd proffesiynol a chynrychioli dawns draddodiadol Cymru. Mae'r ymatebion yn portreadu sector hynod anghyson, gydag anghyfartaledd amlwg o ran mynediad a darpariaeth ar draws y rhanbarthau. Yn gyffredin, mae ardaloedd heb wasanaethau digonol, yn enwedig ardaloedd gwledig, yn wynebu rhwystrau sylweddol sy'n arwain at fylchau mewn ansawdd a chyfleoedd.

Mae dyhead bras i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth dawns ledled Cymru, yn enwedig o ran hygyrchedd ac amrywiaeth addysg dawns, rhaglenni cymunedol, a chyfleoedd datblygu proffesiynol. Er yr heriau, nodwyd y mentrau canlynol fel enghreifftiau o ymarfer gorau yn y meysydd perthnasol: *Prosiect Wyth*[8] o ran ymgysylltu'n llwyddiannus â'r gymuned a datblygu'r Gymraeg trwy ddawns, Dance Collective o ran dyfeisio mentrau hyfforddi pwrpasol, grwpiau *Dance for Parkinson's* ledled Cymru o ran menter dawns dros iechyd, a Ballet Cymru o ran cwmni'n sy'n datblygu â llais dilys[9]. Yn ogystal, pwysleisiodd y pandemig gwerth sefydliadau ac unigolion dawns gymunedol ledled y wlad ar gyfer hyrwyddo llesiant meddyliol a chorfforol.

Er bod enghreifftiau o ymarfer gorau, yr argraff yn gyffredinol yw sector anghyson, gydag unedau ar wahân yn aml, sy'n cael trafferth i wasanaethu cymunedau ar draws y wlad. Nid yw'n syndod bod pobl yn dal eu gafael yn eu meysydd gwaith eu hunain a/neu fod cyswllt cymunedol yn lleihau. Mae colli'r arian refeniw ar gyfer sefydliadau dawns gymunedol yn Adolygiad Buddsoddi 2023 y Cyngor yn cael ei ystyried yn arbennig o niweidiol, oherwydd yn aml y sefydliadau dawns gymunedol yw'r prif gysylltiad rhwng dawns broffesiynol a chymunedau lleol. Mae problemau sylfaenol yn systemig, megis canoli adnoddau a phwerau penderfynu, diffyg rheoleiddio yn y sector addysgu dawns, yn ogystal â datgysylltiad canfyddedig rhwng rhai cwmnïau dawns a chymunedau dawns lleol ledled Cymru. Teimlai llawer o'r ymatebwyr nad yw'r seilwaith, y cyllid a'r llwybrau hyfforddiant presennol

[8] Gweler astudiaeth achos Prosiect Wyth yn adran 4.4

[9] Gweler adran 3.2

yn cefnogi diwylliant dawns ffyniannus a chynaliadwy yn llawn, gan greu bylchau sylweddol sy'n cyfyngu ar gyfranogi a thwf gyrfa.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol hwn, mae angen cydymdrech hirdymor i fuddsoddi mewn ecoleg ddawns, a'i chryfhau, ar draws holl ranbarthau Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar godi a chefnogi dawns ymylol a chymunedau daearyddol heb wasanaethau digonol. Bydd amrywio'r arddulliau dawns a gynigir hefyd yn gwella mynediad i ddawns nas gefnogwyd i'w potensial llawn ar hyn o bryd. Mae cefnogi'r Gymraeg a dawns ddiwylliannol o Gymru, a blaenoriaethu ymgysylltu ar lawr gwlad, yn hanfodol hefyd.

### 3.3.2.2 y sector sy'n derbyn cymhorthdal yn erbyn y sector masnachol

Mae rhwydwaith enfawr o ysgolion dawns masnachol ledled Cymru sy'n cynnwys cannoedd o bobl ifanc mewn gweithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnos bob wythnos, o ddosbarthiadau ballet a thap i acro a stryd. Mae'r sector sy'n derbyn cymhorthdal a'r sector masnachol yn dueddol o aros ar wahân, felly gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yw'r rheswm dros hyn yn eu barn nhw, ac a oes potensial i'r ddau groesi yn y dyfodol.

Mae'r berthynas rhwng y sector dosbarthiadau dawns gyfranogol fasnachol a'r sector dosbarthiadau dawns gyfranogol annibynnol yng Nghymru yn amlygu tensiynau cymhleth a phryderon o ran ansawdd. Mae athrawon dawns masnachol, yn enwedig y rhai sy'n aelodau o gyrff arholi sefydledig fel y Gymdeithas Ymerodrol o Athrawon Dawns (ISTD), yn mynegi amheuon ynghylch safon hyfforddiant dawns ar draws Cymru. Maent yn tynnu sylw at artistiaid dawns llawrydd sy'n dysgu arddulliau penodol heb gymwysterau cymwys, ac yn nodi pryderon penodol ynghylch ansensitifrwydd diwylliannol dysgu rhai mathau o ddawns stryd.


Mae'r dirwedd gystadleuol yn pwysleisio'r bylchau canfyddedig hyn o ran ansawdd eto fyth. Mae llawer o ysgolion dawns Cymru'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau uchel eu bri fel gwyliau a phencampwriaethau'r Sefydliad Dawns Unedig, ond byddant yn mynd â'u myfyrwyr mwyaf addawol i gystadlu yn Lloegr, lle mae safon y gystadleuaeth gymaint yn uwch, yn eu barn nhw. Mae'r ddadl hon am ansawdd yn croestorri â thensiynau dyfnach ynghylch modelau busnes a hygyrchedd. Gan weithredu fel busnesau, mae ysgolion masnachol yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu incwm, ac yn ystyried y sector dawns annibynnol yn gystadleuaeth posibl. O'r tu arall, mae ymarferwyr dawns annibynnol yn beirniadu ysgolion masnachol am flaenoriaethu elw dros roi mynediad cynhwysol i ddawns.

Er hynny, mae arwyddion y gellid pontio'r bwlch rhwng y sectorau hyn. Mae rhai ysgolion masnachol yn gweld budd cydweithredu'n agosach â dawnswyr annibynnol, yn enwedig trwy fentrau ariannu fel rhaglen Cysylltu a Ffynnu'r Cyngor. Gallai digwyddiadau cymunedol llwyddiannus fel *Dyddiau Dawns* Abertawe a gynhelir gan Ganolfan y Celfyddydau Taliesin ac sy'n croesawu arddulliau dawns amrywiol, gynnig model ar gyfer sut allai'r sectorau ddod o hyd i dir cyffredin a gweithio at integreiddio'n well yn y dyfodol.

### 3.3.2.3 cyllid y cyngor ar gyfer dawns

Yn ogystal, gofynnodd Adran 2 yr holiadur i'r ymatebwyr ystyried cyllid y Cyngor ar gyfer dawns.

Dangosodd yr ymatebion anfodlonrwydd cyffredinol gyda sefyllfa bresennol cyllid dawns yng Nghymru, gyda galwadau am ail-werthuso lefelau cyllid refeniw a strategaethau dosbarthu. Teimlai 95% o'r ymatebwyr bod cyllid portffolio dawns y Cyngor wedi'i ganolbwyntio'n ormodol yn ne ddwyrain Cymru, gan gwestiynu pam fod dau gwmni'n derbyn bron yr un lefel uchel o gyllid, ac yn awgrymu y dylid newid i gefnogi cwmnïau llai ar lawr gwlad (mae dau o'r tri chwmni yn y portffolio sy'n ystyried eu hunain yn 100% dawns, a chwmnïau eraill sy'n nodi dawns yn ganran amlwg o'u hallbwn, wedi'u lleoli yn ne ddwyrain Cymru). Hefyd, teimlai llawer o'r ymatebwyr fod ffocws dawns y Cyngor yn rhy gul, gan gefnogi rhai genres yn anghymesur tra'n gadael rhai eraill heb eu hariannu'n ddigonol, neu'n eu heithrio. Mae'r broses ymgeisio feichus sydd ar waith i lawer o sefydliadau llai yn gwaethygu'r anawsterau hyn iddynt, gan gyfyngu eu mynediad i arian ac annog llawer ohonynt i beidio â cheisio cymorth.




Ffigur 7: Ymatebion i'r cwestiwn a ellid gwella'r ffordd caiff cyllid dawns y Cyngor ei ddefnyddio

Mae cyllid dawns yng Nghymru yn wynebu heriau amlochrog, gyda'r anawsterau'n amrywio o brosesau ymgeisio a ganfyddir yn gymhleth ac anhryloyw, i ddirywiad dawns gymunedol a dawns ddiwylliannol oherwydd toriadau ariannol. Mae llawer o'r ymatebwyr yn disgrifio cyllid dawns yng Nghymru yn annigonol, gan ddefnyddio termau fel "gwael" ac "erchyll". Roeddent hefyd yn mynegi rhwystredigaeth am y prosesau ymgeisio am grant, gan eu disgrifio fel "cymhleth", "hir" ac "yn brin o dryloywder". Codwyd pryderon hefyd am anghydbwysedd daearyddol, gyda chefnogaeth ariannol wedi'i chanolbwyntio yn y de, a chefnogaeth gyfyngedig yn cael ei rhoi i'r gogledd a Chymru wledig. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am ddosbarthu cyllid yn deg er mwyn mynd i'r afael â'r ardaloedd heb wasanaethau digonol. Mae rhai ymatebwyr yn ystyried meini prawf cyllido'r Cyngor yn ddull 'ticio blychau', sy'n arwain at brosiectau a deimlai'n fformiwläig neu heb gysylltiad ag anghenion lleol. Soniodd llawer ohonynt hefyd bod 'celfyddyd' ac 'ansawdd' yn isel iawn ar agenda'r broses ymgeisio am gyllid. Dadleuant fod y dull a ddefnyddir yn gallu rhwystro creadigrwydd ac arwain at greu gwaith sy'n teimlo'n nawddoglyd neu'n anymatebol i gymunedau Cymru.

Mae llawer hefyd yn mynegi barn ynghylch meini prawf aneglur, adborth cyfyngedig a chefnogaeth annigonol i ymgeiswyr aflwyddiannus, sy'n gallu eu siomi, yn enwedig sefydliadau llai neu fwy newydd ag adnoddau gweinyddol cyfyngedig. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae galw mawr am symud i ffwrdd o fodelau ariannu fformiwläig at ddull ariannu hyblyg, mwy cynhwysol, sy'n cydnabod capasiti'r sefydliad a'r unigolyn.

### 3.3.2.4 rôl cwmni dawns cenedlaethol

Cafwyd llawer o ymatebion i gwestiwn a gyfeiriai at rôl cwmni dawns cenedlaethol a enwodd CDCCymru, ynghyd ag ymatebion mwy cyffredinol i'r canfyddiad o rôl cwmni dawns cenedlaethol.

Mae llawer o'r ymatebwyr yn ystyried rôl cwmni dawns cenedlaethol fel llysgennad dros ddawns a diwylliant Cymru, yn ddomestig ac yn rhyngwladol. Mae disgwyl y bydd cwmni cenedlaethol yn codi proffil dawns o Gymru yn fyd-eang, yn arwain y sector yng Nghymru, yn pennu safonau, yn cynnig mentora a chefnogaeth, ac yn eirioli dros adnoddau i bobl eraill yn y sector. Mae cefnogaeth gryf am gwmni cenedlaethol a fydd yn ymgysylltu'n gyson â'r holl ranbarthau, yn enwedig y gogledd a chefn gwlad. Mae ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dawns draddodiadol Cymru ym mhortffolio cwmni cenedlaethol, gan ei ystyried yn hanfodol i gynrychiolaeth gynhwysfawr o hunaniaeth a mynegiant diwylliannol Cymru.

Amlygwyd Ballet Cymru fel model o gynwysoldeb a hygyrchedd, gyda rhai o'r ymatebwyr yn ei awgrymu fel cwmni dawns cenedlaethol i Gymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, galwodd yr ymatebwyr am adolygiad o CDCCymru, gan nad yw'n cyrraedd yr hyn a ddisgwylir gan gynrychiolydd cenedlaethol o Gymru ar hyn o bryd.

Mae'r astudiaeth achos isod yn diffinio cwmni sydd wedi'i ymwreiddio yn ei diwylliant cynhenid, sy'n parchu a datblygu'r seilwaith artistiaid dawns ac yn ymateb i gymunedau - a hefyd yn gwmni perfformio dawns uchel ei fri sy'n teithio'n rhyngwladol. Gellid cymhwyso ymarfer gorau'r cwmni i gwmni a leolir yng Nghymru â statws cenedlaethol.

ASTUDIAETH ACHOS O GWMNI DAWNS Â LLEOLIAD CWMNI,

SY'N GWEITHIO FEL ARWEINYDD DIWYLLIANNOL,

Chunky Move, Awstralia

**www.chunkymove.com**

Trosolwg o'r Sefydliad

Mae Chunky Move yn gwmni dawns gyfoes blaenllaw wedi'i leoli yn Melbourne, sy'n gweithredu ar diroedd traddodiadol pobloedd Boon Wurrung a Wurundjeri y Cenhedloedd Kulin. Er nad yw'n gwmni cenedlaethol, datblygodd yn gwmni dawns gyfoes deithiol rhyngwladol sy'n gwasanaethu ei gymuned yn wirioneddol. Mae'n datblygu ac yn cynrychioli'r sector dawns gan gynnal rhagoriaeth

artistig a chyfrifoldeb diwylliannol. Gyda model ariannu hybrid sy'n cyfuno cefnogaeth gyhoeddus a rhoddion dyngarol, mae'r cwmni wedi sefydlu ei hun yn arweinydd diwylliannol yn nawns Awstralia.

### Dull

Gweithredodd y cwmni strategaeth amlochrog:

1. Ymgysylltu â'r bobl frodorol

- Sefydlu partneriaethau ffurfiol â chydweithrediad Brodorion a Sefydliad Lles y Brodorion
- Rhaglennu wedi'i ddatblygu sy'n cydnabod a dathlu cyfraniadau'r Bobl Gyntaf
- Creu llwybrau ar gyfer cyfranogi a mynegiant diwylliannol gan bobl frodorol

2. Mynediad cymunedol

- Cynigion dawns amrywiol, o ddawns gyfoes i arddulliau *hip-hop* a chyfuniad
- Gweithredu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ieuenctid gyda chyrsiau dwys yn ystod gwyliau
- Yn cynnig dosbarthiadau agored a addysgir gan ddawnswyr y cwmni
- Yn cynnal datblygu proffesiynol trwy gyrsiau preswyl a gweithdai

3. Rhagoriaeth artistig

- Rhaglen deithio gyfoes estynedig yn cyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol
- Yn comisiynu gweithiau newydd gan ymestyn ffiniau dawns gyfoes
- Yn hwyluso cydweithredu traws-ddiwylliannol

4. Datblygu artistiaid

- Rhaglen coreograffydd preswyl
- Labordy coreograffi i artistiaid dawns
- Ysgogwyr yn comisiynu gwaith arbrofol
- Rhaglen artistiaid Minimax yn cynnig gofod a chyfleusterau ymchwil

### Canlyniadau

Mae Chunky Move wedi llwyddo i:

- Leoli dawns gyfoes fel celfyddyd hygyrch, bob dydd
- Meithrin perthnasoedd ystyrlon â chymunedau'r Cenhedloedd Cyntaf
- Sefydlu modelau ar gyfer ymgysylltu cymunedol cynaliadwy
- Datblygu'r seilwaith artistiaid dawns ar draws ei rhanbarth
- Derbyn cydnabyddiaeth fel arweinydd diwylliannol yn nawns Awstralia

Prif ffactorau llwyddiant

- Ymrwymiad hirdymor i berthnasau brodorol
- Model ariannu cytbwys
- Rhaglennu amrywiol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwahanol
- Gweithio fel ecosystem ddawns
- Cynnal safonau artistig proffesiynol ar lefel lle mae perfformiadau'r cwmni'n derbyn adolygiadau 5*

Gwersi a ddysgwyd

1. Mae angen rhagoriaeth artistig a pherthnasedd cymunedol ar arweinyddiaeth ddiwylliannol mewn dawns
2. Mae ymgysylltu cynaliadwy yn gofyn am bartneriaethau ffurfiol a rhaglenni strwythuredig
3. Rhaid i fentrau mynediad a chynhwysiant fod yn ystyrlon ac yn barhaus
4. Dylai cefnogaeth i artistiaid fod yn llawn parch, yn barhaus ac yn gydweithredol


### 3.3.2.5 amrywiaeth a chynhwysiant

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn ogystal am y graddau mae dawns yn mynd i'r afael ag amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cymhleth ac anghyson o ymdrechion amrywiaeth a chynhwysiant yn ecoleg ddawns Cymru. Er y ceir rhai enghreifftiau cadarnhaol a chydnabyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd y materion hyn, mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon am ddidwylledd, dyfnder ac effaith y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Mae'r ymatebion yn pwysleisio y dylid ymwreiddio ymdrechion yn anghenion cymunedau lleol, yn hytrach na'u gosod o'r pen i lawr. Ystyrir grwpiau dawns gymunedol, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu poblogaethau ar y cyrion, yn hanfodol i ecosystem ddawns fwy cynhwysol. Mae'r ymatebwyr yn tynnu sylw at y diffyg arian ar gyfer mentrau dawns amrywiol a chynhwysol, sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau ar y cyrion a sefydliadau llai yn eu barn nhw. Mae rhai ohonynt yn cwestiynu didwylledd ymdrechion amrywiaeth a chynhwysiant presennol rhai cwmnïau, gan eu hystyried yn docenistaidd, neu'n ffordd o gwblhau ymarferion ticio blychau. Mae canfyddiad bod ceisiadau i'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyrraedd cwotâu yn hytrach na feithrin cysylltiadau ystyrlon, parhaus â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch diffyg dilyniant ar gyfer artistiaid amrywiol a chyfranogwyr y tu hwnt i gamau cychwynnol prosiect. Canfyddir nad oes cynrychiolaeth ddigonol o ddawns draddodiadol Cymru a lleisiau artistiaid lleol, ac ystyrir elitaeth yn rhwystr i ymestyn cyfranogiad hefyd. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn dadlau o blaid ymagwedd barhaus a ysgogir gan y gymuned sy'n adlewyrchu'n wirioneddol poblogaethau amrywiol Cymru, ac yn eu gwasanaethu.

Yn Adran 3 yr holiadur, gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried nifer o fentrau ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd dawns yng Nghymru, a chefnogaeth ohoni, gan gynnwys datblygu hybiau cymunedol a allai gefnogi dawns.

### 3.3.3 datblygu hybiau cymunedol a allai gefnogi dawns




Ffigur 8: Cefnogaeth o'r gwaith i ddatblygu hybiau cymunedol ar gyfer cefnogi dawns ledled Cymru

Mae 80% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o greu hybiau celfyddydau cymunedol wedi'u cyd-leoli ledled Cymru a fyddai'n cynnwys dawns ac yn ei chefnogi. Mae'r sylwadau hefyd yn rhoi syniad o sut allai hybiau lleol gyd-greu ar draws y celfyddydau a chydweithio ledled Cymru, gan fanteisio ar gysylltiadau ag asiantaethau eraill, awdurdodau lleol, ysgolion a rhanddeiliaid cymunedol.

Byddai hybiau traws-gelfyddydol lle mae celfyddydau wedi'u cydleoli ledled Cymru yn anelu at adeiladu ar seilweithiau celfyddydol presennol, gan ddarparu canolfannau cymorth cynhwysfawr i artistiaid dawns sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol. Byddai'r hybiau hyn yn cynnig gofodau fforddiadwy, cefnogaeth farchnata, cyfleoedd rhwydweithio a chymorth gyda logisteg dechnegol. Byddai datblygu dawns o'r llawr i fyny yn ffocws hollbwysig, gan wella hygyrchedd cymunedau gwledig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda rhaglennu cynhwysol ar gyfer unrhyw allu[10].


Mae datblygu proffesiynol yn dod i'r amlwg fel elfen hollbwysig, gyda rhanddeiliaid yn galw am weithdai a hyfforddiant arbenigol. Teimlir y gallai hybiau hefyd hwyluso adnoddau addysg dawns a dawns mewn iechyd, ynghyd â chynigion traws-gelfyddydol sy'n canolbwyntio ar ieuenctid ac sy'n hyrwyddo amrywiaeth o arddulliau dawns. Ystyrir gwasanaethau cymorth ymarferol, gan gynnwys cymorth i lunio ceisiadau grant, rhannu adnoddau a chanllawiau codi arian, yn hanfodol er mwyn cynnal yr ecosystem ddawns leol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid i'r hybiau hyn integreiddio'n ddwfn yn seilwaith celfyddydol Cymru, gan gynnal cysylltiadau cryf â rhwydweithiau celfyddydol cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cydweithredu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau perthnasedd diwylliannol. Bydd modelau ariannu cynaliadwy, canllawiau gweithredu clir, a chydleoli dawns gyda chelfyddydau eraill yn helpu i greu ecosystem gelfyddydol cydgysylltiedig, ffyniannus sy'n atal artistiaid rhag cael eu hynysu ac sy'n cefnogi cymunedau dawns lleol.

[10] Gallai adolygiad theatr Saesneg yng Nghymru (sy'n mynd rhagddo gan y Cyngor ar hyn o bryd) gynnig ei ddealltwriaeth ei hun o sut y gellid datblygu model hyb lle mae'r celfyddydau wedi'u cydleoli yn y dyfodol gan ddefnyddio'r seilwaith presennol.

### 3.3.4 datblygu asiantaeth datblygu dawns cenedlaethol

Mae ffigur 9 yn dangos y gefnogaeth yn gyffredinol a geir ar gyfer asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol o ryw fath, i weithio gyda'r gymuned lawrydd a chwmnïau dawns bach, yn datblygu talentau lleol ac yn eirioli dros ddawns o Gymru a'i hyrwyddo.




Ffigur 9: Cefnogaeth ar gyfer datblygu asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol i Gymru

Ceir cefnogaeth gryf i'r syniad o sefydlu asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol yng Nghymru fel eiriolwr a hyb cymorth ymarferol i'r sector, dan arweiniad artistiaid, o ddewis. Byddai asiantaeth yn anelu at fynd i'r afael â bylchau difrifol yn y seilwaith drwy ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr gan gynnwys hyfforddi, mentora, cyngor busnes a chymorth gweinyddol/cynhyrchu. Byddai'n cynnal cronfa ddata o ymarferwyr llawrydd ac yn symleiddio mynediad i gyllid, a fyddai o fudd penodol i artistiaid perfformio annibynnol a chwmnïau llai.


Byddai datblygu proffesiynol yn ffocws creiddiol, gan gynnig hyfforddiant sgiliau busnes, datblygu arweinyddiaeth a chyfleoedd ymchwil. Byddai'r asiantaeth yn codi proffil dawns o Gymru'n genedlaethol ac yn rhyngwladol drwy hwyluso partneriaethau byd-eang, hyrwyddo dawns o Gymru mewn gwyliau rhyngwladol, meithrin cysylltiadau ac ymaelodi â sefydliadau rhyngwladol priodol, a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid diwylliannol a thwf artistig.

Tu hwnt i ddatblygu artistig, byddai'r asiantaeth yn gweithredu fel cronfa adnoddau a hyrwyddwr dawns, yn cynnig adnoddau a rennir ac yn eirioli dros safonau proffesiynol o ran contractau a thâl.

Gofynnodd cwestiwn olaf yr arolwg i'r ymatebwyr sgorio'r sector dawns yn gyffredinol yng Nghymru, ac ystyried sut allai symud at gael ecoleg fwy cynaliadwy ledled Cymru. Pwysleisiwyd sawl thema bwysig yn yr ymatebion, a roesant weledigaeth fras ar gyfer sector dawns cynaliadwy a ffyniannus yn y dyfodol.

### 3.3.5 sgorio'r sector dawns a'i dyfodol

Mae ffigur 10 yn dangos bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn teimlo bod safle Cymru yn y byd dawns ehangach yn gynhennus neu'n ddirywiol. Teimlai llawer ohonynt nad oedd y seilwaith, cyllid a llwybrau hyfforddiant presennol yng Nghymru'n ddigonol i gynnal ecosystem ddawns ffyniannus, gynaliadwy oherwydd bylchau sylweddol sy'n cyfyngu ar gyfranogi a thwf gyrfa.




Ffigur 10: Y sgôr a roddwyd i'r ecoleg ddawns bresennol yng Nghymru gan yr ymatebwyr

Mae'r weledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy i ddawns yng Nghymru yn un sy'n gynhwysol a chydweithredol, ac wedi'i gefnogi'n dda. Er yr heriau, mae yna wytnwch a dealltwriaeth bod angen i'r gymuned ddawns yng Nghymru barhau i fod yn gryf ac i ddod at ei gilydd rhywsut neu'i gilydd. Gobaith yr ymatebwyr yw ecoleg ddawns lle caiff pob genre ei ddathlu, caiff artistiaid y rhyddid i arloesi a chreu, a chaiff dawnswyr ifanc eu cefnogi i adeiladu gyrfaoedd parhaol yng Nghymru. Yn y pendraw, y weledigaeth yw diwylliant dawns gwydn a chynhwysol sy'n ffynnu ac sy'n rhan hanfodol o fywyd yng Nghymru.










Gwaith celf yn gysylltiedig ag elfen *Sgwrs Creadigol* yr adolygiad: Helen Frost, drawtheideas.com

## 3.4 sgyrsiau creadigol

Codwyd nodiadau gweledol yn ystod pob sgwrs; mae'r gwaith celf a grëwyd o ganlyniad iddynt wedi'i gynnwys yn adran hon yr adolygiad. Er dilyniant, rhoddwyd yr un pryfociadau i fynychwyr pob fforwm Sgwrs Greadigol er mwyn fframio eu sgyrsiau:

1. Eu meddyliau am sefyllfa bresennol y sector dawns
2. Sut i ddadlau'r achos dros gael mwy o gyllid i ddawns
3. Sut olwg sydd ar ddyfodol dawns

## CANFYDDIADAU

### 3.4.1 sefyllfa bresennol y sector

Mae'r sector yn wynebu heriau difrifol o ran cynaliadwyedd, gan gynnwys nifer gyfyngedig o swyddi llawn-amser, cyllid cymhleth yn seiliedig ar brosiectau, a baich gweinyddol sy'n arwain at ludded ymysg artistiaid. Mae colli strwythurau cymorth fel Dawns Annibynnol Cymru a Dawns Gymuned Cymru wedi dwysau'r problemau hyn. Mae dosbarthiad adnoddau sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd wedi achosi i ardaloedd gwledig a gogledd Cymru deimlo wedi'u hynysu, gan greu cylch hunan-barhaus o seilwaith a chyllid sy'n lleihau.

Mae gogledd Cymru'n ymgorfforiad o'r heriau daearyddol sy'n wynebu'r sector dawns. Yn baradocsaidd, mae ganddi gysylltiadau cryfach â Lloegr na de Cymru, sy'n pwysleisio natur fratiog seilwaith dawns Cymru. Nid pellter daearyddol yw'r unig reswm y mae artistiaid dawns yn teimlo wedi'u hynysu mewn ardaloedd gwledig. Ychwanegir ato gan gyfleoedd proffesiynol cyfyngedig, cymunedau wedi'u gwasgaru a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus annigonol mewn rhai achosion. Mae'r sefyllfa wedi creu'r hyn a ddisgrifiwyd gan ymarferwyr yn 'argyfwng seilwaith', gyda phrinder difrifol o ofodau dawns addas a nifer gyfyngedig o gyfleusterau hyfforddi proffesiynol rheolaidd.

Caiff y problemau hyn eu dwysau gan heriau addysgol. Mae'r ddarpariaeth ffurfiol o ddawns yn dirywio, ac mae dawns yn colli ei hunaniaeth ar wahân gan iddi gael ei chyfuno i raddau helaeth â'r celfyddydau perfformio ehangach neu gwricwla addysg gorfforol.

### 3.4.2 dadlau achos dawns

Teimlir yn gyffredinol y gallai dawns ddathlu mwy ar ei llwyddiant. Er caiff ystadegau eu casglu, yn aml bydd y rhain yn cael eu harwain gan waith adrodd ar gyllid cyfansymiol sy'n canolbwyntio ar 'faint' yn hytrach nag effaith prosiectau. Mae'r sector yn casglu rhywfaint o ddata Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad a fyddai'n ddefnyddiol ochr yn ochr ag adrodd ar effaith economaidd i ddwyn pwysau ar benderfyniadau cyllido, ond teimlir bod angen astudiaethau hydredol mwy grymus, yn enwedig ar ganlyniadau mewn meysydd fel dawns mewn lleoliadau gofal iechyd. Teimlai'r ymatebwyr yn gryf y dylai'r Cyngor gasglu'r data hyn ac eirioli dros y sector fel rhan o'i rôl. Hefyd, teimlant fod diffyg diddordeb yn gyffredinol gan swyddogion y Cyngor yn y broses gwaith, ac y byddai'n fuddiol iddynt ymweld â sesiynau tu allan i berfformiadau i weld pa mor effeithiol yw'r gwaith.

Mae’r prif feysydd ar gyfer trawsnewid yn ailadrodd y galwadau a gododd yn holiadur yr adolygiad – sefydlu hybiau dynodedig ar draws y rhanbarthau, diwygio mecanweithiau cyllido i gefnogi gwaith datblygu strwythurol yn y tymor hirach, a chreu llwybrau clir ar gyfer datblygu proffesiynol. Yn ogystal, nodwyd bod angen sylw penodol ar y sector addysg, gyda chyfleoedd i ddatblygu cwricwla Cymru-benodol a chymorth i hyfforddiant athrawon.

Mae’r ymatebwyr yn nodi bod angen i unrhyw ddiwygiadau cyllido symud tu hwnt i fodelau sy’n seiliedig ar brosiectau er mwyn cefnogi gwaith cynaliadwy a hirdymor i ddatblygu artistiaid. Mae angen cryfhau llwybrau datblygu proffesiynol trwy raglenni hyfforddi rheolaidd, cyfleoedd mentora a phrosiectau preswyl.

### 3.4.3 y dyfodol

Er yr heriau, daw sawl cyfle clir ar gyfer datblygu i’r amlwg. Dangosodd yr ymatebwyr wytnwch arbennig ac ymrwymiad, a chododd ymagweddau arloesol at heriau o’r sgyrsiau. Mae’r gydnabyddiaeth gynyddol o rôl dawns mewn iechyd a llesiant yn cynnig cyfleoedd newydd, a allai agor llwybrau ariannu a datblygu newydd. Mae ymarferwyr y sector dawns gymunedol eisoes yn sail i waith ymgysylltu a datblygu celfyddydol eang ar draws cymunedau ac maent mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd newydd hyn.

Teimlir y gallai sector dawns Cymru drawsnewid ei heriau presennol yn gyfleoedd ar gyfer twf, gan greu ecosystem ddawns decach a mwy cynaliadwy sy’n gwasanaethu holl ranbarthau’r wlad, o gael ymyrraeth a chefnogaeth strategol.





Gwaith celf yn gysylltiedig ag elfen *Sgwrs Creadigol* yr adolygiad: Helen Frost, drawtheideas.com













Gwaith celf yn gysylltiedig ag elfen *Sgwrs Creadigol* yr adolygiad: Helen Frost, drawtheideas.com

## 3.5 sgyrsiau un-i-un

Mae llawer o'r materion a godwyd yn adlewyrchu'r canlyniadau a gafwyd o'r dyfeisiau casglu data eraill a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad, ond maent wedi'u cyd-destunoli yn ôl meysydd gwahanol o'r sector.

## CANFYDDIADAU

### 3.5.1 lleoliadau a theithio

Mae heriau ariannol yn cael effaith sylweddol ar raglennu dawns mewn lleoliadau yng Nghymru, gan greu tensiwn rhwng uchelgais artistig a chyfyngiadau ymarferol. Er bod lleoliadau canolig fel Pontio, Taliesin, Aberystwyth a Theatr Clwyd wedi ymrwymo i gefnogi dawns o hyd, maent yn cael trafferth i ddatblygu cynulleidfaoedd. Mae angen cryfhau'r berthynas rhwng lleoliadau ac artistiaid/cwmnïau dawns. Mae'r lleoliadau'n pwysleisio nad yw archebu cwmni'n ddigonol ac mae angen i'r cwmni wneud gwaith datblygu cynulleidfa'n gydamserol yn y gymuned leol, ond yn aml nid yw artistiaid a chwmnïau dawns yn gallu fforddio gwneud llawer o waith ymgysylltu cymunedol o fewn eu hamlen ariannol gyfyngedig. Mae diffyg adnoddau yn y lleoliadau ac yn aml nid oes ganddynt yr arbenigedd i farchnata dawns, felly mae cylch dieflig yn datblygu lle bydd y naill ochr o'r cytundeb yn ceisio cymorth nad oes gan yr ochr arall y gallu i'w ddarparu.

Mae llawer o'r lleoliadau yn adrodd nad ydynt wedi bod yn ymgysylltu cymaint â CDCCymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gwestiynu ei ddewisiadau o ran repertoire, ei farchnata a'i ymagweddau allgymorth. Er yr ystyrir ansawdd ei gynyrchiadau yn gadarnhaol, mae beirniadaeth a gododd sawl tro'n awgrymu bod y cwmni'n methu â sefydlu cysylltiadau ystyrlon gyda rheolwyr lleoliadau, gyda chynulleidfaoedd oherwydd ei ddewisiadau repertoire, nac mewn cymunedau lleol. Cafwyd adroddiadau cadarnhaol am gynyrchiadau a chysylltiadau Ballet Cymru. Mae gan gynyrchiadau'r cwmni gynulleidfaoedd sefydlog neu rai sy'n tyfu, yn enwedig y rhai traddodiadol. Cafodd ymagwedd Ballet Cymru at ymgysylltu cymunedol, gan gynnwys gweithgareddau cofleidiol a pherfformiadau agoriadol, ei chanmol yn helaeth gan leoliadau. Mae'r llwyddiant hwn yn dangos gwerth gwaith ymgysylltu lleol cyson ar gyfer adeiladu a chynnal cynulleidfaoedd.

Ar hyn o bryd, mae diffyg digwyddiadau dathlu dawns yng Nghymru, gyda gŵyl Dyddiau Dawns Abertawe yn datblygu i gynnwys celfyddydau eraill yn 2025. Mae diffyg cymhellion ystyrlon ar gyfer denu artistiaid dawns rhyngwladol i Gymru yn cyfyngu'n ymhellach ar weledEdd y sector. Fodd bynnag, mae opsiwn amgen addawol yn dod i'r amlwg sef y mudiad dawns awyr agored sy'n tyfu. Mae artistiaid yn edrych yn gynyddol ar gyfleoedd i arddangos eu gwaith mewn gwyliau awyr agored, yn y DU a thu hwnt. Mae'r ymagwedd hon yn tyfu potensial perfformio ac yn gwneud dawns yn fwy hygyrch a deniadol i gynulleidfaoedd ehangach drwy ei chyflwyno mewn lleoliadau deinamig, llai ffurfiol. Mae cynnig cyfleoedd ar gyfer dawns yn faes y gallai'r adolygiad arfaethedig i Gelfyddydau Awyr Agored gan y Cyngor ei ystyried yn fwy manwl.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru, sy'n aelod o'r Consortiwm Dawns, wedi wynebu gwrthdaro rhaglennu sy'n atal rhaglennu consortiwm. Er bod cynulleidfaoedd dawns yn dirywio, mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i arddangos dawns o'r ansawdd uchaf o hyd, ac mae'n gweld potensial gwaith mwy arloesol ar flaen y gad, yn hytrach nas dawns gyfoes newydd-glasurol. Mae'r New Theatre yng

Nghaerdydd hefyd yn gobeithio ailgyflwyno dawns i'w rhaglen, er bod y rheolaeth ohoni'n dibynnu i raddau helaeth ar ei gweithredwyr. Mae rhai mentrau cadarnhaol ar raddfa fawr ar y gorwel, ond cyfyngedig iawn yw'r rhaglen ddawns sydd ar gael ar draws y wlad ar hyn o bryd. Er mwyn datblygu ecosystem berfformio iach a thyfu cynulleidfaoedd, mae'n amlwg bod angen rhaglennu cyson ar bob lefel, gan weithio o'r llawr i fyny gyda chynigion ar raddfa ŵyl, bach a chanolig hyd at raddfa fwy.

Mae cynllun 'Noson Allan' CCC yn rhoi cymorth ariannol hanfodol i artistiaid a chwmnïau perfformio.

Gan osod gwarantau perfformio uwch nag y byddai'r rhan fwyaf o leoliadau'n gallu eu fforddio, mae'r fenter yn helpu artistiaid i sicrhau archebion ac yn cefnogi cynaliadwyedd perfformio a theithiau dawns.

### 3.5.2 artistiaid annibynnol a chwmnïau bach

Mae strwythur cyllido presennol y Cyngor wedi creu gwahaniaethau sylweddol yn y sector dawns, gyda phryderon am ei effeithlonrwydd a'i degwch. Cafodd yr holl brosesau ymgeisio am gyllid presennol eu beirniadu'n helaeth am fod yn or-fiwrocrataidd ac am bwysleisio cydymffurfiaeth dros haeddiant artistig. O'r herwydd, mae rhai artistiaid wedi mabwysiadu ymagweddau strategol i 'chwarae'r system', datblygiad sy'n destun pryder ac sy'n adlewyrchu'r natur enbyd a chystadleuol am gyllid. Mae artistiaid annibynnol a chwmnïau bach yn wynebu heriau arbennig o ddifrifol yn yr amgylchedd hwn gan fod y broses ymgeisio am gyllid bresennol yn gofyn yn bennaf i artistiaid weithio'n ddi-dâl, gan greu model anghynaliadwy lle mae gwaith yn cael ei wneud ar yr addewid damcaniaethol y caiff cyllid ei dalu yn y dyfodol.

Yn fwyaf pwysig, rhaid i artistiaid gyflawni nifer o rolau gweinyddol ochr yn ochr â'u gwaith creadigol, gan gystadlu â sefydliadau mwy sy'n elwa o gael staff codi arian a gweinyddwyr dynodedig. Mae'r arfer hwn yn codi pryderon moesegol difrifol ac yn cynnal anghydraddoldeb systemaidd yn y sector, gan effeithio'n arbennig ar y rhai sydd heb arian wrth gefn i gynnal cyfnodau cyson o waith heb dâl. Mae'r berthynas hon rhwng cyfyngiadau ar adnoddau a llwyddiant i ddenu cyllid yn cynrychioli senario achos-ac-effaith clasurol sydd angen ei herio er mwyn sicrhau bywiogrwydd ac amrywiaeth hirdymor y sector. Heb ymyrraeth, mae perygl y bydd yr anghydraddoldebau presennol yn ymwreiddio'n ddyfnach i'r system gyfredol, gan gyfyngu ar y broses o ddatblygu lleisiau artistig yng nghymuned ddawns Cymru.

Mae'r heriau a wynebir gan artistiaid yn mynd tu hwnt i feichiau gweinyddol at faterion sylfaenol eraill o ran cyrraedd adnoddau. Ardystiai'r lleoliadau a'r artistiaid fel ei gilydd fod y seilwaith teithio'n 'anghynaliadwy', gyda datgysylltiad rhwng nodau creadigol yr artistiaid ac ystyriaethau ymarferol y lleoliadau. Soniodd llawer o'r artistiaid a'r cwmnïau bach am y diffyg seilwaith teithio ac am y ffaith y byddant yn elwa o gael cefnogaeth gan gynhyrchwyr, o ddechrau'r prosiect i deithio, a gwerthuso ôl-prosiect. O ran y berthynas rhwng artistiaid a lleoliadau, yn aml bydd y gwaith negodi â lleoliadau yn her i artistiaid. Nid oes ganddynt y seilwaith i wasanaethu gweithgareddau cofleidiol ac anghenion marchnata, a rheoli disgwyliadau cyffredinol y lleoliadau. Awgrymwyd sawl tro bod angen rôl cynhyrchydd i weithredu fel dehonglwr yn y berthynas artist/lleoliad, yn ogystal â rheoli prosiect yn gyffredinol. Yn anffodus fodd bynnag, yn aml ni fydd yr adnoddau ariannol a geir trwy grantiau prosiect yn mynd mor bell â chefnogi rôl debyg, a/neu mae'r cynhyrchydd yn gweithredu fel codwr

arian di-dâl ar yr addewid o gael ffi os bydd y cynnig am arian yn llwyddo. Mae hyn yn cysylltu'n ôl i'r anghydraddoldebau anghynaliadwy a moesegol y soniwyd amdanynt uchod.

Mae artistiaid annibynnol a chwmnïau bach hefyd yn cael trafferth i gael gofodau ymarfer a pherfformio digonol yn aml; er enghraifft, nododd nifer o ymarferwyr yn ardal Caerdydd nad oedd adnoddau ar gael yn gyson yn y Tŷ Dawns. Er bod rhai sefydliadau fel Ballet Cymru wedi dweud eu bod yn fodlon rhannu eu gofodau pan fyddant ar gael, nid yw defnydd gwirioneddol a hygyrchedd trefniadau tebyg yn glir. Mae sefyllfa debyg yn codi mewn rhannau eraill o Gymru hefyd, gydag artistiaid yn y gogledd yn teimlo'n aml nad ydynt yn cael eu cefnogi gan sefydliadau â gofodau addas ar gyfer dawns.

Bydd gweithredu'r argymhellion yn helpu i liniaru rhai o'r anawsterau hyn a wynebir gan artistiaid a chwmnïau bach. Er enghraifft, gallai rhwydwaith o gynhyrchwyr sy'n gweithio fel rhan o asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol gefnogi artistiaid amrywiol ledled Cymru gyda'u gwaith gweinyddol, codi arian, marchnata ac adnoddau cynhyrchu.

Nododd rhai ymatebion bod angen i'r sector dawns yng Nghymru alluogi i artistiaid gymryd mwy o risg, arbrofi a gwthio ffiniau yn eu gwaith. Mae dyhead am brosiectau mwy uchelgeisiol, fel perfformiadau ymdrochol neu waith awyr agored, sy'n cyrraedd cymunedau lleol a chynulleidfaoedd ehangach. Roedd yr ymatebwyr yn annog y Cyngor i ailddosbarthu cyllid er mwyn cefnogi gwaith arloesol newydd a all arddangos talentau dawns Cymru mewn lleoliadau gwahanol. Ni ddylai'r cyllid hwn fod ar gyfer cyfranogi'n unig, ond yn hytrach i gynyrchiadau ansawdd uchel ar lefel proffesiynol.

### 3.5.3 dawns gymunedol

Bu gan Gymru sector dawns gymuned a barchwyd yn fyd-eang, ond mae buddsoddi'n annigonol mewn seilwaith ac artistiaid wedi ei dorri'n deilchion. Heddiw, mae dawns gymunedol yn cynnwys gweithgareddau hamdden, addysgol a'r rhai sy'n canolbwyntio ar iechyd, sy'n creu tirwedd gymhleth, ddatgysylltiedig ar brydiau. Mae dosbarthiadau cyfranogol i oedolion yn brin hyd yn oed yng Nghaerdydd, ac mae gwahaniaethau rhanbarthol yn cyfyngu ar fynediad tu allan i de Cymru.

Mae artistiaid yn cydbwyso gyrfaoedd portffolio'n gynyddol, ond teimlant rwystredigaeth oherwydd y diffyg cydnabyddiaeth o ddawns gymunedol fel ymarfer artistig pur. Mae llawer o ymarferwyr yn sownd mewn bodolaeth llaw i'r genau, yn canolbwyntio ar oroesi ar lefel micro yn hytrach na chyfrannu at ddatblygu'r sector gyfan. Mae hyn yn gostwng statws proffesiynol ac yn dwysau heriau fel tâl isel ac amserlenni trwm. Soniodd nifer am ddiffyg 'glud' sy'n dal y sector dawns gymunedol at ei gilydd.

Mae tensiynau daearyddol yn codi hefyd, gyda rhai artistiaid yn teimlo dan fygythiad gan gwmnïau allanol sy'n cael eu hanfon i'r rhanbarthau heb ddeall y cyd-destunau lleol. Mae'r safbwynt amddiffynnol hwn yn deillio o'r buddsoddiad personol sylweddol a wnaed gan artistiaid yn eu gwaith cymunedol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn wedi amlygu anawsterau strwythurol yn yr ecosystem ddawns ranbarthol, yn enwedig yn y gogledd, lle mae datgysylltiad amlwg a chydweithredu cyfyngedig rhwng

mentrau dawns gwahanol ar draws y rhanbarth. Mae adolygiadau cymysg gan artistiaid dawns llawrydd o ymarfer Dawns i Bawb, a gwthio dawns i'r cyrion gan Galeri, Caernarfon, yn awgrymu bod cwestiynau eang i'w hateb ynghylch y ffordd mae tirwedd ddawns gogledd Cymru'n croestorri. Mae nifer o artistiaid yn y gogledd yn dadlau dros gyd-leoli dawns â chelfyddydau eraill mewn hyb arddull cymunedol, ond byddai'n well gan eraill gynnal ymagwedd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddawns mewn gwaith cymunedol ar draws gogledd Cymru. Teimlant fod dawns wedi'i diystyru cyhyd, mae angen buddsoddi mewn dawns yn unig er mwyn sbarduno'r rhanbarth a'i adnoddau.

Mae absenoldeb mecanweithiau cydgysylltu, cynadleddau neu gyfarfodydd rheolaidd yn rhwystr i ddatblygu ar raddfa Cymru-gyfan, gan adael ymarferwyr i ganolbwyntio ar oroesi yn hytrach na thyfu. Nid yw cydweithredu wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd, ac mae galw am bartneriaethau cryfach. Gallai gofodau dawns dynodedig a hybiau cymunedol fynd i'r afael â heriau seilwaith, er bod enghreifftiau fel Galeri yng Nghaernarfon yn datgelu brwydrau parhaus i fod yn gyfartal â chelfyddydau eraill.

Mae llawer o fentrau'n gweithredu heb gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru, gan ddibynnu ar ffynonellau eraill sy'n cynnig ymreolaeth greadigol ond sy'n arwain at ansefydlogrwydd ariannol a lludded. Mae arweinwyr prosiect dawns yn adrodd eu bod wedi sybsideiddio gweithgareddau'n aml drwy beidio â chymryd cyflog. Gallai ailadrodd modelau ymarfer gorau fel Dance for Parkinson's a rhaglenni hyfforddi Dance Collective CIC yng ngogledd Cymru helpu i gryfhau'r sector, gan feithrin gwytnwch a'r gallu i addasu er mwyn tyfu yn y dyfodol.

Mae rhwystrau daearyddol yn cyfyngu ar fynediad hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan bwysleisio'r angen am ymagweddau tra lleol, sy'n benodol i'r cyd-destun. Mae llawer o artistiaid dawns wedi gwella eu hymarfer drwy weithio mewn cymunedau, yn canolbwyntio ar gyd-greu ac ymwreiddio'u gwaith mewn grwpiau cymunedol dra lleol, er enghraifft, digwyddiadau Twmpath prosiect *Maynard*. Gallai ymagwedd debyg sefydlu cysylltiadau gyda chynllun y Fenter Ddawns Deithiol Wledig, sy'n cael ei beilota ar hyn o bryd trwy leoliadau mewn partneriaeth â chorff Creu Cymru. Mae rhai artistiaid dawns hefyd wedi mabwysiadu model Cwmni Buddiannau Cymunedol er mwyn ymestyn eu cyrhaeddiad ar draws rhanbarthau mewn model dawns gyfranogol gymdeithasol. Mae ymagweddau fel Tango, Dawns Te a Lindyhop wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn y cyd-destunau hyn. Fodd bynnag, mae'r modelau hyn yn wynebu heriau o ran canfyddiad: mae rhai sefydliadau'n adrodd y caiff eu gwaith ei ganfod yn amatur er iddynt gael eu rhedeg gan artistiaid dawns proffesiynol. Er bod nifer o'r ymarferwyr hyn yn derbyn cyllid trwy fentrau cymdeithasol a mentrau iechyd, fel rhaglenni rhagnodi cymdeithasol, mynnant fod eu gwaith yn seiliedig ar y celfyddydau yn y bôn. Ynghyd â'r gallu i gyrraedd ystod o ffrydiau cyllido'r Cyngor, yn gyffredinol, teimlai'r artistiaid hyn y byddant yn elwa o gael cymorth ariannol a chymorth busnes wrth iddynt sefydlu prosiectau.

Mae mentrau dawns gymdeithasol wedi'u lleoli yn y gymuned yn cynnig profiadau unigryw a chadarnhaol. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o feithrin cynhwysiant a lleihau teimladau o ynysu, yn enwedig ymysg grwpiau anodd eu cyrraedd fel pobl wedi ymddeol a phreswylwyr cartrefi gofal. Daeth dawns i'r amlwg yn arf grymus i gefnogi iechyd a symud corfforol, iechyd meddwl, gorbryder a lles cymdeithasol. Mae rhaglenni Dawns er Iechyd a'r rhai sy'n dod o ragnodi cymdeithasol yn gwella canlyniadau iechyd meddwl, ehangu cyfranogi a dwysáu ymgysylltu cymunedol.

### 3.5.4 dawns draddodiadol Cymru

Roedd aelodau'r Gymdeithas Ddawns Werin ledled Cymru'n awyddus i gymryd rhan yn yr adolygiad, gan fynegi pryderon ynghylch y ffaith bod dawns werin wedi cael ei hesgeuluso yn y gorffennol. Ychwanegir at danariannu gan ofnau ynghylch y posibilrwydd y gallai dawns werin a chlocsio diflannu heb ymyrraeth amserol. Yn ogystal, mae dawns werin Cymru'n wynebu argyfwng hunaniaeth, ac yn cael ei diystyru'n aml fel cyfrwng hen ffasiwn yn hytrach na'i dathlu fel cynrychiolaeth fywiog o ddiwylliant Cymru. Er bod rhai grwpiau'n anelu at gynnal dawnsiau traddodiadol, mae eraill yn gwthio am arloesi, gan arwain at densiwn rhwng y traddodiadwyr a'r blaengarwyr. Adlewyrchir y frwydr hon dros berthnasedd gan y ffaith bod sefydliadau fel yr Urdd a'r Eisteddfod yn adrodd lleihad yn nifer eu cystadleuwyr. Fodd bynnag, mae gan ddawns werin Cymru a chlocsio botensial nas defnyddiwyd fel arf i ddysgu'r Gymraeg ac fel ffordd o ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd dan y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae'r artistiaid dawns sy'n dadlau o blaid integreiddio diwylliant gwerinol Cymru yn eu hymarfer dawns yn cynnwys Angharad Harrop, Meinir Siencyn, Tudur Phillips ac Osian Meilir, ac mae enghreifftiau cadarnhaol o arloesi'n cynnwys *Prosiect Wyth,* a ariannwyd trwy raglen Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru (2022-2024) ac a gydnabyddir yn fodel o ymarfer gorau.

Mae'r adroddiad crynodol *Adroddiad Prosiect Wyth* (Mair, 2024) yn amlinellu fframwaith strategol er mwyn adeiladu ar etifeddiaeth *Prosiect Wyth* a datblygu dawns werin Cymru ledled y wlad. Mae'n pwysleisio manteisio ar gryfderau presennol fel diddordeb ar lawr gwlad, cyfranogiad ieuenctid trwy fodel Twmpdaith, a moderneiddio dawnsiau traddodiadol yn llwyddiannus. Er y ceir tystiolaeth o frwdfrydedd ymysg y cyhoedd, a chymuned ymroddedig o ymarferwyr, mae'r adroddiad hefyd yn nodi heriau parhaus, gan gynnwys seilwaith proffesiynol annigonol, diffyg cydnabyddiaeth sefydliadol, a gorddibyniaeth ar ymdrechion gwirfoddolwyr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r fframwaith a awgrymwyd gan adroddiad Mair yn cynnig pedwar piler strategol, gyda strategaeth weithredu dros wyth mlynedd wedi'i rhannu'n dri cham, gan ganolbwyntio ar ddatblygu proffesiynol ac ymgysylltu cymunedol. Bydd gan argymhellion yr adroddiad dawns werin hwn synergedd ag adolygiad cerddoriaeth draddodiadol Cymru yn 2025.

### 3.5.5 datblygu proffesiynol parhaus

Mae datblygu proffesiynol yn sector dawns Cymru'n wynebu sawl her strwythurol. Mae angen ar artistiaid proffesiynol fynychu dosbarthiadau ffitrwydd/techneg addas er mwyn cynnal eu hymarfer o hyd. Er bod rhai mentrau'n bodoli, mae eu heffeithlonrwydd a'u hygyrchedd yn amrywio'n sylweddol rhwng y rhanbarthau, gyda mynediad at drafnidiaeth yn ychwanegu at y broblem. Mae'r dirwedd ddatblygu proffesiynol parhaus yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig, lle mae ynysu daearyddol yn ychwanegu at y rhwystrau presennol o ran datblygu gyrfa. Her sylweddol arall i hyfforddiant yw rhwystrau ariannol, gyda llawer o ddawnswyr yn cael trafferth i gydbwyso'r angen i ennill incwm â buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Ni fyddai hyn yn digwydd mewn amgylchedd chwaraeon lle mae hyfforddiant yn hanfodol i'r broses ddatblygu.

Er bod rhai o gyfranogwyr yr adolygiad hwn yn ei gwerthfawrogi, cafodd Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan ei beirniadu am fod yn llai ymatebol i anghenion y sector yn ddiweddar. Mae'r newid i fod yn fodel a dalwyd, wedi cyfuno â llai o fewnbwn gan gyfranogwyr i'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen, wedi

newid ei hysbryd cydweithredol gwreiddiol. Mae darparu'r rhaglen ar-lein yn sicrhau hygyrchedd eang, ond mae llawer yn ystyried y fformat presennol yn unffurf oherwydd ei fod yn gyfres o gyflwyniadau yn hytrach na chymhwysedd ymarferol a chymorth wedi'i bersonoli.

Daeth mentrau lleol i'r amlwg er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Yn y gogledd, mae Dance Collective wedi datblygu rhaglen hyfforddiant uchel ei pharch sy'n ymateb i anghenion dawnswyr lleol. Yn debyg, mae Groundwork Collective yng Nghaerdydd yn cynnig hyfforddiant dan arweiniad artistiaid, er bod rhai ymatebwyr yn teimlo wedi'u heithrio o'r hyn a ganfyddant yn gymuned gaeedig. Yn y cyfamser, disgrifiwyd ymagwedd CDCCymru at ddosbarthiadau agored yn gyfyngol, yn enwedig o ran ymarferwyr dawns gymunedol a deimlai fod eu harbenigedd yn cael ei danbrisio.

Mae heriau datblygu proffesiynol sector dawns Cymru wedi'u hymwreiddio'n ddwfn mewn cyfyngiadau strwythurol, daearyddol ac economaidd. Bydd angen cyd-ymrwymiad i gydnabod datblygu proffesiynol yn hanfodol i dwf artistiaid er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Trwy feithrin amgylcheddau hyfforddiant mwy hygyrch, hyblyg ac ymatebol, gall Cymru adeiladu seilwaith cryfach i gefnogi ei hymarferwyr dawns.

Datrysiad allweddol yw sefydlu model hyfforddi datganoledig sy'n cyfuno platfformau wyneb yn wyneb a phlatfformau digidol er mwyn sicrhau na fydd ynysu daearyddol yn rhwystro'r broses o wella sgiliau. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant cynhwysfawr sy'n blaenoriaethu profiadau ymarferol, rhyngweithiol dros gynnwys goddefol ar-lein a, lle bo angen, opsiynau trafnidiaeth â chymhorthdal ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb. Gallai'r model hyb cymunedol a awgrymwyd yn adran argymhellion yr adolygiad hwn gydgysylltu'r gwaith hwn.

Mae mecanweithiau cyllido tryloyw a chyfranogol hefyd yn hanfodol i gefnogi dysgu parhaus y dawnswyr. Byddai rhaglenni grant a ddyluniwyd i wneud iawn am gostau hyfforddiant yn cydnabod datblygu proffesiynol yn fuddsoddiad hollbwysig yn hytrach na wariant dewisol, gan annog mwy o ymarferwyr i fynd ar ôl cyfleoedd ar gyfer twf.

Rhaid i gydweithredu fod wrth galon y datrysiad hefyd. Gallai pontio mentrau presennol – fel Dance Collective, Groundwork Collective a Rubicon – â rhaglenni rhanbarthol pwrpasol helpu i ddileu'r canfyddiadau o ddetholusrwydd. Byddai'r ymagwedd hon yn datblygu ecosystem ddatblygu proffesiynol fwy cynhwysol a chefnogol, gan fanteisio ar gyd-gryfderau er budd y sector cyfan.

Mae ail-ddychmygu'r Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan yn gam hollbwysig arall. Byddai adfer ei hysbryd cydweithredol gwreiddiol, gyda mwy o fewnbwn gan gyfranogwyr a chryfhau cysylltiadau â mentrau One Dance UK a People Dancing yn sicrhau dull cyflenwi cytbwys a chydgysylltiedig. Trwy integreiddio ei chynnig digidol â datblygu sgiliau ymarferol, gallai'r rhaglen ddiwallu anghenion amrywiol yr ymarferwyr yn well, a chryfhau ei heffaith ar draws y sector.

### 3.5.6 dawns mewn addysg

Mae addysg ddawns yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau, a dirywiodd yn sylweddol ar draws ysgolion a lleoliadau addysg ôl-16 ac addysg uwch. Cafodd rhaglenni dawns eu llyncu'n gynyddol i gwricwla celfyddydau perfformio neu addysg gorfforol ehangach, gan adael nifer gyfyngedig o opsiynau hyfforddiant dynodedig. Ar hyn o bryd, dim ond un rhaglen ddawns addysg uwch sy'n bodoli: gradd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn dawns fasnachol, ynghyd â dwy raglen

drydyddol BTEC a gynigir gan Goleg Caerdydd a’r Fro (wedi’i ddarparu yn Rubicon) a Choleg Castell-nedd.

Mae rhaglen BTEC Rubicon yn arbennig o fregus. Mae’n cael trafferth i recriwtio a chynnal grwpiau bach sy’n peryglu ei hyfywedd ariannol hirdymor. Nid yw ei ffocws ar genres newydd-glasurol yn cyd-fynd â diddordebau myfyrwyr, sy’n tueddu mwy at arddulliau dawns gystadleuaeth a theatr gerdd. Yn debyg, mae rhaglen Dawnswyr Cyswllt CDCCymru yn gweithredu fel gweithgaredd allgyrsiol lefel uchel yn hytrach na llwybr hyfforddiant gwirioneddol - dim ond pump o’r ddau gyfranogwr ar hugain presennol a fynegodd diddordeb gwirioneddol mewn dilyn hyfforddiant dawns addysg uwch. Gan fod diffyg dilyniant o’r rhaglen dawnswyr cyswllt yn ôl i CDCCymru, a dim ond un dawnsiwr o Gymru sy’n aelod o’r cwmni perfformio llawn-amser, mae angen amlwg i wella’r broses o gadw talent a chreu mwy o gyfleoedd lefel uchel i ddawnswyr lleol a leolir yng Nghymru.

Mynegwyd pryderon gan weithwyr proffesiynol am ddirywiad cyrsiau dawns ar lefel gradd yng Nghymru, ond mae’r gwir yn fwy cymhleth. Mae datgysylltiad amlwg rhwng dyheadau dawnswyr ifanc a nodau proffesiynol y sector. Er y galwadau angerddol i gadw talentau yng Nghymru ac adfer seilwaith hyfforddiant addysg uwch, dymunai’r mwyafrif llethol o ddawnswyr ifanc dderbyn eu haddysg yn rhywle arall. O’r dawnswyr lefel trydyddol a gyfwelwyd yn Rubicon, dim ond dau ohonynt a fynegodd diddordeb gwirioneddol mewn astudio yng Nghymru, hyd yn oed pe bai mwy o raglenni gradd ar gael. Mae’r dewis hwn yn deillio o’r dyhead am brofiadau diwylliannol newydd a’r bri sy’n gysylltiedig ag ysgolion penodol. Er hynny, dywedodd 86% o’r ymatebwyr yr hoffant ddychwelyd i Gymru i weithio yn yr hirdymor, gan ddyfynnu balchder yn eu hetifeddiaeth a dymuniad i gyfrannu at ecosystem ddawns Cymru. Fodd bynnag, mae’r nifer cyfyngedig o gyfleoedd dilyniant gyrfa’n gwneud hyn yn anodd, gan greu her ddifrifol i’r dyfodol.

Beirniadwyd Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru am ganolbwyntio ar recriwtio myfyrwyr sydd eisoes yn derbyn hyfforddiant proffesiynol, yn hytrach na datblygu talentau ifanc a leolir yng Nghymru. Fodd bynnag, mae diffyg cyllid yn cyfyngu ar ei allu i ddarparu rhaglenni hyfforddiant ehangach, ac mae’n dibynnu’n drwm ar ensembles ieuenctid ac ymroddiad athrawon lleol i feithrin talent sy’n dod i’r amlwg. Mae grwpiau dawns ieuenctid ledled Cymru wedi dirywio dros amser oherwydd heriau amrywiol fodd bynnag. Cadarnhawyd y duedd hon gan CDCCymru, gyda llai yn ymgeisio i’w rhaglen *Lansio* yn hydref 2024 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

O gymharu â Lloegr, mae dawnswyr ifanc yng Nghymru’n wynebu anfanteision sylweddol wrth bontio i hyfforddiant addysg uwch oherwydd cyfleoedd hyfforddiant anghyson o ansawdd is. Yn wahanol i gynlluniau Canolfan Hyfforddiant Uwch Lloegr, mae diffyg llwybrau strwythuredig yng Nghymru. Mae adborth anffurfiol gan sefydliadau fel y Northern School of Contemporary Dance a The Place yn awgrymu na fydd ymgeiswyr o Gymru wedi paratoi’n ddigonol ar gyfer manylrwydd clyweliadau yn aml, ac nid oes ganddynt y sgiliau technegol angenrheidiol.

Mae ysgolion yn gynyddol gwthio dawns i’r cyrion. Pan gaiff dawns ei chynnig, mae’n canolbwyntio’n aml ar theatr gerdd, gan neilltuo dawns gyfoes a dawns greadigol. Mae ysgolion dawns masnachol hefyd yn blaenoriaethu arddulliau cystadleuaeth dros ddatblygu artistig. Mae’r Cwricwlwm i Gymru newydd yn gyfle i integreiddio dawns greadigol i’r cwricwlwm celfyddydau perfformio, ond mae angen rhoi cymorth cadarn i athrawon ac artistiaid dawns trwy ddatblygu adnoddau Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn sicrhau bod dawns yn gyfartal â chelfyddydau eraill.

Heb yr adnoddau hyn, mae pryder y caiff dawns ei bwrw i'r cysgod. Mae ymarferwyr hefyd yn eirioli dros ehangu eu rôl yn y gwaith o gyflenwi dysgu proffesiynol, yn hytrach na bod yn ddarparwyr sy'n ymweld. Beirniadwyd y rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol gan fod diffyg adnoddau'n cyfyngu ar allu ysgolion i weithio gydag ymarferwyr dawns tu hwnt i'r rhaglen. Soniodd artistiaid dawns hefyd am y canfyddiad y caiff celfyddydau eraill eu blaenoriaethu dros ddawns yn y rhaglen. Gallai'r ffactorau hyn arwain at ddiffyg mynediad uniongyrchol i ysgolion gan artistiaid dawns, a gwthio dawns i gyrion gwasanaeth cyflenwi sefydlog.

Mae'r iaith gyflenwi'n ychwanegu haenen arall o gymhlethdod i addysg dawns yng Nghymru. Nid oes undod barn: mae rhai'n dadlau bod dawns tu hwnt i iaith lafar, ac eraill yn credu'n gryf y dylai cymunedau Cymraeg dderbyn cyfarwyddiadau dawns yn Gymraeg. Er bod artistiaid dawns sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn cymunedau, yn aml mae'r galw'n fwy na'r nifer sydd ar gael. Pryder cynyddol yw y gallai'r gallu i siarad Cymraeg dyfu'n bwysicach nag arbenigedd dawns, efallai gan eithrio ymarferwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae maes llafur y cymhwyster TGAU dawns newydd yng Nghymru'n gyfle addawol i ail-lunio addysg dawns. Mae'r rhanddeiliaid yn dychmygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru drwy ymgorffori rhaglen waith gynhwysfawr gan goreograffwyr a leolir yng Nghymru, a chroesawu ymagwedd aml-genre. Gallai hyn gynnwys arddulliau cyfoes fel *hip-hop* ochr yn ochr â dawns werin draddodiadol, gan wneud addysg dawns yn fwy perthnasol a hygyrch i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch argaeledd athrawon â chymwysterau priodol i gyflawni sesiynau sy'n briodol yn ddiwylliannol â gonestrwydd.

Yn y pendraw, mae'r datgysylltiad rhwng uchelgais proffesiynol y sector a dyheadau dawnswyr ifanc yn pwysleisio anawsterau mwy difrifol. Mae parodrwydd dawnswyr ifanc i geisio cyfleoedd tu hwnt i Gymru yn cyferbynnu'n amlwg â brwdfrydedd gweithwyr proffesiynol i ailadeiladu seilwaith hyfforddiant lleol. Mae angen ymyriadau strwythurol ar frys i fynd i'r afael â'r bylchau mewn hyfforddiant, perthnasedd diwylliannol a chyfleoedd dilyniant gyrfa. Mae ail-ddychmygu addysg ddawns i alinio â dyheadau sy'n dod i'r amlwg yn hanfodol i gynnal a thyfu ecosystem ddawns Cymru.

### 3.5.7 amrywiaeth a newid diwylliannol

Mae tirwedd ddawns yng Nghymru yn datgelu cydadwaith cymhleth rhwng traddodiad, dewisiadau cyfoes a chynrychiolaeth. Er bod myfyrwyr dawns yn frwdfrydig dros arddulliau amrywiol gan gynnwys *acro*, stryd, ballet, dawns delynegol a theatr gerdd, mae'n ymddangos bod apêl dawns gyfoes yn dirywio ymysg y cenedlaethau iau, sydd efallai wedi'i adlewyrchu yn y dirywiad mwy eang yn niddordeb cynulleidfaoedd mewn perfformiadau dawns gyfoes.

Mae'r pwyslais presennol ar hyfforddiant ballet a dawns gyfoes mewn addysg ddawns ffurfiol wedi achosi ton anffodus. Trwy gyfyngu ar brofiadau o arddulliau dawns eraill, mae'r ffocws cul wedi codi rhwystrau rhag mynediad ac wedi llunio diffiniad cymdeithas o lwyddiant dawns o safbwynt diangen o gyfyngol. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain i lawer o artistiaid dawns, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn dawnsiau gwahanol, deimlo wedi'u heithrio o ffrydiau cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n ymddangos i ffafrio arddulliau newydd-glasurol fel y canon safonol. Ychwanegir at yr heriau hyn gan y canfyddiad bod y Cyngor yn gwrthod cydnabod dawnsiau amgen mewn ceisiadau am gyllid - teimlai

rai sefydliadau ac artistiaid eu bod yn cysylltu'n llwyddiannus â'r cenedlaethau iau trwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, ond caiff eu hystadegau ymgysylltu eu diystyru mewn gwerthusiadau swyddogol. Mae hyn yn tynnu sylw at ddatgysylltiad posibl rhwng mesurau traddodiadol a'r gwirionedd cyfoes.

Er bod rhai sefydliadau fel Jukebox Collective ac Urban Circle wedi datblygu rhaglenni sy'n dathlu dawnsiau amrywiol a chynhwysol, mae'r mentrau hyn wedi'u cyfyngu i gymunedau penodol ar adegau. Fodd bynnag, mae gan y ddau sefydliad agwedd fyd-eang gyda rhywfaint o lwyddiant tu hwnt i Gymru a'r DU sy'n helpu i adeiladu rhwydweithiau dawns cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae artistiaid dawns o'r mwyafrif byd-eang yn dweud eu bod yn wynebu heriau ychwanegol yn y sector dawns, gan gwestiynu'n aml a yw eu cyflogaeth yn deillio o gydnabyddiaeth wirioneddol o'u harbenigedd neu oherwydd ei bod yn diwallu cwotâu amrywiaeth. Teimlai eraill wedi'u heithrio gan nad ydynt yn rhan o'r 'cliciau' sefydlog yn y sector llawrydd. Defnyddiodd un artist y gair 'dibwyllo', soniodd un arall nad oedd yn teimlo'n rhan o'r cylch dethol, a disgrifiodd un arall y gymuned ddawns lawrydd yn 'ddethol'.

Tynnwyd sylw at yr heriau a wynebir wrth sicrhau cyllid i unigolion nad ydynt yn niwronodweddiadol, ac awgrymwyd y byddai symleiddio'r prosesau ymgeisio yn fuddiol. Yn arbennig, rhannodd un ymatebwr brofiad cymorth cadarnhaol iawn a gafodd gan y Cyngor. Mae hyn yn awgrymu bod rhyngweithio gyda swyddogion y Cyngor fel unigolion yn gallu cael effaith sylweddol ar y profiad yn gyffredinol, er bod rhwystrau systemaidd yn gallu bodoli.

Yn gyffredinol, teimlai rai artistiaid dawns eu bod wedi'u heithrio o'r byd dawns ledled Cymru, gan ei ddisgrifio'n 'fraint sy'n parhau'n ddiddiwedd'. Dywedasant fod y Gymraeg yn bwysicach na chynhwysiant drwyddi draw ac yr hoffant gael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi fel artistiaid o Gymru/a leolir yng Nghymru yn hytrach na gorfod chwilio am waith tu allan i Gymru er mwyn teimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi.

Mae'r ecosystem bresennol yn adlewyrchu rhyngweithiad cymhleth o rwystrau systemaidd sy'n rhwystro mynegiant artistig ac yn gwthio lleisiau amrywiol i gyrion y gymuned ddawns. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn, gellid mabwysiadu ymagwedd drawsnewidiol sy'n ehangu ar y diffiniad o ragoriaeth ddawns tu hwnt i ddawnsiau newydd-glasurol traddodiadol, gan gydnabod gwerth arddulliau dawns amrywiol a'u harwyddocâd diwylliannol. Gellid hefyd ystyried ail-gydbwyso'r ymagwedd bresennol at gynrychiolaeth ddiwylliannol er mwyn sicrhau y bydd targedau ieithyddol yn cydweithio â chynhwysiant yn gyffredinol, yn hytrach nag ar draul cynhwysiant ehangach o bosib. Mae hyn yn golygu creu amgylcheddau lle bydd artistiaid yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi am eu cyfraniadau artistig, beth bynnag bo eu cefndir neu iaith.

Mae dyfodol dawns yng Nghymru yn dibynnu ar ei gallu i groesawu amrywiaeth, herio'r patrymau presennol i greu ecosystem gefnogol, fwy agored sy'n dathlu'r sbectrwm mynegiant artistig cyfan. Trwy fynd i'r afael â'r heriau strwythurol hyn, gall Cymru trawsnewid ei sector dawns yn dirwedd artistig fwy deinamig, gynhwysol a pherthnasol yn fyd-eang.

### 3.5.8 arweinyddiaeth

Mae’r adolygiad yn amlygu pryderon sylweddol ynghylch arweinyddiaeth a llywodraethu yn sector dawns Cymru. Un o’r prif faterion oedd nifer y sefydliadau dawns gymunedol a deimlai nad oedd eu ceisiadau Adolygiad Buddsoddi yn llwyddiannus oherwydd gwendidau mewn perthynas â rheoli ac arweinyddiaeth a/neu lywodraethu. Er bod rhai sefydliadau’n gallu defnyddio ymgynghorwyr rheoli neu wedi derbyn cyllid gwytnwch yn y gorffennol, mae llawer ohonynt yn dibynnu’n helaeth ar weithwyr llawrydd ac nid oes ganddynt yr adnoddau i ddatblygu modelau busnes neu i sefydlu strwythurau llywodraethu cadarn. O gofio bod y Cyngor wedi nodi nad oedd modd rhoi cyllid i nifer fawr o geisiadau Adolygiad Buddsoddi 2023 (Rhys, 2024), mae angen amlwg am hyfforddiant a chymorth, a symleiddio gweithdrefnau er mwyn gwella canlyniadau yn y dyfodol.

Mae’r heriau arweinyddiaeth yn ymestyn i’r Cyngor ei hun, lle mae absenoldeb arbenigwr dawns ar lefel y Cyngor wedi creu rhwystredigaeth eang ymysg ymarferwyr dawns yng Nghymru. Soniodd artistiaid am ddiffyg arweiniad cynhwysfawr a chymorth, gan alw am weithredu ar frys – naill ai drwy benodi arbenigwr dawns i’r Cyngor yn ystod cylch recriwtio nesaf y Llywodraeth, neu drwy secondio unigolyn i’r Cyngor dros dro.

Bwlch difrifol arall yw’r diffyg gwaith monitro ansawdd cadarn ac adborth artistig yn y sector. Cwestiynodd yr ymarferwyr dull gwerthuso rhaglennu artistig y cwmnïau portffolio, yn arbennig o ran perthnasedd rhai o’r dewisiadau rhaglennu i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Roedd rhai yn ansicr ynghylch ble i gael beirniadaeth ystyrlon o’u gwaith. Mae absenoldeb y rôl ‘cyfaill beirniadol’ yn bryder penodol, yn enwedig o gofio nad oes gan y Cyngor arbenigwr dawns. Mae un cwmni portffolio wedi newid ei arweinyddiaeth artistig sawl gwaith, gan ei adael mewn sefyllfa ddifrifol ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, mae adran argymhellion yr adolygiad hwn yn galw naill ai am sefydliad dynodedig neu rwydwaith o fentoriaid uchel eu parch i weithredu fel cyfeillion beirniadol, yn rhoi cymorth adeiladol a mentora i gwmnïau sefydlog a’r rhai sy’n dod i’r amlwg.

## 3.6 sylwadau o’r bwrdd gwyn ar-lein a negeseuon e-bost

Gwelwyd rhagfarn amlwg ar y bwrdd gwyn ar-lein dienw, ac roedd yr holl adborth a gafwyd ganddo yn negyddol. Nid oedd unrhyw wahaniaeth ystyrlon rhwng y sylwadau hyn a’r canfyddiadau a gafwyd o’r technegau casglu data ansoddol eraill. Ni chafwyd unrhyw safbwyntiau gwirioneddol newydd tu hwnt i brif fethodoleg yr adolygiad o’r negeseuon e-bost chwaith, er bod datblygu dawns mewn mannau awyr agored a rôl Canolfan Taliesin yn Abertawe yn y dyfodol yn faterion o bwys. Efallai y gellid croestorri rhwng yr adolygiad hwn a’r un a fwriadwyd gan y Cyngor ar gyfer Celfyddydau Awyr Agored yng Nghymru yn 2025 er mwyn ymchwilio ymhellach i gyfleoedd ar gyfer perfformio dawns. Mewn perthynas â chanolfan Taliesin, roedd y sylwadau e-bost yn cyfeirio at atebolrwydd y Cyngor a’r newid i'w bolisi, oherwydd bod gan y lleoliad cyfeiriad pendant yn hanesyddol o ran ei rôl yn y sector dawns[11]. Nid oedd y model hwn yn gynaliadwy, ac mae wedi ychwanegu at ddirywiad y lleoliad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

[11] Dogfennau o’r 2000au cynnar pan oedd Sybil Crouch yn rheoli’r lleoliad

# rhan 4 ARGYMHELLION

Mae'r adolygiad hwn yn dangos bod y sector dawns yng Nghymru wedi cyrraedd moment tyngedfennol. Er iddo ddangos gwytnwch amlwg mewn rhai meysydd a photensial amlwg ar gyfer twf, mae'r sector yn wyneb heriau strwythurol sylweddol sydd arnynt angen ymyrraeth strategol.

Mae gwaith dadansoddi'n dangos anghydraddoldebau daearyddol sylweddol mewn darpariaeth, bylchau mewn seilwaith hanfodol, a phroblemau cynaliadwyedd sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r sector yn parhau i gael ei gynnal gan gymuned ymroddedig o ddawnswyr proffesiynol, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr sy'n parhau wedi ymrwymo i'w wella a'i ddatblygu.

Mae'r sector dawns yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd Cymru, gan greu buddion mesuradwy i lesiant cymdeithasol ac economaidd, ac alinio'n gyson ag amcanion strategol allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Byddai unrhyw ddirywiad pellach o'r sector yn cynrychioli colled sylweddol o fuddsoddiad ariannol, a chyfalaf diwylliannol a gweithlu.

Ni ellir pwysleisio difrifoldeb y sefyllfa bresennol ddigon. Mae adborth gan randdeiliaid yn nodi'n gyson bod angen gweithredu'n benderfynol ar frys er mwyn atal darpariaeth dawns yng Nghymru rhag dirywio ymhellach. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn gan fod y ddarpariaeth yn dirywio bob blwyddyn. Mae goblygiadau peidio â gweithredu yn risg sylweddol i hyfywedd y sector, felly dylid cymryd camau gweithredu.

Bydd angen newid ymagwedd yn sylfaenol i gyflawni gweledigaeth ar gyfer dyfodol dawns yng Nghymru, gan symud o gystadlu ac unedau ar wahân at fodel mwy integredig a strategol o ddatblygu dawns a yrrwyd gan y gymuned, a darpariaeth o'r llawr i fyny. Trwy weithredu'r argymhellion a awgrymwyd, gallai sector dawns Cymru dyfu'n amgylchedd mwy cysylltiedig, amrywiol a hygyrch sy'n gwasanaethu cymunedau ledled y wlad.

Cafodd yr argymhellion a gyflwynwyd yma eu datblygu yn ôl meini prawf SMART[12].

Fodd bynnag, er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn yn llwyddiannus, bydd angen ar y Cyngor ddatblygu cynllun newid cynhwysfawr sy'n nodi strategaethau manwl ar gyfer gweithredu. Gellir rhoi rhai o'r argymhellion ar waith yn gyflym heb lawer o adnoddau, ond bydd angen cynllunio strategol a buddsoddiad ariannol ar rai eraill.

## BYRDYMOR: yn syth, 1-6 mis

Soniwyd am sawl agwedd ar arweinyddiaeth ym mhob un o fecanweithiau'r adolygiad, yn amrywio o ymholiadau mewn perthynas â'r diffyg presennol o arweinyddiaeth barhaol yn CDCCymru, a heriau arweinyddiaeth i ddawnswyr llawrydd, i arweinyddiaeth ar lefel y Cyngor. Efallai y bydd heriau arweinyddiaeth CDCCymru'n cael eu datrys yn y byrdymor/tymor canolig, a gallai'r argymhellion i'r

[12] Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol, Amserol

tymor canolig/hirdymor helpu i fynd i'r afael â'r heriau arweinyddiaeth a wynebir gan artistiaid annibynnol.

Yn y byrdymor, gellir cyflawni'r argymhellion hyn heb fawr o gost i'r Cyngor a/neu'r sector.

## 4.1 arweinyddiaeth

Argymhelliad 1: Sefydlu panel strategol annibynnol sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'w aelodau, er mwyn penderfynu ar ffordd gadarn ymlaen i ddawns yng Nghymru. Caiff y grŵp hwn ei recriwtio gan y Cyngor, bydd yn gynrychiadol o'r sector ac yn ymgymryd â'r tasgau canlynol:

- Gwerthuso a blaenoriaethu argymhellion yr adolygiad sydd angen arnynt gefnogaeth ariannol yn syth
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu strategaeth ddawns gynhwysfawr i Gymru
- Sicrhau cydweithredu rhwng ymyriadau unionsyth ac amcanion strategol tymor hirach
- Effeithlonrwydd y camau gweithredu a argymhellir

**Mesurau llwyddiant:**

- Rhoi ar waith amserlen gweithredu argymhellion yr adolygiad a fabwysiadwyd
- Pennu'r costau rhagamcanol sy'n gysylltiedig ag argymhellion yr adolygiad

Argymhelliad 2: Sefydlu cronfa o gyfeillion beirniadol a all cwestiynu arferion cwmnïau sy'n derbyn cyllid refeniw ar y lefel artistig uchaf. Nid yw'r rôl hon yn bodoli ar hyn o bryd. Byddai rôl y cyfaill beirniadol yn cynnig:

- mentora, arweiniad a chefnogaeth i Gyfarwyddwyr Artistig
- ennyn trafodaethau ynghylch ymarfer a dewisiadau rhaglennu ar gyfer lleoliadau
- ystyried perthnasedd diwylliannol yn gyffredinol a chyd-destun i Gymru

Gellid ymestyn y rôl dros amser er mwyn galluogi i gwmnïau llai ac artistiaid llawrydd herio a hyrwyddo eu hymarfer.

**Mesur llwyddiant:**

- Penodi cyfaill beirniadol cyn pen 6 mis ar gyfer pob cleient dawns sy'n derbyn cyllid refeniw (cyfaill beirniadol gwahanol ar gyfer pob sefydliad, neu'r un cyfaill os yn briodol). Y panel strategol (argymhelliad 1) i weithio gyda chwmnïau i lunio rhestr fer o bersonél priodol. Penodi cyfaill beirniadol ar sail ffi ddyddiol - 1 diwrnod y chwarter. Awgrymir talu ffi gweithiwr llawrydd dyddiol o £350

Argymhelliad 3: Penodi arbenigwr dawns i Bwyllgor y Cyngor gan nad oes eiriolwr dros ddawns yn rhan o'r broses benderfynu ar y lefel strategol honno ar hyn o bryd.

Os na chaiff arbenigwr dawns ei benodi yng ngwanwyn 2025 o ganlyniad i'r alwad bresennol am aelodau Cyngor, argymhellir cyfethol /secondio rhywun sydd â phrofiad priodol i'r rôl hyd nes y caiff datrysiad mwy parhaol ei sefydlu.

**Mesur llwyddiant:**

- Penodiad cyfetholedig/wedi'i secondio dros dro neu benodiad llawn i'r Cyngor yn gynnar yn 2025

## TYMOR CANOLIG: 1-3 blwyddyn

Mae ychydig o oblygiadau ariannol i ymyriadau tymor canolig y gellid mynd i'r afael â hwy trwy ddefnyddio cyllid y Cyngor yn strategol. Mae un ymagwedd bosib yn peri her ariannol: naill ai sicrhau mwy o gyllid i ddawns o gyllideb ehangach y Cyngor, neu drwy ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i roi cyllid ychwanegol ac ymrwymo mwy ohono i ddawns. Os na fydd hynny'n ddichonol, gallai'r Cyngor edrych ar y posibilrwydd o ymagwedd ymyraethol, gan ail-ddosbarthu rhywfaint o'i gyllid refeniw dawns presennol neu gyllid refeniw arall yn y cylch cyllid nesaf. Yn naturiol, byddai unrhyw gamau gweithredu tebyg yn effeithio ar y rhai sydd yn y portffolio presennol. Pa ffordd bynnag caiff y sefyllfa ei datrys, byddai angen naill ai gynyddu neu ryddhau cyllid refeniw er mwyn galluogi i'r Cyngor ddosbarthu cyllid dawns yn decach ar draws Cymru, gan ddatblygu dawns gymunedol a'r portfffolio dawnswyr llawrydd a chwmnïau bach.

### 4.2 gweithredu hybiau celfyddydau cymunedol wedi'u cyd-leoli

Mae'r sector dawns gymunedol wedi ymrwymo'n gryf i hygyrchedd, gan gydnabod potensial dawns i wasanaethu cymunedau amrywiol ac i ryngweithio'n ystyrlon â'r sector iechyd, y sector addysg a sectorau cymunedol eraill. Mae rhaglenni sy'n canolbwyntio ar iechyd yn tyfu cyfranogiad a gallant ddangos gwerth ehangach dawns i'r gymuned. Bydd angen buddsoddiad a chymorth parhaus i ddiwallu'r dyheadau hyn. Nododd yr ymatebwyr y potensial sydd ar gael, gydag enghreifftiau o ymarfer gorau ac awydd cryf i weld sector dawns decach, fwy cynhwysol a mwy cydweithredol a allai cysylltu'n wirioneddol â chymunedau ledled Cymru, a'u gwasanaethu. Fodd bynnag, bydd angen newid ymagwedd yn sylweddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, i ariannu model mwy integredig a strategol o ddatblygu a darparu dawns, wedi'i yrru gan y gymuned.

Bydd hyfywedd y sector yn y dyfodol yn dibynnu ar ddarganfod ffyrdd gwell o ledaenu gwybodaeth ac arbenigedd, ac adeiladu llwybrau gyrfa cynaliadwy i ddawnswyr proffesiynol sydd wedi ymrwymo i ymgysylltu cymunedol. Gellid cydleoli dawns yn ddaearyddol gyda chelfyddydau eraill mewn hybiau arddull cymunedol heb fawr o fuddsoddiad ariannol ychwanegol, gan fod llawer o sefydliadau celfyddydol bach sy'n gweithio ar draws celfyddydau gwahanol eisoes yn gweithio fel hyn (gweler yr astudiaeth achos isod). Gellid ychwanegu dawns i'w portffolio trwy fuddsoddiad bach gan y Cyngor er mwyn creu sefydlogrwydd, gwella cydweithredu, gwella'r broses o rannu adnoddau rhwng artistiaid, a datblygu dosbarthiad tecach o gyfleoedd ar draws Cymru.

Gallai rhaglenni sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau fel People Dancing, creu rhwydwaith o hyfforddiant rhanbarthol a allai rhannu adnoddau ac arbenigedd, a datblygu fforwm ar gyfer cynnal deialog sector-gyfan ynghylch anghenion hyfforddi y gellid ei chymhwyso mewn cyd-destun lleol. Gallai arbenigwyr dawns gysylltu â'u hyb lleol i gael cymorth, a hefyd defnyddio hybiau mewn rhanbarthau eraill o Gymru yn ôl yr angen er mwyn datblygu sgiliau penodol. Byddai hyn yn helpu i adeiladu a chefnogi rhwydwaith cenedlaethol o artistiaid dawns sy'n gweithio mewn cymunedau ar draws Cymru. Gyda chyllid ychwanegol, gallai hybiau cymorth hefyd ddatblygu cyfleoedd i rannu sgiliau rhwng cydweithwyr a chyfleoedd mentora/prentisiaeth, a phroffil ymchwil academaidd ar gyfer dawns a leolir yng Nghymru o bosib. Yn naturiol, byddai'r gymuned ddawns yn croesawu system bwrsariaeth i dalu am gostau teithio.

Byddai'r newidiadau hyn yn helpu i greu ecosystem ddatblygu proffesiynol fwy cynhwysol, ymatebol a chynaliadwy ar gyfer sector dawns Cymru.

Argymhelliad 4: Datblygu rhwydwaith o hybiau cymunedol lle mae celfyddydau wedi'u cydleoli ledled Cymru drwy fanteisio ar y seilwaith sefydliadol presennol. Byddai angen i'r strategaeth wneud y defnydd gorau posibl o'r asedau presennol, gan feithrin cydweithredu traws-sectorol a datblygu trwy'r buddsoddiad ariannol lleiaf posibl, a byddai'n:

- Galluogi cydweithredu ar draws cymunedau a chelfyddydau
- Hwyluso cysylltiadau â rhanddeiliaid addysg, iechyd a busnes
- Defnyddio'r adnoddau a seilwaith presennol er mwyn lleihau'r costau ychwanegol cymaint â phosibl
- Creu rhwydweithiau cefnogaeth integredig heb ddatblygu adnoddau o'r newydd

**Noder:** gallai'r gwaith datblygu gysylltu â'r ymyriadau a awgrymir gan yr adolygiad theatr Saesneg yng Nghymru ar wahân sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd

**Mesur llwyddiant:**

- Datblygu rhwydwaith wedi'i gostio o hybiau cymunedol lle mae celfyddydau wedi'u cydleoli ledled Cymru (y nifer a'r lleoliadau i'w penderfynu gan y panel strategol a awgrymir yn argymhelliad 1)

Gellid awgrymu nifer o sefydliadau celfyddydau cymunedol fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwydwaith – er enghraifft: Rubicon, Theatr Brycheiniog, Celfyddydau Span. Mae'r astudiaeth achos a ddewiswyd isod yn rhoi enghraifft o sefydliad â'i wreiddiau mewn cyd-destun cymunedol yn ne Cymru, sy'n gweithio gyda chelfyddydau wedi'u cydleoli, ac sy'n ymatebol i anghenion ei gymuned gyfagos.

ASTUDIAETH ACHOS O HYB CELFYDDYDAU CYMUNEDOL

YMa, Pontypridd

**https://www.ymaonline.wales/**

Wedi'i rhedeg gan Gymuned Artis, mae YMa wedi rhoi gwedd newydd ar adeilad YMCA Pontypridd, a agorwyd ar stryd fawr dref Pontypridd yn 1910. Mae YMa yn lle mae diwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau'n croestorri â'r gymuned ym Mhontypridd.

1. Canolbwyntio ar Effaith Gymdeithasol: Llywiwyd y sefydliad gan ei ymrwymiad i ddefnyddio creadigrwydd a'r celfyddydau i gael effaith gymdeithasol gadarnhaol ar y gymuned leol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod rhaglennu a gweithgareddau'r cyfleuster yn berthnasol ac yn fuddiol i breswylwyr.
2. Cyd-greu a Chyd-ddylunio: Mae YMa yn cynnwys y gymuned yn weithredol yn y penderfyniadau o ran cyfeiriad a rhaglennu ei ofod perfformio trwy brosesau cyd-greu a chyd-ddylunio. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn a buddsoddiad gan y gymuned.
3. Cwmnïau Celfyddydol Preswyl: Trwy gael cwmni dawns preswyl – cwmni dawns Ransack – mae gan YMa denant angori sy'n gallu helpu i yrru'r broses rhaglennu a gweithgareddau, tra'n elwa o'r seilwaith ac adnoddau a rennir.
4. Rhaglennu Amrywiol: Tu hwnt i'r stiwdio ddawns, mae'r gofodau amrywiol eraill (perfformio, hyfforddi, cyfarfodydd, cymuned ac ati) yn galluogi i YMa gynnig amrywiaeth eang o raglennu celfyddydol, diwylliannol ac sy'n ymateb i'r gymuned, er mwyn diwallu anghenion a diddordebau gwahanol.

Ailadrodd y model ar draws Cymru:

Byddai cynnal yr egwyddorion craidd o ymgysylltu cymunedol a chanolbwyntio ar effaith gymdeithasol, cydleoli celfyddydau ac integreiddio gofodau celfyddydol/diwylliannol amrywiol, a rhaglennu, yn allweddol i'r broses o ailadrodd model YMa ar draws Cymru. Trwy addasu'r model hwn yn ôl anghenion ac asedau unigryw pob cymuned leol, gellid datblygu hybiau celfyddydau cymunedol newydd er mwyn rhoi gwell gymorth i ddawns a'i gwella, ac ymarferion creadigol eraill hefyd.

Gallai'r camau allweddol gynnwys:

1. Adnabod Cyfleusterau Addas: Edrych ar ddefnyddio lleoliadau presennol fel Galeri yng Nghaernarfon, Rubicon yng Nghaerdydd, Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu, Celfyddydau Span yn Sir Benfro, ynghyd â gofodau cymunedol eraill y gellid rhoi gwedd newydd arnynt fel hybiau celfyddydol integredig sy'n cefnogi dawns yn fwy rhagweithiol
2. Ymgysylltu â'r Gymuned Leol: Sefydlu partneriaethau cadarn â phreswylwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol lleol, er mwyn deall eu hanghenion a'u blaenoriaethau. Eu cynnwys yn weithredol yn y broses o gyd-greu a chyd-ddylunio
3. Mabwysiadu Cwmnïau Celfyddydol Preswyl: Recriwtio a chefnogi cydweithrediadau preswyl (dawns, theatr, celfyddydau gweledol ac ati) a all helpu i angori rhaglennu ac ymgysylltu yn y gymuned.
4. Sicrhau Cyllid Cynaliadwy: Canfod a sicrhau ffynonellau cyllid (grantiau, buddsoddi cymunedol, refeniw a enillwyd ac ati) er mwyn sicrhau hyfywedd hirdymor ac effaith pob hyb celfyddydau cymunedol.

Trwy ailadrodd elfennau craidd model Yma, gellid sefydlu hybiau celfyddydol tebyg a yrrwyd gan y gymuned ledled Cymru er mwyn cefnogi artistiaid dawns, darparu hyfforddiant, ymhelaethu ar ymarfer celfyddydau mewn iechyd ac ymarfer cyfranogol ar lawr gwlad.

### 4.3 asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol i Gymru dan arweiniad artistiaid

Mae'r sector dawns annibynnol wedi eirioli'n gyson dros ddosbarthu cyllid dawns yn fwy teg ar gyfer artistiaid sy'n creu gwaith, ynghyd â gwella'r gydnabyddiaeth o anghenion amrywiol y sector. Mae'r galwadau hyn dros ddiwygio yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi a sefydlogi'r diwydiant ar bob lefel, ac nid ei sefydliadau perfformio mwyaf yn unig. Mae'r sefyllfa bresennol yn dangos yn glir y berthynas uniongyrchol rhwng diffyg adnoddau gweinyddol a cheisiadau aflwyddiannus am arian, sy'n awgrymu bod angen diwygio strwythurol cynhwysfawr ar y ffordd caiff mentrau dawns eu hariannu a'u cefnogi.

Argymhelliad 5: Datblygu asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol i Gymru dan arweiniad artistiaid. Wedi'i llywio gan y panel strategol a awgrymwyd yn argymhelliad 1, byddai'r dull o ariannu'r asiantaeth yn dibynnu ar:

- ei lleoliad (petai angen lleoliad corfforol arni)
- ei rôl er mwyn iddi fod yn gorff gwirioneddol Cymru-gyfan
- ei rôl fel eiriolwr dros y sector
- sut y byddai'n cysylltu â'r rhwydwaith presennol o weithwyr llawrydd a hybiau cymunedol
- a yw'n cael ei dylunio fel model cyllid a ddosbarthwyd

**Mesurau llwyddiant:**

Datblygu model asiantaeth briodol i Gymru sy'n:

- croesawu datrysiadau digidol i heriau daearyddol
- integreiddio ystyriaethau dwyieithog a diwylliannol
- adeiladu rhwydweithiau rhanbarthol cryf
- datblygu partneriaethau cynaliadwy
- creu llwybrau cyfranogi hyblyg
- cynnal egwyddorion a arweinir gan artistiaid tra'n addasu i'r cyd-destun lleol

Byddai rhoi model asiantaeth ddatblygu dawns ar waith, wedi'i rhedeg mewn ffordd debyg i'r astudiaeth achos isod - *The Workroom (TWR)* - yn rhoi cefnogaeth i artistiaid dawns er mwyn iddynt ddatblygu eu hymarfer. Gallai asiantaeth ddatblygu dawns genedlaethol dan arweiniad artistiaid hefyd weithio o fewn model cyllid a ddosbarthwyd tebyg i Ffilm Cymru Wales/Tŷ Cerdd. Cafwyd llawer o ymatebion ynghylch lleoliad yr asiantaeth o'r holl fecanweithiau adolygu. Fel y brifddinas, Caerdydd yw'r lleoliad amlwg, ond mynegodd Taliesin yn Abertawe ddiddordeb mewn derbyn y rôl petai'n opsiwn dichonol, a dylid ystyried gogledd Cymru hefyd os caiff lleoliad corfforol ei ystyried yn hanfodol. Byddai angen arian i sefydlu a rhedeg yr asiantaeth fel corff annibynnol, ac arian dosbarthu hefyd, petai'n rhedeg model tebyg i Ffilm Cymru Wales neu Dŷ Cerdd.

ASTUDIAETH ACHOS O ASIANTAETH DDATBLYGU DAWNS DAN ARWEINIAD ARTISTIAID

The Workroom, Glasgow

**https://theworkroom.org.uk/**

Mae *The Work Room (TWR)* yn cynrychioli model arloesol ar gyfer cefnogi artistiaid dawns annibynnol trwy ei strwythur aelodaeth dan arweiniad artistiaid, ei gyfleusterau pwrpasol a'i fframwaith cymorth cynhwysfawr. Mae'r astudiaeth achos hwn yn edrych ar ymagwedd TWR ac yn nodi elfennau allweddol o'i ymarfer gorau y gellid eu haddasu ar gyfer Cymru. Mae strwythur llywodraethu TWR yn cynrychioli ymagwedd soffistigedig at sefydliad dan arweiniad artistiaid sy'n:

1. Grymuso artistiaid fel penderfynwyr
2. Adeiladu capasiti arweinyddiaeth y sector
3. Sicrhau rheoli proffesiynol
4. Cynnal atebolrwydd sefydliadol
5. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sector
6. Creu ymarferion cynaliadwy

Mae'r model yn arbennig am y ffordd mae'n adeiladu capasiti arweinyddiaeth yn y sector dawns tra'n cynnal safonau proffesiynol a datblygu celfyddyd. Mae gan TWR ofod stiwdio a adeiladwyd yn bwrpasol yn Tramway, mae ei ofod swyddfa wedi'i ddarparu trwy bartneriaeth â Glasgow Life, ac mae'n derbyn cyllid rheolaidd gan Creative Scotland. Mae partneriaethau strategol yn lleihau costau gweithredu ac mae ffocws ar orbenion isel er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf posibl i artistiaid. Mae ei fecanweithiau cymorth cynhwysfawr yn cydnabod natur gymhleth gyrfaoedd dawns portffolio, ac mae wedi mabwysiadu ymagwedd gyfannol at gymorth i artistiaid, gan gynnwys:

- Lleoedd preswyl â chymorth ar gyfer ymchwil coreograffig
- Cyfleoedd rhwydweithio
- Rhannu adnoddau creadigol – gofod stiwdio a chynhyrchu, arbenigedd
- Gweithdai datblygu proffesiynol gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth
- Sesiynau cynghorol a chymorth gyrfaol
- Adeiladu capasiti rhyngwladol
- Rhwydwaith gweithgar o artistiaid
- Grŵp Facebook i aelodau ar gyfer cysylltu'n anffurfiol
- Cylchlythyron misol
- Proffiliau aelod ar-lein
- Cyfarfodydd cymunedol rheolaidd

Mae hefyd yn gweithio fel eiriolwr dawns ar draws y sector:

- Cefnogi arloesedd artistig
- Ymgysylltu cymunedol
- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Newid cymdeithasol trwy'r celfyddydau

DEFNYDDIO YNG NGHYMRU

Gellid addasu model TWR yn llwyddiannus ar gyfer Cymru trwy:

1. Integreiddio ystyriaethau dwyieithog a diwylliannol
2. Adeiladu rhwydweithiau rhanbarthol cryf
3. Datblygu partneriaethau cynaliadwy
4. Creu llwybrau cyfranogi hyblyg
5. Cynnal egwyddorion a arweinir gan artistiaid tra'n addasu i'r cyd-destun lleol

## 4.4 datblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy ddawns

Gall prosiectau dawns hyrwyddo diwylliant Cymru, ac mae eisoes enghreifftiau o ymarfer gorau ledled Cymru, gan gynnwys Ballet Cymru yn adlewyrchu treftadaeth Cymru yn ei gynyrchiadau, a CDCCymru yn rhaglennu coreograffydd o Gymru yn 2025 sy'n adnabyddus am ddathlu ei etifeddiaeth Gymreig. Mae mentrau tra lleol yn helpu i ddatblygu cydlyniant cymunedol a bydd prosiectau a grëwyd ar y cyd â chymunedau, sydd wedi'u hymwreiddio mewn model cymdeithasol, yn helpu i ddemocrateiddio'r celfyddydau.

Mae llwyddiant strategaeth grynodol *Prosiect Wyth* (Mair, 2024) yn dibynnu ar sicrhau cyllid cynaliadwy i'w datblygu yn y dyfodol, gan gyflawni cydnabyddiaeth broffesiynol o ddawns werin a chlocsio tra'n cynnal perchnogaeth gymunedol a sicrhau rhagoriaeth artistig. Yn hollbwysig, rhaid i'r ymdrechion hyn lywio'r cydbwysedd bregus rhwng cynnal treftadaeth ddiwylliannol a chroesawu arloesi. Mae'r adolygiad hwn yn argymell cynnwys argymhellion yr adroddiad yn unrhyw strategaeth ddawns yn y dyfodol. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect wedi'u pennu eto, ond byddai angen cyllid parhaus arno.

Argymhelliad 6: Canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy weithgareddau'n gysylltiedig â dawns er mwyn ymwreiddio iaith a diwylliant mewn ymyriadau priodol. Dylai mentrau anelu bob amser at gefnogi a dathlu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'r Gymraeg, wrth leoli gwaith yn bendant mewn cyd-destunau cymunedol. Mae'n hollbwysig bod mentrau celfyddydol sydd â chysylltiad i'r Gymraeg a threftadaeth Cymru yn cael eu cefnogi gan gyllid celfyddydol.

**Mesurau llwyddiant:**

- Y Gymraeg wedi'i hymwreiddio yn y gwaith o gyflawni dawns trwy brosiectau addas
- Diwylliant Cymru wedi'i ymwreiddio ym mhrosiectau a chomisiynau dawns

ADEILADU DYFODOL DAWNS WERIN (Mair, 2024)

Astudiaeth Achos

Llwybrau Datblygu Proffesiynol a Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol

Llwybrau Datblygu Proffesiynol:

**1. Datblygu lefel mynediad**

Llwybr ieuenctid (16-25)

- Ymestyn model *Twmpdaith* i redeg trwy'r flwyddyn gyfan
  - Cyrsiau dwys tymhorol
  - Cyfres o weithdai rheolaidd
  - Cyfleoedd mentora
  - Cyfleoedd perfformio
- Creu rhaglenni llysgenhadon ieuenctid
- Datblygu modiwlau hyfforddiant arweinyddiaeth
- Darparu hyfforddiant technegol mewn dawns ac mewn cynhyrchu

Cymorth Gyrfa Gynnar

- Rhaglenni prentisiaeth gydag ymarferwyr sefydledig
- Cyfleoedd cysgodi mewn gwyliau a digwyddiadau
- Hyfforddiant sgiliau busnes sylfaenol
- Hyfforddiant cyfryngau digidol a hyrwyddo
- Profiad o reoli digwyddiadau

**2. Datblygu Proffesiynol canolig**

Gwelliant technegol

- Dosbarthiadau meistr gydag ymarferwyr rhyngwladol
- Rhaglenni cyfnewid traws-ddiwylliannol
- Gweithdai coreograffeg uwch
- Gweithdai cerddoriaeth a rhythm
- Hyfforddiant methodoleg addysgu

Datblygu creadigol

- Cyfleoedd comisiynu
- Cyllid prosiectau ar y cyd
- Grantiau ymchwil a datblygu
- Cymorth i waith arbrofol
- Hyfforddiant creu cynnwys digidol

### 3. Uwch Lwybrau Proffesiynol

Rolau Arbenigol

- Arbenigwyr nodiant dawns draddodiadol
- Ymgynghorwyr treftadaeth ddiwylliannol
- Rhaglenwyr gwyliau
- Cydgysylltwyr allgymorth cymunedol
- Datblygwyr rhaglenni addysgiadol

Datblygu arweinyddiaeth

- Hyfforddiant rheoli celfyddydau
- Gweithdai ymgeisio am gyllid
- Sgiliau cynllunio strategol
- Hyfforddiant eirioli
- Datblygu rhwydwaith

### 4. Llwybrau Addysgu

Fframwaith cymwysterau

- Datblygu tystysgrifau addysgu
- Creu meini prawf asesu
- Sefydlu safonau ansawdd
- Llunio datblygu proffesiynol parhaus

Arbenigeddau

- Addysgu ieuenctid
- Ymarfer cymunedol
- Hyfforddiant proffesiynol
- Ymarfer cynhwysol
- Cadw treftadaeth

## 4.5 dawns mewn ysgolion

I osod sylfaen gadarn i'r dyfodol, dylai maes llafur y TGAU dawns newydd gynnwys gwaith nifer o goreograffwyr a leolir yng Nghymru. Gallai diwygio cymwysterau TGAU a lefel U helpu i greu sylfaeni cryfach i fyfyrwyr sy'n ystyried addysg dawns ar lefel uwch, a chefnogi'r nod mwy eang o ddatblygu ymagwedd at hyfforddiant dawns sy'n amlwg o Gymru.

Mae angen rhoi cymorth i athrawon ac artistiaid dawns drwy gynhyrchu adnoddau Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn iddynt ddiwallu deilliannau dysgu. Gallai'r rhain fod yn drawsgwricwlaidd, gan fod dawns yn cyseinio â nifer o feysydd pwnc. Soniodd yr Urdd yn gadarnhaol am chwarae rhan bosibl yn y gwaith o ddatblygu adnoddau dawns. Gellid ystyried ariannu'r gwaith hwn yn llawn gan Gronfa Dysgu Creadigol y Cyngor a/neu'r Adran Addysg.

Argymhelliad 7: Datblygu adnoddau Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi dawns yn y cwricwlwm. Cynnwys coreograffeg a chwmnïau o Gymru ym maes llafur y TGAU dawns newydd.

**Mesur llwyddiant:**

- Adnoddau wedi'u hymwreiddio yng nghwricwlwm y TGAU dawns newydd

## 4.6 prosesau ymgeisio am gyllid

Codwyd pryderon difrifol ynghylch diffyg system gyllido deg dro ar ôl tro yn ystod yr adolygiad. Byddai creu mwy o fecanweithiau ariannu tryloyw a hygyrch sy'n cefnogi'n weithredol artistiaid ar y cyrion ac unigolion llawrydd nad oes ganddynt fawr o gymorth gweinyddol, os o gwbl, i'w groesawu. Dylai hyn gynnwys symleiddio'r prosesau ymgeisio a datblygu dulliau gwerthuso Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad mwy cyfannol sy'n mynd tu hwnt i fesurau traddodiadol.

Argymhelliad 8: Cynnig dull cyllido haenog gan y Cyngor sy'n symleiddio'r broses ymgeisio i gwmnïau llai ac artistiaid annibynnol. Dylid defnyddio'r system hon wedi'i symleiddio ar gyfer ceisiadau i'r Adolygiad Buddsoddi, ceisiadau Loteri a cheisiadau i ffrydiau cyllid eraill.

**Mesur llwyddiant:**

- Y broses ymgeisio wedi'i symleiddio i'r rhai nad ydynt yn rhan o'r portffolio cyllido aml-flwyddyn, gan gyfeirio'n uniongyrchol at gapasiti/maint y sefydliad/artist – h.y. y gefnogaeth weinyddol sydd ar gael, yr amser sydd ei angen i gwblhau'r broses ymgeisio os na dderbynnir tâl amdano

# TYMOR HIRACH: 3+ blwyddyn

Mae ymyriadau strategol tymor hirach yn cynnig cyfleoedd hollbwysig i feithrin cymuned gynaliadwy o artistiaid dawns yng Nghymru. Eto, byddai rhai ymyriadau'n heriol yn ariannol, a bydd angen arnynt gyllid ychwanegol – naill ai o gyllideb ehangach y Cyngor/cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru/ffynhonnell arall, neu drwy ymagwedd ymyraethol, gan ail-ddosbarthu rhywfaint o gyllid dawns presennol y Cyngor, neu gyllideb refeniw arall, yn y cylch cyllido nesaf.

Trwy ganolbwyntio ar addysg dawns ar lefel cyn-broffesiynol a lefel ôl-hyfforddiant, gall y sector ddatblygu ymagwedd gynhwysfawr at baratoi dawnswyr ifanc ar gyfer gyrfaoedd proffesiynol. Gallai model hyfforddiant ôl-radd galwedigaethol targededig fod yn gatalydd i adeiladu ecosystem ddawns ffyniannus a chydgysylltiedig yng Nghymru, a byddai rhaglen Artistiaid Preswyl ledled Cymru yn datblygu ymarfer nifer o artistiaid dros amser.

## 4.7 datblygu model artist preswyl

O dderbyn ariannol priodol, roedd nifer o leoliadau ledled Cymru'n gadarnhaol am fod yn rhan o fodel artist dawns preswyl a allai gylchdroi'n flynyddol neu bob yn ail flwyddyn. Byddai cynllun yn gweithio'n debyg i unrhyw fodel Artist Preswyl – yn ogystal â galluogi artist dawns i ddatblygu ei ymarfer dros gyfnod estynedig (gellid rhannu'r rôl rhwng dau artist dawns hefyd), byddai'r lleoliad yn darparu seilwaith cynorthwyol – er enghraifft, mentora ym meysydd arweinyddiaeth, marchnata, codi arian a chynhyrchu. Gall yr artist/artistiaid preswyl gefnogi artistiaid dawns eraill sy'n gweithio'n lleol a gweithredu fel pwynt cyswllt a chymorth ar gyfer unrhyw gynnyrch teithiol sy'n dod i'r ardal. Byddai hefyd yn ofynnol i'r artist/artistiaid dawns preswyl adeiladu capasiti mewn cymunedau lleol, gan gysylltu â'r rhwydwaith o hybiau a gydleolir a'r model asiantaeth ddatblygu dawns fel sy'n briodol.

**Argymhelliad 9:** Datblygu model artist dawns preswyl mewn 5 canolfan yng Nghymru, am gyfnod o 2 flwyddyn ar y mwyaf ym mhob lleoliad. Amcangyfrifir costau o £70,000 - £100,000 y flwyddyn ar gyfer pob lleoliad. Byddai hyn yn talu cyflog 1 neu 2 artist yn llawn neu'n rhannol, ac yn talu costau hefyd. Gallai gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau a rhanddeiliaid eraill helpu i wireddu ffrydiau cyllid amgen.

**Mesur llwyddiant:**

- Sefydlu 5 rhaglen artist dawns preswyl ar draws Cymru ar sail rhaglen dreigl

Gallai datblygu rhwydwaith o bum artist dawns preswyl ledled Cymru gychwyn y broses o ymestyn cyrhaeddiad ac ailadeiladu capasiti cynulleidfa o'r llawr i fyny. Byddant yn weledol mewn cymunedau ac yn cefnogi nifer o artistiaid dawns yn eu hardaloedd. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut allai model weithio yng Nghymru.

ASTUDIAETH ACHOS O RAGLEN ARTIST PRESWYL

Theatr Genedlaethol yr Alban: Grymuso Lleisiau Artistig Amrywiol

**https://www.nationaltheatrescotland.com/for-artists/residencies**

### Cefndir

Mae Theatr Genedlaethol yr Alban wedi datblygu ymagwedd unigryw at artistiaid preswyl sy'n canolbwyntio ar chwyddo lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol a meithrin prosesau creu artistig arloesol. Fel cwmni theatr genedlaethol yr Alban, mae'r Theatr wedi ymrwymo i genhadaeth sy'n mynd tu hwnt i gynhyrchu theatr draddodiadol, gan ganolbwyntio ar syniadau wedi'u harwain gan artistiaid a all cyseinio â chynulleidfaoedd amrywiol.

Adeiladwyd rhaglen artistiaid preswyl y Theatr ar dair blaenoriaeth graidd:

1. Arloesi wedi'i yrru gan artistiaid: mae'r sefydliad yn blaenoriaethu syniadau artistiaid. Credant mai creadigrwydd gwirioneddol wedi'i wreiddio yn y gymuned sy'n arwain at y canlyniadau a gaiff yr effaith fwyaf
2. Cynhwysiant cynulleidfaol: nod rhaglenni preswyl yw datblygu gwaith sy'n cysylltu â'r cynulleidfaoedd mwyaf eang a mwyaf amrywiol ledled yr Alban, ac yn rhyngwladol o bosib
3. Cynrychioli cynulleidfaoedd: mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n fwriadol ar gefnogi artistiaid nad yw'r diwydiant theatr traddodiadol wedi gwasanaethu eu lleisiau, eu straeon a'u cymunedau'n ddigonol yn hanesyddol

Mae rhaglen artistiaid preswyl Theatr Genedlaethol yr Alban yn dangos ymrwymiad i:

- Feithrin talent sy'n dod i'r amlwg
- Cefnogi ymarferion artistig rhyngddisgyblaethol
- Chwyddo lleisiau ar y cyrion
- Creu celf sy'n adlewyrchu tirwedd ddiwylliannol amrywiol yr Alban

Mae Chinyanta Kabaso, artist dawns sy'n arbenigo mewn dawns Affricanaidd a dawns bobl alltud Affricanaidd o Ynysoedd y Caribï, yn enghraifft o botensial trawsnewidiol rhaglen y Theatr.

Amcanion ei rhaglen breswyl

- Archwilio'r berthynas â dawns Affricanaidd
- Holi ymarferion artistig personol
- Cysylltu â chymunedau lleol
- Creu gwaith perfformio rhyngddisgyblaethol

Canlyniadau ei rhaglen breswyl

- Archwilio artistig: Archwiliodd Kabaso ei hymarfer dawns yn feirniadol o safbwynt academaidd
- Datblygu cydweithredol: Ymgysylltodd Kabaso ag artistiaid eraill, gan gynnwys gwneuthurwr ffilmiau dogfen, i ehangu ar ei hymagwedd greadigol
- Ymgysylltu cymunedol: Trwy'r rhaglen breswyl, bu'n cyfweld â chymunedau lleol ac yn rhannu ei gwaith
- Perfformiad terfynol: Cynhyrchodd Kabaso berfformiad traws-gelfyddydol a ddangosodd ei hymchwil a'i thwf artistig.

Prif bethau i'w hystyried

- Rhoddir adnoddau a rhyddid i artistiaid er mwyn iddynt archwilio a chyd-greu
- Mae rhaglenni preswyl yn ymwneud â chynhyrchu, a datblygu artistig hefyd
- Mae'r rhaglen yn blaenoriaethu syniadau dros ganlyniadau a bennwyd ymlaen llaw
- Mae pwyslais cryf ar gynrychiolaeth a chysylltu cymunedau

## 4.8 dawns mewn addysg bellach / addysg uwch

Gan edrych i ddyfodol addysg dawns yng Nghymru, mae rhanddeiliaid yn rhagweld llwybr a fydd yn wahanol i'r rhaglenni gradd ac ôl-radd a geir mewn mannau eraill. Yn hytrach, maent yn gweld cyfle i sefydlu ymagwedd unigryw o Gymru at hyfforddiant dawns. Mae rhaglen arbenigol a fyddai'n magu dawnswyr â gwreiddiau dwfn yn nhraddodiadau diwylliannol Cymru, ac yn rhoi iddynt y sgiliau i ffynnu fel coreograffwyr, athrawon, ymarferwyr cymunedol a pherfformwyr, wrth galon y weledigaeth hon. Ni fyddai angen lleoli'r model mewn un man o reidrwydd; yn hytrach gallai symud o amgylch Cymru yn ôl y gofyn. Byddai'r rhaglen ar lefel ôl-radd ac yn blaenoriaethu twf artistig gan gryfhau cysylltiadau rhwng dawnswyr a chymunedau ar draws y wlad. Gallai Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fod yn gartref naturiol i hyfforddiant dawns galwedigaethol, ac mae'r sefydliad hwnnw wedi mynegi diddordeb mewn datblygu cwrs MA neu MFA yn y dyfodol. Ond gallai'r model weithio'n hybrid, gan symud myfyrwyr i'r diwydiant ledled Cymru, er mwyn iddo fod yn gwbl ymatebol i anghenion pob unigolyn.

Argymhelliad 10: Ymchwilio i botensial model hyfforddiant dawns ôl-radd ar y cyd â phartner(iaid) priodol.

**Mesur llwyddiant:**

- Sefydliadau Addysg Uwch addas sy'n canolbwyntio ar gyrsiau galwedigaethol i ystyried cynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb ar hyfywedd cynnal rhaglen MA/MFA ôl-raddedig ac aml-lwybr sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, ar y cyd â phartneriaid addas

Mae'n amlwg bod dawnswyr ifanc o Gymru dan anfantais pan fyddant yn mynd i glyweliadau ar gyfer hyfforddiant pellach. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch gwanhau ansawdd dosbarthiadau dawns. Yn Lloegr, mae Canolfannau Hyfforddiant Uwch yn rhoi hyfforddiant dawns arbenigol i bobl ifanc, ac yn eu paratoi ar gyfer gyrfaoedd mewn dawns. Cynigiant hyfforddiant mewn arddulliau amrywiol, gan gynnwys dawns gyfoes, ballet, dawnsiau stryd, De Asiaidd a syrcas. Caiff y rhaglenni eu hariannu gan yr Adran Addysg yn Lloegr, a chaiff grantiau eu dyfarnu i fyfyrwyr cymwys, yn seiliedig ar incwm y teulu. Awgrymir y byddai cynllun Canolfannau tebyg yng Nghymru yn paratoi dawnswyr ar gyfer hyfforddiant pellach ac yn rhoi profiad iddynt o arddulliau dawns amrywiol a hyfforddiant technegau ar y lefel uchaf sydd ar gael. Os na fydd datblygu model pwrpasol i Gymru yn bosibl, efallai y gallai'r Adrannau Addysg yng Nghymru a Lloegr gydweithredu i neilltuo lleoedd ar gynllun yn Lloegr ar gyfer artistiaid uchelgeisiol a leolir yng Nghymru.

Argymhelliad 11: Datblygu model cynllun Canolfannau Hyfforddiant Uwch gyda lleoliadau yn y gogledd a'r de – neu – negodi â rhwydwaith cynllun Canolfannau Hyfforddiant Uwch Lloegr i neilltuo lleoedd ar gyfer dawnswyr a leolir yng Nghymru yn y lleoliad agosaf i'w cartrefi.

**Mesur llwyddiant:**

- Mynediad gwell i hyfforddiant lefel uchel ar draws ystod o genres dawns ar gyfer dawnswyr ifanc sy'n gobeithio mynd ymlaen at hyfforddiant dawns proffesiynol

# MESURAU LLWYDDIANT Y SECTOR DAWNS YN GYFFREDINOL

- Dosbarthu cyllid dawns yn deg ar draws Cymru

Yn ddelfrydol, byddai dosbarthu cyllid refeniw yn fwy teg ar draws Cymru yn creu mwy o gleientiaid refeniw ar draws y wlad. Byddai cerrig milltir datblygu seilwaith yn mesur effaith yn y maes hwn.

- Datblygu seilwaith

Os caiff holl argymhellion yr adolygiad eu rhoi ar waith, byddai datblygiadau seilwaith yn cael eu cyflawni'n gynyddol yn ôl cerrig milltir allweddol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, rhaid dylunio'r holl fodelau seilwaith i gydweithredu'n ddi-dor yn hytrach na chroesi ffiniau modelau cyflawni ei gilydd, gan weithio gydag unrhyw ddatblygiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ar draws y sector perfformio cyfan, ac adeiladu arnynt. Byddai angen cysylltu mecanweithiau rhwng y rhaglen artistiaid preswyl, yr asiantaeth ddatblygu genedlaethol a'r rhwydwaith hybiau cymunedol i weithio mewn cytgord er mwyn troi'r ecosystem yn wirioneddol Cymru-gyfan. Heb y broses integreiddio hon, byddai risg o sefydlu systemau costus, wedi'u hynysu, sy'n gweithredu fel unedau ar wahân.

- Cyfraddau cadw dawnswyr proffesiynol

Byddai gweld llai o dalent yn mynd o Gymru, a dawnswyr yn dewis dychwelyd i Gymru ar ôl hyfforddi, yn dystiolaeth o lwyddiant. Byddai cael cymuned o ddawnswyr llawrydd sy'n ffynnu cymaint bod nifer y cyfleoedd i artistiaid berfformio yng Nghymru yn codi, gan olygu na fyddai rhaid iddynt adleoli tu allan i Gymru i gael gyrfa foddhaus, yn dystiolaeth bellach o lwyddiant.

- Lefelau ymgysylltu cymunedol

Byddai lefelau ymgysylltu cymunedol sy'n parhau'n gryf ac yn tyfu ledled Cymru'n dystiolaeth o hyn.

- Cyfradd ddilyniant gyrfa

Mae bwlch parhaus yn yr 'ysgol gyfleoedd' yn atal dawnswyr profiadol rhag bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd. Byddai dathlu profiad a gwybodaeth artistiaid sydd yng nghanol eu gyrfaoedd, gyda phob artist yn gallu datblygu eu hymarfer a bwrw ymlaen â'u gyrfaoedd, yn hytrach na gorfod mynd yn ôl i'r dechrau o hyd oherwydd cyfyngiadau ar gyllid yn seiliedig ar brosiect, yn dystiolaeth o lwyddiant.

- Lefelau datblygu cynulleidfa

Datblygu cerrig milltir dros gyfnod cyson o amser yn dilyn mentrau penodol sy'n codi o argymhellion yr adolygiad. Gwella cyfleoedd perfformio tu hwnt i'r lleoliadau traddodiadol.

DIWEDD YR ADRODDIAD

© Karen Pimbley. 06.12.24

# Cyfeiriadau


Celfyddydau Cymru. (2023). *Diweddariad Cyngor Celfyddydau Cymru – Ymyriadau Strategol Dawns | Cyngor Celfyddydau Cymru* [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/diweddariad-cyngor-celfyddydau-cymru-ymyriadau-strategol-dawns

Celfyddydau Cymru. (2024). £3.6m miliwn am wytnwch a swyddi yn sector celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/ps36-miliwn-am-wytnwch-swyddi-yn-sector-celfyddydau-cymru

Deyton Bell (2024). *Adroddiad Effaith Economaidd: Adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru*. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/ymchwil/adroddiad-effaith-economaidd

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). *Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. [ar-lein] www.futuregenerations.wales/cym. Ar gael yn: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/ymchwil/adroddiad-effaith-economaidd.

Futuregenerations.wales/cym (2020). Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am gynllun peilot Incwm Sylfaenol i weithwyr creadigol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/news/future-generations-commissioner-calls-for-a-universal-basic-income-pilot-for-creatives/

LLYW.CYM. (2024). *Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-y-blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030-html.

Light, D. (2020). *Adroddiad Dawns yng Nghymru*. Cymru: Tasglu Llawrydd Cymru.

Mair, R. (2024). *Adroddiad Prosiect Wyth*. Cymru: anhysbys.

Rhys, Dafydd. (2024). Sgyrsiau un-i-un: staff y Cyngor a Karen Pimbley, 4 Tachwedd 2024.

Somerset, A. (2024). *Review of Governance of Arts Organisations from the theatre dance and drama in Wales web site.* [ar-lein] Theatre-wales.co.uk. Ar gael yn: http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=5342

Stenton, C. (2024). Cyfweliad â Phrif Weithredwr People Dancing. 7 Hydref


# Atodiad 1

## Gwaith ymchwil desg

**Celfyddydau Cymru** (dim dyddiad). *Y chwe egwyddor | Cyngor Celfyddydau Cymru*. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/y-chwe-egwyddor.

**Celfyddydau Cymru (2018).** Ystadegau Portffolio Celfyddydol Cymru - Dawns _2017-18. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/sites/default/files/2019-06/Dance.pdf

**Celfyddydau Cymru. (2018).** Y Celfyddydau ac Iechyd yn Nghymru, Astudiaeth mapio'r gweithgarwch presennol Cyfrol 1: Dadansoddiad, canfyddiadau a chynigion. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/node/429

**Celfyddydau Cymru (2020).** Ymateb y Cyngor i Adroddiad Dawns yng Nghymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/arts-council-wales-response-wales-freelance-task-forces-dance-wales-report-amended

**Celfyddydau Cymru (2022).** Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/widening-engagement-action-plan-2022-25

**Celfyddydau Cymru (2023a).** Adolygiad Buddsoddi 2023 Adroddiad a Phenderfyniadau | Cyngor Celfyddydau Cymru. [ar-lein]. Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/investment-review-2023-report-and-decisions

**Celfyddydau Cymru (2023b).** Rheoli proses amhleidiol a thryloyw. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/managing-impartial-and-transparent-process

**Celfyddydau Cymru (2023c).** Cymorth Pontio i Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru

(Portffolio Celfyddydol Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/transition-support-for-arts-portfolio-wales-organisations

**Celfyddydau Cymru. (2023d).** Diweddariad Cyngor Celfyddydau Cymru – Ymyriadau Strategol Dawns| Cyngor Celfyddydau Cymru [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/diweddariad-cyngor-celfyddydau-cymru-ymyriadau-strategol-dawns

**Celfyddydau Cymru. (2024).** £3.6m miliwn am wytnwch a swyddi yn sector celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/ps36-miliwn-am-wytnwch-swyddi-yn-sector-celfyddydau-cymru

**Celfyddydau Cymru (2024b**). Adolygiad Buddsoddi 2023 Adroddiad a Phenderfyniadau Atodiad A. | Cyngor Celfyddydau Cymru [ar-lein] Ar gael yn: Adolygiad Buddsoddi 2023_Atodiad A

**Celfyddydau Cymru (2024c).** *Cronfa Amddiffyn Swyddi a Magu Gwytnwch Tachwedd 2024| Cyngor Celfyddydau Cymru*. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/cy/resources/jobs-resilience-fund-november-2024

**Ashton, H., Brownlee, D., Gamble, J. a Stavrou, Dr M**. (2024). The State of the Arts | Campaign for the Arts. [ar-lein] https://www.campaignforthearts.org/reports/the-state-of-the-arts/. Ar gael yn: https://www.campaignforthearts.org/reports/the-state-of-the-arts/ .

**Baybutt, A. (2023).** Equity in Working Conditions in Dance. [ar-lein] Ednetwork.eu. Ar gael yn: https://www.ednetwork.eu/news/publication-edn-2023

**Brown, T. (2023).** Rubicon Dance: Wales Wide Training Programme-Supporting the Freelance Dance Practitioner Workforce. https://www.rubicondance.co.uk/wales-wide-training-programme-short-review-2013-2022

**Burns, S. a Harrison, S. (2009).** Dance Mapping Executive Summary a Window on Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Dance_mapping_Exec_summary.pdf

**Campbell, P., Durrer, V. a McGrath, A. (2022).** Dance Counts Report 2022 - Dance Ireland. [ar-lein] Danceireland.ie. Ar gael yn: https://www.danceireland.ie/dance-counts/report/

**Communitydance.org.uk. (2019a).** People Dancing: Miliwn o Ddawnswyr Cymraeg: A million Welsh dancers :: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/miliwn-o-ddawnswyr-cymraeg-a-million-welsh-dancers

**Communitydance.org.uk. (2019b).** People Dancing: Response-Relationship-Engagement-Dance: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/response-relationship-engagement-dance

**Communitydance.org.uk. (2020).** People Dancing: Valleys dancing: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/valleys-dancing

**Communitydance.org.uk. (2021).** People Dancing: Creative practice reflection: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/creative-practice-reflection

**Communitydance.org.uk. (2022a).** People Dancing: 11 Million Reasons to Dance: Cymru: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/11-million-reasons-to-dance-cymru

**Communitydance.org.uk. (2022b).** People Dancing: Forging communities: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/forging-communities

**Communitydance.org.uk. (2023a).** People Dancing: From source to sea: a journey of flow: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/from-source-to-sea-a-journey-of-flow

**Communitydance.org.uk. (2023b).** People Dancing: Rep and reputation: Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/rep-and-reputation

**Communitydance.org.uk. (2024).** People Dancing: Wyth (Eight): Foundation for Community Dance. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.communitydance.org.uk/DB/animated-library/wyth-eight

**Courtney Consulting (2020).** South Asian Dance & Music Mapping Study. [ar-lein] Arts Council England. Ar gael yn: https://www.artscouncil.org.uk/south-asian-dance-music-mapping-study

**DansBrabant (2024**). OPEN LETTER: 'A vision for the dance field is needed now' - Dans Brabant. [ar-lein] Dans Brabant. Ar gael yn: https://www.dansbrabant.nl/en/news-2/open-letter-a-vision-for-the-dance-field-is-needed-now/

**Dance Ireland.** (n.d) *Dance Ireland – Developing Dance in Ireland* [ar-lein] Ar gael yn: https://www.danceireland.ie/

**Deyton Bell (2024).** Adroddiad Effaith Economaidd Adroddiad ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://arts.wales/sites/default/files/2024-11/ACW_Economic_Report_CymTerfynol_NEW_0.pdf

**European Dance House Network (2023).** Trawsgrifiad o gynhadledd. In: Creating Equitable Spaces in Contemporary Dance.

**European dance House Network (2022).** EDN Releases the Publication. [ar-lein] www.ednetwork.eu. Ar gael yn: https://www.ednetwork.eu/news/edn-publication-2022

**European Dance Network (2021).** Fit for the Future: Dance & Well-Being. https://www.ednetwork.eu/news/edn-publications-2021

**Ferguson, B. (2024).** The arts organisations facing closure threat amid 'devastating' Creative Scotland funding cuts. [ar-lein] The Scotsman. Ar gael yn: https://www.scotsman.com/arts-and-culture/creative-scotland-funding-scottish-government-4760009

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015).** *Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. [ar-lein] www.futuregenerations.wales/cym. Ar gael yn: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/ymchwil/adroddiad-effaith-economaidd

**Futuregenerations.wales. (2020).** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am gynllun peilot Incwm Sylfaenol i weithwyr creadigol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/news/future-generations-commissioner-calls-for-a-universal-basic-income-pilot-for-creatives/

**Gardner, L. (2024).** Making a living: how should theatre artists be paid? [ar-lein] The Stage. Ar gael yn: https://www.thestage.co.uk/long-reads/making-a-living-how-should-theatre-artists-be-paid

**LLYW.CYM. (2024).** Ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030 [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-y-blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030-html

**ISTD (2024).** Dance for all - y Gymdeithas Ymerodrol o Athrawon Dawns. [ar-lein] Istd.org. Ar gael yn: https://www.istd.org/discover/dance-for-all/

**Light, D. (2020).** Adroddiad Dawns yng Nghymru. Cymru: Tasglu Llawrydd Cymru.

**Luckhurst, G. (2024).** Arts Council of Wales receives £1.5m funding boost following December cuts, culture secretary Jane Hutt announces. [ar-lein] The Stage. Ar gael yn: https://www.thestage.co.uk/news/arts-council-of-wales-receives-15m-funding-boost-following-december-cuts-culture-secretary-jane-hutt-senedd-acw-chief-executive-dafydd-rhys

**Macauley, M. (2018).** Live to Digital in the Arts report. [ar-lein] Arts Council England. Ar gael yn: https://www.artscouncil.org.uk/live-digital-arts-report

**Mair, R. (2024).** Adroddiad Prosiect Wyth. Cymru

**Murphy, Y. (2016).** Open Space Report.

**Murphy, Y. (2023).** A New Era for the Arts: What is it We want? - Wales Arts Review. [ar-lein] Wales Arts Review -. Ar gael yn: https://www.walesartsreview.org/a-new-era-for-the-arts-what-is-it-we-want/#google_vignette

**Organise.network. (2024).** Llythyr Agored i Gyngor Celfyddydau Cymru ynghylch yr Adolygiad Buddsoddi a'i effaith ar y sector Dawns. [ar-lein] Ar gael yn: https://organise.network/actions/petition-open-letter-to-arts-council-of--xTAyzyQf

**Somerset, A. (2024).** Review of Governance of Arts Organisations from the theatre dance and drama in Wales web site. [ar-lein] Theatre-wales.co.uk. Ar gael yn: http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=5342

**Sport and Recreation Alliance (2024).** The Social Value of Movement and Dance. [ar-lein] Sportandrecreation.org.uk. Ar gael yn: https://sportandrecreation.org.uk/campaigns-and-policy/campaigns-and-influencing/social-value-of-movement-and-dance

**Street, S. (2023).** Freelancers need a support system – and it's time the sector provided one. [ar-lein] The Stage. Ar gael yn: https://www.thestage.co.uk/opinion/freelancers-need-a-support-system--and-its-time-the-sector-provided-one

**Sydney Dance Company (2022).** 2022 Impact Report. [ar-lein] Issuu. Ar gael yn: https://issuu.com/sydneydancecompany/docs/sdc_impact_report_2022

**Williams, S. (2024).** In 2017, Cardiff's music scene was collapsing. What's the secret of its amazing revival? [ar-lein] the Guardian. Ar gael yn: https://www.theguardian.com/music/2024/oct/01/cardiff-music-scene-revival-welsh

**Winship, L. (2025).** 'People get addicted to it': the new London venue at the forefront of the great dance revival [ar-lein] the Guardian. Ar gael yn: https://www.theguardian.com/stage/2025/jan/03/sadlers-wells-east-dance-venue-mette-ingvartsen-skatepark-our-mighty-groove

# Atodiad 2

## Cyfarfodydd un-i-un

Acaron, Dr Thania - The Body Hotel

Angharad, Jên – Cymuned Artis

Cyngor Celfyddydau Cymru

Ballet Cymru

Baxter, Aisling

Boost, Tommy

Briton, Jesse – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Campbell-Moore, Roy

Chappell, Richard – Dawns Richard Chappell

Aelodau o leoliad Creu Cymru

Davis, James & Philpott, Zoe – Canolfan Mileniwm Cymru

Defis, Nerys – Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Doyle-Roberts, Bridie - Agent for Change

Edwards, Sioned - Eisteddfod

Eldridge, Paula - Lindyhop

Ellis, Louis

Emberton, Gwyn - Jones y Dawns

Evans, Emma – Canolfan Mileniwm Cymru

Evans, Margaret - Eleni

Evans-Ford, Liam - Theatr Clwyd

Gough, Matthew – Prifysgol De Cymru

Halfhide, Yvette

Hallam, Emma - Dawns Motion Control

Harrop, Dr Angharad

Jenkins, Jamie - Coleg Cambria

Jo, Zosia - Joon Dance

Jones, Eleri - Theatr Brycheiniog

King, Marla

King, Penny – Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Ladd, Eddie

Lawrence, Kate

Leslie, Struan – Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Light, Deborah

Maddocks, Llio - Urdd

Miles-Payne, Louise - Creu Cymru

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Nicholson, Jodi

Patterson, Lauren - Jukebox Collective

Pedley, Rachel - Avant Cymru

Philp, Jack – Dawns Jack Philp

Prosser, Louise – Dawns Afon

Ramamoorthy, Krisnapriya – Celfyddydau Paallam

Ricketts, Chris – Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Roberts, Kama

Roberts, Marc – Ymgynghoriad Rhos

Roberts, Wynne – Y Neuadd Les, Ystradgynlais

Rubicon Dance

Rogers, Sarah – Dawns Ransack

Sholem, Ann

Sinnadurai, Katy – Ballet Gŵyl Aberhonddu

Sirina, Anya - The Workroom, Glasgow

Stables, Lottie - Equity (Canwyr a Dawnswyr)

Stenton, Chris - People Dancing

Steward, Stirling

Wallace, Liam

Warrington-Morrow, Craig - Taliesin

Weedon, Helen – Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Dawns)

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Whitehead, Simon

Wilson, David – Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Wilson, Heidi – Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Young, Catherine - Dawns i Bawb

Zandersona, Gundija - Kokoro Arts

## ymweliadau addysgol:

Cystadlaethau Dawns Cymru/UDO, Weston-super-Mare | 3 Tachwedd

Ysgol Gynradd Greenmeadow, Cwmbrân – sesiwn dawns Drama Queens | 10 Hydref

Dosbarth a chyfweliad gyda dawnswyr cysylltiedig CDCCymru | 13 Hydref

Ymarferion a chyfweliad gydag ensemble Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru | 15 Awst

Cyfweliadau gyda grŵp blynyddoedd 1 a 2 BTEC lefel 3 Rubicon | 07 Hydref

## ymweliadau perfformio:

Ballet Cymru a Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn Theatr Glan yr Afon, Casnewydd | 31 Hydref

Jo Fong a George Orange *The rest of our lives* yng nghanolfan Chapter | 7 Medi

CDCCymru *Gorwelion* yn Theatr Sherman, Caerdydd | 20 Medi

CDCCymru *Lansio* yn Nhŷ Dawns, Caerdydd | 10 Tachwedd